CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

# ADRODDIAD CYFLAWNIAD CORFFORAETHOL AC



# ADRODDIAD HUNANWERTHUSO

2024 - 2025

Mae'r ddogfen yma'n cynnwys gwybodaeth am gynllunio a chynnydd blaenoriaethau'r Cyngor sef amcanion llesiant y Cyngor fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a hunanwerthusiad y Cyngor fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

RHONDDA CYNON TAF

# Cynnwys


**ADRAN 1:**
**Crynodeb Gweithredol** 4

**ADRAN 2:**
**Cyflawni yn Erbyn ein Hamcanion Lles yn Ystod 2024/25** 6
***(Our Corporate Performance Report)***

Pobl a Chymunedau 7
Gwaith a Busnes 10
Byd Natur a'r Amgylchedd 12
Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg 14

**ADRAN 3:**
**Ein Hadroddiad Hunanwerthuso Blynyddol** 17

Adran 3a:
**Ein fframwaith rheoli cyflawniad –**
**sut mae'r cyfan yn cyd-fynd, gyda chanolbwynt ar hunanwerthuso.** 20

Adran 3b:
**Ein Hasesiad o'n 'gweithgareddau craidd'.** 25

1. Cynllunio Strategol a Dull Gweithredu 26
2. Cynllunio Ariannol, Cyflawniad a Rheoli Risg 29
3. Adnoddau Dynol/Cynllunio'r Gweithlu 32
4. Rheoli Asedau 36
5. TGCh a Gwasanaethau Digidol 40
6. Caffael a Chomisiynu 44
7. Partneriaethau 47
8. Ymglymiad ac Ymgysylltiad 49
9. Y Gymraeg 52
10. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 54
11. Adborth Rheoleiddwyr 56
12. Newid yn yr Hinsawdd a Lleihau Carbon yn Rhondda Cynon Taf 56
13. Diogelu Corfforaethol 58

Adran 3c:
**Casgliad Cyffredinol** 62

1
ADRAN

CYNGOR RHONDDA CYNON TAF



# CRYNODEB GWEITHREDOL

ADRODDIAD CYFLAWNIADCORFFORAETHOL AC
**ADRODDIAD HUNANWERTHUSO** 2024-2025

**Mae'r Cyngor yn gwasanaethu ardal yng Nghymoedd De Cymru sy'n cwmpasu 424 cilomedr sgwâr, yn ymestyn o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y gogledd i Brifddinas Caerdydd yn y de. Mae'r ystod o wasanaethau a ddarperir yn amrywiol o ran eu natur a'u cymhlethdod – o gynnal mannau gwyrdd, casglu ailgylchu a sbwriel, dosbarthu prydau-ar-glud, addysgu ein pobl ifainc a gofalu am y rhai sydd angen cymorth i aros yn annibynnol. Mae tirwedd y fwrdeistref sirol yr un mor amrywiol. Darperir gwasanaethau o fewn y gymuned ac o nifer sylweddol o leoliadau, yn amrywio o swyddfeydd, depos ac adeiladau rheng flaen.**

Mae'r adroddiad yma'n ymgorffori ein hunanasesiad blynyddol ar gyfer 2024/25 sy'n ofyniad o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ogystal â chrynodeb o'n cyflawniad sy'n ofyniad o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Wrth adrodd ar ein cyflawniad dros y flwyddyn a chynnal ein hunanwerthusiad blynyddol, rydyn ni wedi bod yn onest ac wedi nodi meysydd i'w gwella. Mae ein proses hunanarfarnu gwasanaeth sefydledig wedi ein helpu ni i ddangos ymrwymiad i adolygu ein trefniadau yn barhaus i ateb y cwestiynau allweddol o ran pa mor dda rydyn ni'n cyflawni, sut rydyn ni'n gwybod hynny a beth sydd angen ei wella.

Yn seiliedig ar yr adolygiad a'r dystiolaeth ar waith, ***mae trefniadau'r Cyngor wedi bod yn sail i gynnal sefydlogrwydd a chydnerthedd ariannol y sefydliad, yn ystod cyfnod o bwysau ariannol sylweddol a chyllid cyfyngedig, drwy gynllunio, blaenoriaethu a rheoli adnoddau prin yn effeithiol. Ategwyd y sefyllfa yma gan brosesau craffu a gwneud penderfyniadau cadarn a threfniadau hunanwerthuso sydd wedi'u hen sefydlu. Roedd hyn yn cefnogi meysydd blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol, cyflawni gwasanaethau yn gyffredinol a deilliannau gwell ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau. Mae nifer fach o feysydd i'w gwella wedi'u nodi er mwyn cryfhau'r prosesau cyfredol ymhellach. Yn unol â hynny, yn seiliedig ar y broses hunanasesu, mae'r Cyngor wedi dangos ei fod wedi arfer ei swyddogaethau yn effeithiol; defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, effeithlon ac effeithiol; a rhoi trefniadau llywodraethu ar waith yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod.***

Mae ein hunanwerthusiad blynyddol wedi nodi meysydd i'w gwella, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys o dan adrannau perthnasol yr adroddiad yma. Bydd y meysydd yma'n cael eu monitro drwy gydol 2024/25 yn rhan o'n trefniadau rheoli cyflawniad.

**Os oes gyda chi unrhyw sylwadau neu farn am y ddogfen yma, neu os hoffech chi ragor o wybodaeth, e-bostiwch Garfan Cyflawniad y Cyngor cynlluncyflawni@rctcbc.gov.uk.**

2

ADRAN

CYNGOR RHONDDA CYNON TAF









# CYFLAWNI YN ERBYN EIN **HAMCANION LLES** YN YSTOD 2024/25

**Cyn i ni fynd i fanylion ein hunanasesiad blynyddol (Adran 3), yn yr Adran yma rydyn ni wedi darparu crynodeb o gyflawniad y Cyngor yn ystod 2024/25. Adroddwyd ar ddiweddariadau chwarterol ar gyflawniad y Cyngor yn ystod 2024/25. Cyflwynwyd ein hadroddiad cyflawniad blynyddol manwl ar gyfer 2024/25 i'r Cabinet yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2025 ac yna i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 16 Gorffennaf 2025.**

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethon ni ddiweddaru ein trefniadau adrodd ymhellach drwy nodi'n glir sut y gwnaethom ddefnyddio'r 5 ffordd o weithio a gwerthuso ein cynnydd yn erbyn y 7 nod llesiant cenedlaethol. Roedden ni'n canolbwyntio'n benodol ar ddangos yr effaith sydd gan ein gwasanaethau ar ein cymunedau ac wedi datblygu ymhellach 'profiad byw' rhai o'n trigolion drwy gynnwys adrannau 'cyflenwi ar waith' manwl yn ein trefniadau adrodd ar gyflawniad. Fe wnaethon ni hefyd gryfhau'r gwerthusiad o'n cynnydd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol yn erbyn deilliannau targedig, fel y nodir isod.

Nid bwriad yr Adran yma yw atgynhyrchu'r manylion llawn a adroddwyd yn yr adroddiad blynyddol diwedd blwyddyn, yn hytrach darperir crynodeb wedi'i ganolbwyntio o'r cyflawniad yn erbyn ein Hamcanion Llesiant a'r deilliannau ategol a nodir yn ein Cynllun Corfforaethol. Mae'r risgiau i gyflawni ein Hamcanion Llesiant wedi'u hymgorffori yn ein trefniadau adrodd cyflawniad ac yn cael eu hadolygu a'u craffu drwy gydol y flwyddyn, er hwylustod cyfeirio mae copi o Gofrestr Risg Strategol y Cyngor ar ddiwedd 2024/25 wedi'i ddarparu.

Mae modd bwrw golwg ar fanylion llawn y gwaith a wnaed yn ystod 2024/25 yn yr adroddiad cyflawniad blynyddol a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 7 Gorffennaf 2025.

Mae'r wybodaeth a gyflwynir isod yn rhoi crynodeb o'r cynnydd a wnaethom yn ystod 2024/25.

POBL A CHYMUNEDAU

# CYFLAWNIAD 2024/25

**DATGANIAD CYFFREDINOL O GYNNYDD:**

**Ar gyfer yr 8 deilliant fe wnaethon ni eu nodi i'w cyflawni yn ein Cynllun Corfforaethol, rydyn ni wedi gwneud…**

- cynnydd cadarnhaol yn erbyn 5 deilliant;
- cynnydd da er yn arafach nag a ragwelwyd yn erbyn 1 deilliant; a
- chynnydd cymysg yn erbyn 2 ddeilliant.

*Mae gwybodaeth fanylach ar gyfer pob deilliant wedi'i nodi isod.*

## Gwerthuso cynnydd yn erbyn y deilliannau rydyn ni'n disgwyl eu gweld erbyn 2030.

**Bydd presenoldeb, gwaharddiadau a chyrhaeddiad ym mhob un o'n hysgolion yn parhau i ddangos cynnydd cryf, gan gymharu'n ffafriol â rhannau eraill o Gymru, gyda gwell deilliannau addysgol, cyfleoedd o ran gwaith a hyfforddiant ar gyfer ein disgyblion sy'n gadael yr ysgol.**

Mae cynnydd yn y maes yma wedi bod yn gymysg. Rydyn ni wedi parhau i ganolbwyntio ar gefnogi presenoldeb yn yr ysgol, gan gynnwys cefnogi a herio ysgolion a dulliau ymgysylltu â theuluoedd. Cynyddodd cyfraddau presenoldeb y cyfnod cynradd a'r cyfnod uwchradd ym mlwyddyn academaidd 23/24, gyda phresenoldeb yn yr ysgolion cynradd yn cynyddu 0.7 pwynt canran i 91.7% a phresenoldeb yn yr ysgolion uwchradd 1.0 pwynt canran i 86.8%. Mae data hyd at ddiwedd tymor y gwanwyn 24/25 yn dangos bod 70 o ysgolion wedi gwella eu presenoldeb o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Gwellodd presenoldeb disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim hefyd ym mlwyddyn academaidd 23/24, ond er bod y bwlch wedi cau ychydig, mae'n parhau i fod ymhell islaw presenoldeb disgyblion eraill. Er ei bod yn gadarnhaol bod presenoldeb yn cynyddu, mae presenoldeb yn genedlaethol yn parhau i fod islaw'r lefelau cyn pandemig COVID-19 a bydd yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth i'w wella.

Parhaodd gwaharddiadau tymor penodol i gynyddu yn y cyfnod cynradd ac uwchradd ym mlwyddyn academaidd 23/24. Yn ystod blwyddyn academaidd 24/25 hyd yma, dangosodd 3 ysgol o fewn y cynllun peilot Carfan o Amgylch yr Ysgol ostyngiad mewn gwaharddiadau tymor penodol ac mae darpariaeth Cam 4 hefyd wedi cael effaith gadarnhaol ar leihau/atal gwaharddiadau ar draws nifer o ysgolion. Mae data cyfredol yn dangos bod lefelau gwaharddiadau yn lleihau yn y flwyddyn academaidd gyfredol, gyda gwaharddiadau tymor penodol yn y cyfnod uwchradd yn lleihau i 130.63 fesul 1,000 o ddisgyblion hyd at ddiwedd tymor y gwanwyn o'i gymharu â 172.21 ar gyfer yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Serch hynny, mae lefelau gwaharddiadau yn parhau i fod yn rhy uchel, a bydd hyn yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth ar gyfer gwella, gyda chefnogaeth barhaus i ddulliau ysgol gyfan i gefnogi ymddygiad a lles.

Gwellodd canlyniadau Lefel A 4.4 pwynt canran ar gyfer A*/A (23.5%) a gostyngodd 0.2 pwynt canran ar gyfer A*-C (70.1%) yn 2024 o'i gymharu â 2019. Mae Rhondda Cynon Taf yn parhau i fod islaw cyfartaledd Cymru, ond mae'r bwlch wedi culhau 0.5 pwynt canran ar gyfer A*/A ac wedi tyfu 0.4 pwynt canran ar

gyfer A*-C. Gwellodd canlyniadau TGAU 0.8 pwynt canran ar gyfer A*/A (19.2%) ac fe wnaethon nhw aros yr un fath ar gyfer A*-C (62.2%) yn 2024 o'i gymharu â 2019. Mae Rhondda Cynon Taf yn parhau i fod islaw cyfartaledd Cymru, ond mae'r bwlch wedi aros yr un fath ar gyfer A*/A ac wedi culhau 0.6 pwynt canran ar gyfer A*-C. Dangosodd data cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer blwyddyn academaidd 23/24 ostyngiad bach ar gyfer dangosyddion allweddol, yn unol â gostyngiad tebyg yn genedlaethol. Roedd y sgôr Capio 9 o 361.2 yn uwch na chyfartaledd Cymru, fodd bynnag, roedd sgoriau llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru. O blith 24 o ysgolion a arolygwyd yn ystod blwyddyn academaidd 23/24, nid oedd 19 mewn categorïau dilynol. Bydd gwella ysgolion yn parhau i gael ei gryfhau trwy gyflwyno'r gwasanaeth gwella ysgolion lleol yn hydref 2025. Bu gostyngiad yng nghanran y disgyblion blwyddyn 11 a blwyddyn 13 sy'n gadael yr ysgol nad ydyn nhw mewn Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth. Ym mlwyddyn 11, gostyngodd hyn 0.5 pwynt canran i 2.4% ac ym mlwyddyn 13 0.9 pwynt canran i 3.7%. Serch hynny, bu cynnydd sylweddol yn nifer y rhai sy'n gadael yr ysgol ym mlwyddyn 12 nad ydyn nhw mewn Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth, a gododd i 2.1%. Bydd arferion ar gyfer cefnogi disgyblion blwyddyn 12 sydd mewn perygl o ddod yn bobl sydd ddim mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) yn cael eu hadolygu i sicrhau bod modd i bobl ifainc gael mynediad at lwybrau a chefnogaeth amgen i ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant.

### Bydd gan deuluoedd fwy o gydnerthedd: bydd llai o blant yn ‘derbyn gofal’ yn ein gofal a bydd gyda nhw well cyfleoedd mewn bywyd.

Yn unol â'n Strategaeth Atal Plant sy'n Derbyn Gofal, mae'r cynnydd wedi bod yn gadarnhaol. Rydyn ni wedi parhau i ganolbwyntio ar roi cymorth i deuluoedd er mwyn sicrhau mai dim ond y plant hynny nad oes dewis arall diogel ar eu cyfer sy'n dechrau derbyn gofal. Cafodd nifer o ddeilliannau cadarnhaol iawn eu cyflawni ar achosion lle mae Magu yn darparu cymorth. Ceir enghreifftiau o fabanod sydd wedi'u geni, lle bu risg uchel o asesiad negyddol ac yn y pen draw'r posibilrwydd o wahanu oddi wrth riant, sydd wedi llwyddo i barhau i fod yng ngofal un neu ddau o'i rieni. Mae Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal wedi parhau i ostwng, o 637 ar ddiwedd mis Mawrth 2024 i 611 ar ddiwedd mis Mawrth 2025. Bu gostyngiad sylweddol hefyd yn nifer y Plant ar y Gofrestr Diogelu Plant o 331 ar ddiwedd mis Mawrth 2024 i 309 ar ddiwedd mis Mawrth 2025. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, rydyn ni wedi cynnal arolwg blynyddol ar ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd yn gofyn i sampl o blant a phobl ifainc, a oedd â chynllun gofal a chymorth ar y diwrnod y lluniwyd y sampl, sut maen nhw'n teimlo am y gofal a’r cymorth maen nhw'n eu derbyn. Cwblhaodd cyfanswm o 117 o blant yr arolwg, o'i gymharu â 169 yn 2023/24. Roedd yr ymatebion cyffredinol i'r arolwg yn gadarnhaol. Nododd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr eu bod yn 'teimlo'n ddiogel lle maen nhw'n byw' (95%) a'u bod yn 'teimlo eu bod yn cael gofal da' (96%).

### Bydd mwy o'n trigolion yn defnyddio'r cyfleoedd sydd ar gael ledled y Fwrdeistref Sirol i gadw'n heini ac yn iach a lleihau eu risg o afiechyd.

Yn unol â'n Strategaeth Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol, mae'r cynnydd wedi bod yn gadarnhaol. Rydyn ni wedi parhau i ddatblygu mentrau sy'n canolbwyntio ar 'Bobl' drwy leihau rhwystrau i ymarfer corff, darparu cefnogaeth bersonol i ymarfer corff a datblygu staff a gwirfoddolwyr i'w galluogi i gefnogi gweithgarwch corfforol; a 'Lle' drwy ehangu ein rhaglen o weithgareddau i leoliadau ysgol a chymunedol, datblygu mannau awyr agored ffurfiol ac anffurfiol ac ehangu ein cynnig rhithwir. Mae nifer y trigolion sy'n defnyddio ein cyfleusterau chwaraeon a hamdden yn parhau i dyfu gyda mwy na 2,750,000 o ymweliadau wedi'u cofnodi yn 2024/25. Mae cynllun aelodaeth Hamdden am Oes y Cyngor hefyd yn parhau i dyfu o flwyddyn i flwyddyn i bron i 11,750 o aelodaethau.

## Bydd plant yn ein gofal yn derbyn gofal yn nes at eu cartref ac yn cadw cysylltiad â'u teuluoedd, ffrindiau a chymunedau.

Yn unol â'n Strategaeth Trawsnewid Preswyl RhCT, mae'r cynnydd wedi bod yn gymysg. Rydyn ni wedi parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod pobl ifanc yn cael gofal yn agosach at adref. Ar hyn o bryd, mae 73% o'r plant sy'n derbyn gofal yn preswylio yn Rhondda Cynon Taf (445/611). Er gwaethaf ymdrechion parhaus i gynyddu nifer y Rhieni Maeth yn Rhondda Cynon Taf a bod hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth, mae nifer y Rhieni Maeth yn Rhondda Cynon Taf wedi lleihau, 248 ar 31 Mawrth 2025 o'i gymharu â 268 ar yr un dyddiad y flwyddyn flaenorol (ac mae'n sefyllfa sy'n cael ei phrofi'n ehangach ledled Cymru).

## Gwasanaethau cydgysylltiedig gwell ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol fel bod pobl yn cael y gofal cywir yn y lle cywir ar yr amser cywir.

Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud i weithredu ymateb cymunedol iechyd a gofal cymdeithasol brys, er ei fod yn arafach nag a gynlluniwyd gennym ni. Mae data iechyd ynghylch Oedi Llwybrau Gofal wedi dangos cynnydd yn nifer y bobl sy'n profi oedi wrth aros am ddyraniad gweithiwr cymdeithasol (43 yn 2024/25 o'i gymharu â 34 yn 2023/24), dechrau pecyn cartref gofal newydd (279 yn 2024/25 o'i gymharu â 170 yn 2023/24) ac argaeledd cartrefi gofal, preswyl (50 yn 2024/25 o'i gymharu â 39 yn 2023/24) a nyrsio (108 yn 2023/24 o'i gymharu â 58 yn 2023/24). Mae'r cyflawniad yma'n adlewyrchu cymhlethdod cynyddol achosion a'r galw mawr. Bydd gwaith yn parhau i wella llwybrau gofal a lleihau'r oedi yma.

Yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol, fe gynhalion ni arolwg blynyddol i ddefnyddwyr y gwasanaeth a oedd yn gofyn i sampl o oedolion 18 oed a hŷn, a oedd â chynllun gofal a chymorth ar y diwrnod y lluniwyd y sampl, sut maen nhw'n teimlo am y gofal a'r cymorth y maen nhw'n ei dderbyn. Eleni cwblhaodd 496 o bobl yr arolwg o'i gymharu â 4724 o bobl yn 2023/24. Roedd yr ymatebion cyffredinol i'r arolwg yn gadarnhaol. Nododd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr eu bod yn 'teimlo'n ddiogel lle maen nhw'n byw' (92%) a'u bod yn 'byw mewn cartref sy'n cefnogi eu lles' (93%).

## Llai o bobl yn cael eu heffeithio gan/yn profi trais domestig neu'n mynd yn gaeth i gyffuriau neu alcohol.

Mae 6,327 o unigolion wedi ymgysylltu â'r Prosiect Cysylltu Perthnasoedd Iach. Mae Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVAs) yn weithwyr proffesiynol cam-drin domestig arbenigol sy'n gweithio gyda dioddefwyr cam-drin domestig sydd mewn perygl uchel o niwed difrifol. Mae deilliannau cleientiaid ar gyfer 2024/25 yn dangos bod 99% o gleientiaid wedi nodi eu bod yn teimlo'n fwy diogel ers y cyfnod derbyn, bod 68% wedi profi gostyngiad mewn cam-drin corfforol a rhywiol a bod 66% wedi profi gostyngiad mewn aflonyddu a stelcio a/neu ymddygiadau cenfigennus, rheoli a gorfodi.

Mae mwy o bobl wedi cael mynediad at wasanaethau triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau o'i gymharu â'r llynedd (3,188 o ddechrau triniaeth o'i gymharu â 2,553 yn 2023/24) ac mae mwy o unigolion wedi ymgysylltu ag allgymorth wedi'i dargedu lle mae gwasanaethau lleihau niwed wedi'u darparu (781 o unigolion o'i gymharu â 705 yn 2023/24).

## Mwy o dai fforddiadwy a llai o dai gwag.

Yn unol â'n Strategaeth Cartrefi Gwag, mae cynnydd yn y maes yma yn gadarnhaol. Cafodd 240 o eiddo gwag (8.9%) eu defnyddio eto yn 2024/25, cynnydd o'i gymharu â 200 y flwyddyn flaenorol. Cynyddodd

cyfradd yr unedau tai fforddiadwy newydd a gyflenwyd hefyd i 14.3 fesul 10,000 o aelwydydd (o 8.6 fesul 10,000 o aelwydydd yn 23/24), gyda 148 o dai fforddiadwy wedi'u cyflenwi.

### Bydd gan lai o gartrefi yn Rhondda Cynon Taf gyfraddau ynni islaw Tystysgrif Cyflawniad Ynni D.

Mae cynnydd yn y maes yma'n gadarnhaol. Mae gyda 81.48% o gartrefi yn Rhondda Cynon Taf sgôr effeithlonrwydd ynni D neu uwch, cynnydd o 4.18% o'r data gwaelodlin o 77.73%. Caiff data ei gyfrif ar gyfer cyfnod treigl o 10 mlynedd yn seiliedig ar dystysgrifau perfformiad ynni cyhoeddedig.

# GWAITH A BUSNES

# CYFLAWNIAD 2024/25

**DATGANIAD CYFFREDINOL O GYNNYDD:**

**Ar gyfer y 6 deilliant roedden ni wedi bwriadu cyflawni yn ein Cynllun Corfforaethol, rydyn ni wedi gwneud…**

- cynnydd cadarnhaol yn erbyn 4 deilliant; a
- chynnydd cymysg yn erbyn 2 ddeilliant.

*Mae gwybodaeth fanylach ar gyfer pob deilliant wedi'i nodi isod.*

## Gwerthuso cynnydd yn erbyn y deilliannau rydyn ni'n disgwyl eu gweld erbyn 2030.

### Canol trefi gyda busnesau ffyniannus sy'n helpu i gefnogi'r economi.

Mae'r ddarpariaeth yn y maes yma wedi bod yn gadarnhaol, ond nid yw ei effaith wedi'i throsi'n ddata deilliannau allweddol eto. Mae prosiectau ailddatblygu sylweddol wedi'u cyflawni a'u derbyn yn gadarnhaol, gan gynnwys Canolfan Gelfyddydau Muni a'r parth cyhoeddus ar hen safle'r Neuadd Bingo. Mae prosiectau nodedig eraill yn cael eu datblygu neu ar y gweill, gan gynnwys ailddatblygu Rock Grounds yn Aberdâr a hen safle M&S ym Mhontypridd. Mae Ardal Gwella Busnes ar gyfer Tonypandy yn cael ei datblygu ar hyn o bryd ac mae gwaith yn parhau gyda'r gymuned leol a busnesau i lunio strategaeth newydd ar gyfer canol y dref.

Mae gwerthusiadau annibynnol o brosiectau gan gynnwys datblygiad Llys Cadwyn, gwelliannau i Barc Ynysangharad ac unedau Busnes Tresalem wedi dangos effaith gadarnhaol y prosiectau yma. Serch hynny, mae cyfraddau nifer yr ymwelwyr a chyfraddau eiddo gwag ar draws canol ein trefi yn dangos darlun cymysg, gyda chynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn y Porth a Threorci ond gostyngiad bach yn Aberdâr a Phontypridd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae cyfraddau lleoedd gwag wedi gostwng ychydig yn Aberdâr ond maen nhw'n parhau i fod yn uchel yn y Porth. Bu gostyngiad bach yn nifer y bobl sy'n byw ym Mhontypridd a Threorci, ond mae'r ddwy dref yma'n perfformio'n llawer gwell na'r meincnodau cenedlaethol ac yn parhau i gynnal cynnig cryf o fanwerthwyr annibynnol.

### Isadeiledd a systemau trafnidiaeth gyhoeddus

Agorodd hwb trafnidiaeth y Porth i'r cyhoedd ym mis Ionawr 2025, gan ddarparu opsiynau trafnidiaeth integredig ar fysiau a rheilffyrdd. Rydyn ni wedi gwneud y mwyaf o'r cyllid i gefnogi llwybrau bysiau cyhoeddus sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol a chynllun pris bws £1 a weithredir yn Rhondda Cynon Taf dros wyliau haf yr ysgol a mis Rhagfyr 2024. Bu gwaith yn mynd rhagddo ar waith dylunio ac adeiladu ar ystod o gynlluniau teithio llesol gan gynnwys Cam 4 o lwybr teithio llesol Rhondda Fach. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r gyfres o wybodaeth i helpu i asesu effaith ein gwaith.

## Mwy o bwyntiau gwefru cerbydau trydan sydd ar gael i'r cyhoedd mewn lleoliadau'r Cyngor sy'n cefnogi teithio carbon isel

Mae cynnydd yn y maes yma wedi bod yn gadarnhaol, gyda chynnydd sylweddol yn y seilwaith cerbydau trydan a ddarparwyd. Mae 117 o fannau gwefru cerbydau trydan wedi'u gosod ar safleoedd y Cyngor yn 24/25, gan gynyddu'r cyfanswm i 145. Mae gan 3.12% o fannau parcio ceir y Cyngor bwyntiau gwefru trydan bellach, cynnydd bach o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae fflyd y Cyngor bellach yn cynnwys 44 o gerbydau ULEV.

## Mwy o fusnesau yn cael eu cefnogi i ddatblygu, moderneiddio a thyfu.

Mae'r ddarpariaeth yn y maes yma wedi bod yn gadarnhaol; fodd bynnag, mae effaith ein gwaith wedi bod yn gymysg. Cafodd mwy o fusnesau eu cynorthwyo trwy raglenni grant (136 o'i gymharu â 106 y flwyddyn flaenorol) gyda 48.93 o swyddi llawn amser cyfatebol wedi'u creu neu'u diogelu. Serch hynny, ni wnaethom ni gynyddu nifer y mesurau lleihau carbon a oedd wedi'u cynnwys mewn rhaglenni a gaiff eu cefnogi gan grantiau. Gostyngodd cyfradd y busnesau newydd ychydig i 11.8 fel canran o fentrau gweithredol, ond cynhaliodd ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru, sydd wedi gostwng yn fwy serth nag yn Rhondda Cynon Taf. Gwellodd cyfradd cau busnesau i 14.2 fel canran o fentrau gweithredol, er bod hyn yn dal i fod yn uwch na'r gyfradd gyfartalog genedlaethol.

## Bydd gan fwy o bobl yn Rhondda Cynon Taf y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i ddod o hyd i waith a symud ymlaen o fewn eu swyddi.

Mae cynnydd yn y maes yma wedi bod yn gymysg. Rydyn ni wedi llwyddo i recriwtio 20 o Brentisiaid ac 20 o Raddedigion i'n cynlluniau hirdymor ac wedi darparu rhaglenni cymorth cyflogaeth a sgiliau drwy gydol 2024/25, gan dargedu ystod o gleientiaid gan gynnwys grwpiau cwsmeriaid sy'n agored i niwed, staff mewnol, a phobl ifainc. Serch hynny, arhosodd canran y bobl yn Rhondda Cynon Taf sy'n ddi-waith ar 3.6% yn 2024/25. Cynyddodd canran y bobl sy'n economaidd weithgar ychydig i 73.0%, fodd bynnag, mae hyn yn dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru.

## Bydd mwy o bobl yn ymweld â Rhondda Cynon Taf o'r tu allan i'r Fwrdeistref Sirol ac yn mwynhau'r diwylliant, natur, gweithgaredd a thwristiaeth antur sydd gan Rondda Cynon Taf i'w gynnig.

Mae cynnydd yn y maes yma wedi bod yn gadarnhaol. Ymwelodd 187,000 o bobl â'r Eisteddfod Genedlaethol yn Rhondda Cynon Taf ym mis Awst 2024, gyda chynnydd yn nifer yr ymwelwyr ag atyniadau lleol eraill dros wythnos yr Eisteddfod (gweler blaenoriaeth Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg) a chynnydd o 21% yn nifer yr ymwelwyr ag atyniadau yn gyffredinol.

Cynyddodd nifer yr ymwelwyr rhwng 2023 ac yn 2024 o 6.8% (o 2,197 miliwn yn 2023 i 2,346 miliwn yn 2024 – Ffynhonnell: STEAM[1]

[1] Model STEAM | Ymchwil Twristiaeth | DU | Global Tourism Solutions (UK) Ltd
*Mae Global Tourism Solutions (GTS) yn gwmni ymchwil twristiaeth annibynnol gyda dros ddeg ar hugain o flynyddoedd o brofiad. Maen nhw'n berchen ar ac yn gweithredu model STEAM - Effaith Economaidd Twristiaeth Gymdeithasol, sy'n darparu amcangyfrifon amserol o werth blynyddol, cyfaint ac effaith economaidd twristiaeth i'r sectorau cyhoeddus a phreifat, wedi'u rhannu'n sawl categori, ar gyfer unrhyw ardal ddaearyddol ddiffiniedig.*

# BYD NATUR A'R AMGYLCHEDD

# CYFLAWNIAD 2024/25

**DATGANIAD CYFFREDINOL O GYNNYDD:**

**Ar gyfer y 6 deilliant roedden ni wedi bwriadu cyflawni yn ein Cynllun Corfforaethol, rydyn ni wedi gwneud...**

- cynnydd cadarnhaol yn erbyn y 6 deilliant.

*Mae gwybodaeth fanylach ar gyfer pob deilliant wedi'i nodi isod.*

## Gwerthuso cynnydd yn erbyn y deilliannau rydyn ni'n disgwyl eu gweld erbyn 2030.

### Gwell ansawdd aer ledled y Fwrdeistref Sirol.

Mae cynnydd yn y maes yma wedi bod yn gadarnhaol. Yn 2024/25, roedd gan Rondda Cynon Taf 16 o ardaloedd rheoli ansawdd aer (AQMAs) gyda lefelau uchel yn hanesyddol o allyriadau NO2. Gan fod nifer o leoliadau yn Rhondda Cynon Taf wedi cydymffurfio â'r Amcanion Ansawdd Aer blynyddol ar gyfer $NO_2$, cafodd y 10 ardal rheoli ansawdd aer yma eu dirymu yn 2025. Lefelau cyfartalog $NO_2$ ledled Rhondda Cynon Taf oedd 24.3, gostyngiad o 5.1% dros gyfnod o 12 mis.

### Pobl a chymunedau sy'n gallu cadw'n heini ac iach yn ein mannau gwyrdd.

Mae'r ddarpariaeth yn y maes yma wedi bod yn gadarnhaol. Rydyn ni wedi canolbwyntio ar wella a chynnal ein mannau gwyrdd ledled Rhondda Cynon Taf gyda phedwar man gwyrdd cyhoeddus a pharc wedi ennill Gwobr y Faner Werdd 2024 am: Parc Aberdâr, Parc Gwledig Cwm Dâr, Parc Ffynnon Taf a Pharc Coffa Ynysangharad. Mae'r Cyngor yn parhau i annog trigolion i gadw'n heini gyda niferoedd sylweddol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol awyr agored. Gwnaed dros 460,000 o ymweliadau â'n caeau glaswellt awyr agored a thros 660,000 â'n caeau 3G yn 2024/25. Cymerodd dros 30,000 o bobl ran mewn gweithgareddau corfforol am ddim yn ein Cyfleusterau Awyr Agored yn Rhondda Cynon Taf gan gynnwys Parkrun ac ymweliadau â'n pyllau padlo.

### Mae bywyd gwyllt yn ffynnu ar dir y Cyngor sy'n cael ei reoli mewn ffordd gadarnhaol.

Mae cynnydd yn y maes yma wedi bod yn gadarnhaol gyda phrosiectau sylweddol yn cael eu datblygu. Mae 15 o safleoedd tirwedd fyw newydd wedi cael eu hychwanegu at y rhwydwaith yn 2024/25 ac mae cyfanswm o 59 o safleoedd ledled Rhondda Cynon Taf bellach. Parhaodd cynnal a chadw ardaloedd bioamrywiaeth yn llwyddiannus y flwyddyn ariannol yma, fodd bynnag, oherwydd problemau adnoddau, nid yw data wedi'i gasglu eto ar gyfer 2024/25 ond bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn 2025/26.

### Mae cymunedau'n cael eu cefnogi i wneud mwy i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu a byw'n gynaliadwy.

Mae'r ddarpariaeth yn y maes yma wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan. Yn dilyn cyflwyno polisi newydd 'O Finiau i Fagiau' cyrhaeddodd gyfraddau ailgylchu yn Rhondda Cynon Taf 70% am y tro cyntaf, gyda 97% o aelwydydd yn gwneud y newidiadau cywir. Casglwyd 79,214.72 tunnell o wastraff trefol a'i baratoi ar gyfer ailddefnyddio a/neu ailgylchu sy'n cynrychioli 71.11% o'r gwastraff a ailddefnyddiwyd a/neu a ailgylchwyd. Casglwyd 13,881.60 tunnell o wastraff bwyd, cynnydd o 1,778.16 tunnell o'i gymharu â'r llynedd (12,103.44 tunnell). Casglwyd 1,082.93 tunnell o eitemau trydanol bach (sWEEE) eleni, cynnydd o 113.80 tunnell o'i gymharu â'r llynedd (969.13 tunnell). Serch hynny, roedd cynnydd bach yn y gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi sef 1.65% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol sef 1.43%. Er gwaethaf y cynnydd yma, mae cyfanswm y gwastraff trefol a gasglwyd wedi lleihau 888 tunnell (o 112,291 y llynedd i 111,403 tunnell yn 2024/25)

Mae cynaliadwyedd bwyd wedi cael ei annog a'i gefnogi ymhlith trigolion yn Rhondda Cynon Taf gyda 12 plot rhandir newydd wedi'u cwblhau.

### Mae pobl yn mwynhau strydoedd glân, yn rhydd o drosedd amgylcheddol.

Mae cynnydd yn y maes yma yn gadarnhaol. Mae wardeiniaid cymunedol yn parhau i gwrdd â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) yn wythnosol i gynnal patrolau ar y cyd i fonitro a dileu baw cŵn, sbwriel, troseddau bagiau du gormodol ac ailgylchu halogedig. Ar hyn o bryd mae 8 camera cudd wedi'u gosod mewn ardaloedd lle mae tipio anghyfreithlon yn broblem ac mae cynlluniau ar waith i osod 3 chamera ychwanegol mewn gwahanol leoliadau. Cafodd 95.74% o'r holl graffiti a adroddwyd ei ddileu o fewn y targed, sy'n ostyngiad bach o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol o 98.96%. Roedd 100% o'r priffyrdd a'r tir perthnasol a archwiliwyd o safon uchel neu dderbyniol o ran glendid, sydd yr un fath â'r llynedd.

### Mae mwy o ynni gwyrdd yn cael ei gynhyrchu o 'ynni adnewyddadwy'

Bu cynnydd yn yr ynni adnewyddadwy a gynhyrchir o dir neu adeiladau'r Cyngor o 2.3 MW yn 2023/24 i 2.74 MW yn 2024/25, sy'n dangos cynnydd parhaus o waelodlin 2021/22 o 2 MW. Gyda chwblhau'r fferm solar yng Nghoed Ely, mae'r ffigur yma'n debygol o gynyddu ymhellach dros y flwyddyn ariannol nesaf.

# CYFLAWNIAD 2024/25

**DATGANIAD CYFFREDINOL O GYNNYDD:**

**Ar gyfer y 6 deilliant roedden ni wedi bwriadu cyflawni yn ein Cynllun Corfforaethol, rydyn ni wedi gwneud...**

- cynnydd cadarnhaol yn erbyn 4 deilliant; a
- chynnydd cymysg yn erbyn 2 ddeilliant.

*Mae gwybodaeth fanylach ar gyfer pob deilliant wedi'i nodi isod.*

## Gwerthuso cynnydd yn erbyn y deilliannau rydyn ni'n disgwyl eu gweld erbyn 2030.

### Mae mwy o bobl yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd a mwy o ddisgyblion yn cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.

Yn unol â'n Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-27, rydyn ni'n parhau i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ledled ein gwasanaethau. Mae gwaith cadarnhaol i gynyddu lefelau sgiliau staff, gan gynnwys y cynllun Gwarantu Cyfweliad, wedi gweld cynnydd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu. Ar hyn o bryd, mae gan 8.01% o weithlu'r Cyngor allu siarad Cymraeg Lefel 5. Mae 2.2% ar Lefel 4 a 2.1% ar Lefel 3. Mae'r rhain i gyd yn dangos cynnydd o'i gymharu â data'r flwyddyn flaenorol, gan ein dwyn yn agos at ein targed o 12.4% o siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu (yn unol â'r ganran yn y gymuned).

### Mae pobl yn teimlo eu bod nhw'n 'perthyn' yn eu cymunedau, yn cyd-dynnu'n dda ac yn trin ei gilydd â pharch.

Nid oes gyda ni'r data i ddangos cynnydd yn erbyn y deilliant yma ar hyn o bryd. Serch hynny, ym mis Gorffennaf 2025, byddwn ni'n cynnal Arolwg i Drigolion, yn rhan o ddull cenedlaethol Cymru gyfan, gan weithio gyda Data Cymru. Bydd y data a ddychwelir yn ein galluogi ni i ddeall y cymunedau sy'n byw yn ardal Rhondda Cynon Taf yn well, gan ganiatáu mwy o hyder mewn gwneud penderfyniadau ledled y Cyngor a bydd modd i ni gael mynediad rheolaidd at ddata gwerthfawr, wedi'i feincnodi, a'i ddefnyddio.

### Mwy o gyfleoedd i drigolion o bob oed a chefndir 'gysylltu' drwy'r celfyddydau, llyfrgelloedd a gweithgareddau ac achlysuron cymunedol.

Mae cynnydd wedi bod yn gadarnhaol gyda mwy o ymweliadau â'n llyfrgelloedd yn 2024/25 o'i gymharu â 2023/24. Roedd cyfanswm o 818,108 o ymweliadau â llyfrgelloedd, gan gynnwys ymweliadau corfforol a rhithwir, yn 2024/25 o'i gymharu â 779,929 yn 2023/24. Roedd llai o ymweliadau â'n hachlysuron celfyddydol gyda 38,697 o unigolion yn mynychu achlysuron celfyddydol o'i gymharu â 46,146 yn 2023/24. Mae angen ystyried y data yma yng nghyd-destun yr Eisteddfod Genedlaethol lle amcangyfrifwyd bod yr ŵyl hynod lwyddiannus wedi croesawu mwy na 186,000 o bobl dros yr wyth diwrnod.

## Cyfleoedd i drigolion hyrwyddo a mynegi eu diwylliant, eu treftadaeth a rhannu ymrwymiad i fywydau cynaliadwy drwy gymuned gelfyddydol lewyrchus.

Mae cynnydd wedi bod yn gadarnhaol gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn darparu llawer o gyfleoedd i drigolion fynegi ac ymgysylltu mewn cymuned gelfyddydol lewyrchus. Mae 25 o artistiaid a sefydliadau artistig yn Rhondda Cynon Taf wedi derbyn cymorth yn 2024/25, yr un fath ag yn 2023/24.

## Mae mwy o bobl yn uniaethu â'r hanes a luniodd Rhondda Cynon Taf heddiw ac mae gyda nhw gysylltiad â'r gorffennol.

Mae cynnydd da wedi'i wneud ers lansio Strategaeth Treftadaeth Rhondda Cynon Taf 2025-30, sydd â'r nod o "dathlu a gwerthfawrogi treftadaeth gyfoethog Rhondda Cynon Taf trwy arddangos ein hetifeddiaeth ddiwylliannol, cydnabod y bobl a'r straeon sy'n llunio ein hanes a chadw ein hadeiladau, ein casgliadau a'n hasedau ffisegol ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol."

## Mae cymuned y Lluoedd Arfog yn cael ei chefnogi gan y gymuned ehangach.

Rydyn ni'n parhau i gefnogi grwpiau cyn-filwyr presennol yn Rhondda Cynon Taf ac rydyn ni bellach yn meithrin perthnasoedd cryfach â Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg, gan ehangu ein cyrhaeddiad i gleifion allanol a recriwtio meddygon teulu newydd. Mae'r cynnydd wedi bod yn gadarnhaol, ac rydyn ni wedi llwyddo i helpu a datblygu grwpiau cymorth newydd ledled y Fwrdeistref, gan sicrhau bod grŵp i gyn-filwyr ymweld ag ef bob dydd o'r wythnos, ac eithrio dydd Sul.

3
ADRAN

CYNGOR RHONDDA CYNON TAF



# EIN HADRODDIAD HUNANWERTHUSO BLYNYDDOL

## Trosolwg

**Mae'r dyletswyddau Cyflawniad a Llywodraethu sy'n cael eu hamlinellu yn Rhan 6, Pennod 1 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ymwneud â chryfhau a grymuso llywodraeth leol…"*[gan d]diffinio prif gynghorau'n bendant fel sefydliadau sy'n gwella eu hunain drwy system sy'n seiliedig ar hunanwerthuso ac ar asesiadau o berfformiad gan baneli".***

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrff Cyhoeddus wneud y pethau canlynol:

- parhau i adolygu cyflawniad
- ymgynghori ar gyflawniad ac
- adrodd ar gyflawniad, gan baratoi adroddiad hunanwerthuso ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae'r Ddeddf yn nodi *'Rhaid i gyngor lunio adroddiad hunanwerthuso ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r adroddiad nodi ei gasgliadau ar y graddau y gwnaeth fodloni'r gofynion cyflawniad yn ystod y flwyddyn honno, ac unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd, neu y mae eisoes wedi'u cymryd, i gynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion cyflawniad'.* Nod y ddogfen yma yw cyflawni'r ddyletswydd yma.

Mae'r hunanwerthusiad Corfforaethol yn asesiad cynhwysfawr o'r sefydliad ac nid yw'n asesiad manwl o gyflawniad pob portffolio gwasanaeth. Nod yr hunanwerthusiad yw darparu llwyfan ar gyfer sicrwydd a gwelliant a thrwy wneud hynny helpu i sicrhau ein bod yn cyflawni'r deilliannau gorau i'r trigolion rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Dyma ein pedwerydd hunanasesiad ac rydyn ni'n parhau i ddysgu a datblygu ein dull o'n Hunanasesiadau blaenorol, y mwyaf diweddar ohonynt a ystyriwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi 2024 ac yna wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd 2024. Rydyn ni eisiau dysgu o'r wybodaeth a rennir sy'n dod i'r amlwg gan Gynghorau eraill ac adborth gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Rheoleiddwyr Annibynnol y Cyngor.

O fewn pob rhan o'r hunanwerthusiad yma, ein nod yw gwneud y defnydd gorau o'r data a gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn y parth cyhoeddus, er enghraifft, adroddiadau i bwyllgorau, polisïau, cynlluniau a strategaethau perthnasol y Cyngor. Mae'r dull yma'n lleihau'r wybodaeth sy'n cael ei hailadrodd ond yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen fel y nodir yn y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor barhau i adolygu i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion cyflawniad', sef i ba raddau y mae:

1. arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;
2. defnyddio ei adnoddau mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol;
3. y mae ei lywodraethiant yn effeithiol er mwyn sicrhau'r uchod.

Er bod y Ddeddf yn nodi'r ddyletswydd i gynnal hunanwerthusiad blynyddol ac adrodd arno, nid yw'n darparu strwythur i'r broses na'r adroddiad blynyddol, mae'r Ddeddf yn nodi'n benodol y dylai pob sefydliad benderfynu ar ei ddull gweithredu ei hun. I'n helpu ni drwy'r broses mae'n ddefnyddiol deall beth mae hunanwerthuso yn ei olygu ar ei lefel symlaf.

Mae'r cwestiynau canlynol yn ein harwain drwy'r broses hunanwerthuso:


1. **Ydyn ni'n gwneud yn dda?**
2. **Sut rydyn ni'n gwybod?**
3. **Beth alla i ei wneud yn well a sut**

Mae'r fframwaith y mae'r Cyngor wedi'i fabwysiadu ac felly strwythur ein hunanwerthusiad yn seiliedig ar y meysydd canlynol:

- **Ein fframwaith rheoli cyflawniad – sut mae'r cyfan yn cyd-fynd, gyda chanolbwynt ar hunanwerthuso.**
- **Ein hasesiad o'n 'gweithgareddau craidd'. - Mae'r adran yma'n cynnwys manylion ein hasesiad a meysydd lle credwn y gallwn wella pan fo'n briodol.**

ADRAN 3A





# EIN FFRAMWAITH RHEOLI CYFLAWNIAD

# SUT MAE'R CYFAN YN CYD-FYND, GYDA CHANOLBWYNT AR HUNANWERTHUSO

**Mae ein Cynllun Corfforaethol yn nodi'r deilliannau y mae'r Cyngor am eu cyflawni gyda'r nod o sicrhau gwell deilliannau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol i'n cymunedau. Mae cyflwyno'r Cynllun Corfforaethol wedi'i ategu gan ein Fframwaith Rheoli Cyflawniad, diben y fframwaith yw cael y trefniadau ar waith i helpu i gyflawni'r deilliannau a fwriadwyd, rheoli ein risgiau a darparu atebolrwydd ar gyfer cyflawni.**

Mae cynlluniau blaenoriaeth manwl ar waith i gefnogi cyflawniad ein hamcanion lles (dyma ein blaenoriaethau o fewn ein Cynllun Corfforaethol) ac mae'r cynlluniau yma'n anelu at reoli'r risgiau strategol i gyflawni ein hamcanion ac maen nhw'n cynnwys cerrig milltir, camau gweithredu a mesurau. Mae cynlluniau darparu gwasanaethau hefyd ar waith, ac fe'u cefnogir gan ystod eang o Bolisïau, Strategaethau a threfniadau gwaith.

Caiff atebolrwydd o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol a rheoli ein hadnoddau'n effeithiol ei gyflawni drwy swyddogaethau adrodd a chraffu'r Cyngor. I ddarganfod pam, pryd a sut mae ein cyflawniad yn cael ei fonitro, bwriwch olwg ar yr adran 'Cyflawniad y Cyngor' o'n gwefan.

I gefnogi diwylliant cyflawniad y Cyngor, mae'r Fframwaith Rheoli Cyflawniad yn cynnwys hunanwerthuso/asesiad amserol a chymesur ar lefel Gwasanaeth a Chorfforaethol. Mae ein Hunanwerthusiad o'n Gwasanaethau blynyddol wedi bod ar waith ers 2016. Anogir gwasanaethau i fod yn onest ac yn wrthrychol wrth gwblhau eu hunanwerthusiad. Anogir swyddogion ar draws y Cyngor i ymdrechu i ddarparu'r gwasanaethau gorau gyda'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r Cyngor o'r farn nad yw hunanwerthuso effeithiol yn ddyfarniad sefydlog a gynhelir unwaith y flwyddyn. Mae'n broses barhaus.

Mae'r hunanwerthusiad yn gofyn i wasanaethau fod yn glir ynghylch sut y maen nhw'n cyflawni, ac mae hyn yn gyson â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Er enghraifft, pa mor llwyddiannus ydyn nhw, sut y maen nhw'n gwybod, a nodi beth allen nhw ei wneud i wella.

**Mae'r Hunanwerthusiad o'n Gwasanaethau hefyd yn:**

- Helpu gwasanaethau i wneud penderfyniadau gwell, rheoli risgiau a rhoi adborth mewn perthynas â'r angen am gymorth corfforaethol a chwmpas y cymorth hwnnw.
- Dangos gwerth am arian, y potensial ar gyfer newid mewn gwasanaeth, gwariant neu arbedion effeithlonrwydd a nodi effaith darpariaeth gwasanaeth newydd neu ddiwygiedig.
- Galluogi Gwasanaethau Corfforaethol i nodi a blaenoriaethu anghenion cymorth gwasanaeth.
- Yn gweithredu fel y mecanwaith ar gyfer casglu gwybodaeth allweddol er mwyn galluogi adroddiadau statudol gwybodus mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Bioamrywiaeth.
- Yn cynorthwyo gwasanaethau i ddarparu tystiolaeth ar gyfer archwiliadau neu arolygiadau a chyflawni gofynion deddfwriaeth berthnasol.

Mae'r model hunanwerthuso yn cael ei adnewyddu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn ystyried adborth gan wasanaethau a'i fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn addas i'r diben. Dros y blynyddoedd mae'r hunanwerthusiad wedi cael ei ddatblygu fel bod gwasanaethau'n gallu darparu gwybodaeth am yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy drwy'r pum Ffordd o Weithio a themâu trawsbynciol eraill sy'n llywio adroddiadau statudol.

Cwblhawyd 19 o hunanwerthusiadau gan wasanaethau yn ystod 2024/25.

Mae'r hunanwerthusiadau a'r Cynllun Cyflawni wedi'u cwblhau'n cael eu hadolygu a'u herio gan Brif Weithredwr y Cyngor yn ystod sesiynau un-i-un. Mae'r trefniant cadarn a sefydledig yma'n galluogi'r Prif Weithredwr i ddwyn Swyddogion i gyfrif a nodi meysydd lle mae angen gwelliant neu ffocws er mwyn gwella'n barhaus. Mae'r meysydd yma'n sail i ddarparu gwasanaethau a chynlluniau blaenoriaeth ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Mae'r cyfarfodydd Her a Chymorth yma'n parhau i gael eu hystyried yn rhan annatod a gwerthfawr o'r Fframwaith Rheoli Cyflawniad ac yn gyfle cadarnhaol i herio cyflawniad, archwilio materion a chyfleoedd gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am faterion trawsbynciol i'r Cyngor.

Roedd yr holl Hunanwerthusiadau a Chynlluniau Cyflawni wedi'u cwblhau ar gael ar y Safle Mewnrwyd y Cyngor ar gyfer cyfeirio a defnydd mewnol.

Mae'r Cynlluniau Cyflawni yn ddarostyngedig i drefniadau monitro sy'n cael eu cydlynu gan ein Carfan Rheoli Cyflawniad. Mae camau gweithredu perthnasol o Gynlluniau Cyflawni Meysydd Gwasanaeth yn cael eu tynnu i ffurfio sail y 'Cynlluniau Blaenoriaeth' sy'n eistedd o dan Gynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae'r cynlluniau blaenoriaeth yma'n sail i'r adroddiadau cynnydd a adroddir yn chwarterol i'r Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Mae'r Adroddiad Hunanwerthuso Blynyddol yma'n rhoi'r cyfle i asesu ein gofynion cyflawniad ehangach fel y'u diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r hunanwerthusiad Gwasanaeth yn parhau i nodi ac ystyried ein heriau mwy strategol. Caiff y themâu allweddol a nodwyd gan y Prif Weithredwr o broses 2024 eu rhestru isod:

## Cryfderau

1. Mae cyflawni cerrig milltir a chamau gweithredu allweddol mewn cynlluniau cyflawni, a chyflawni newidiadau i wasanaethau i ddiwallu anghenion, yn aml o fewn cyd-destun ariannol heriol ledled y Cyngor, yn parhau i fod *yn uchel iawn yn gyson*. Os ydyn ni'n ymrwymo i wneud rhywbeth, yn gyffredinol, mae'n cael ei wneud. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n cael ei wneud yn eithriadol o dda, hyd yn oed mewn amgylchiadau heriol.

2. Yn gyffredinol, mae'r cyd-destun strategol yn cael ei ddeall yn dda ac mae cynlluniau cadarn a phriodol ar waith ledled y Cyngor yn gyffredinol. Mae arweinwyr a rheolwyr yn adnabod ac yn deall eu gwasanaethau, yn effro i'r pwysau a'r anghenion, ac yn ymateb yn briodol. *Mae hwn yn Gyngor sy'n cael ei gynnal yn dda.*

3. Mae gan y Cyngor *graidd ariannol cryf* ac mae ein dull o reoli ariannol yn drylwyr a chadarn yn gyson. Mae ein hymateb i reoli pwysau cyllidebol yn rhagweithiol ac yn effeithiol, ac mae'r dulliau yma'n parhau i wasanaethu'r Cyngor yn dda.

4. Mae'r Cyngor â threfniadau *llywodraethu effeithiol* ar waith i hwyluso gwneud penderfyniadau cadarn ac mae hyn yn helpu i sicrhau a dangos atebolrwydd.

5. Mae gwasanaethau'n effro i ac yn *rheoli problemau'r gweithlu yn rhagweithiol* gyda'r cynlluniau graddedigion a phrentisiaid a nodwyd am eu pwysigrwydd, gan eu bod yn elfen werthfawr a llwyddiannus iawn o'r dull gweithredu.

6. Ledled y Cyngor mae gwasanaethau'n effro i ac yn *rheoli risg yn effeithiol*, er bod y rhain yn tyfu mewn rhai ardaloedd.

7. Mae deilliannau *archwiliadau rheoleiddiol yn dda iawn yn gyffredinol*, gan ddangos hyder a sicrwydd yn arweinyddiaeth a rheolaeth y Cyngor. Caiff hyn ei gefnogi gan ein trefniadau monitro ac adrodd cyflawniad ein hunain a'n rhaglen waith archwilio mewnol. Pan gaiff problemau eu nodi, mae ymateb y rheolwyr yn effeithiol.

8. Mae modd i uwch arweinwyr ac aelodau etholedig barhau i fod *yn hyderus yng ngallu, ymrwymiad ac ysgogiad pob un aelod o staff* i gyflawni ar ran y Cyngor a'n cymunedau.

## Cyfleodd ar gyfer datblygu/gwella pellach

1. **Cydnerthedd y Gweithlu**
   Mae cydnerthedd ein gweithlu yn parhau i fod yn faes canolbwynt, o ran rheolaeth a gweithrediad. Mae llawer o wasanaethau'n gweithredu o dan bwysau sylweddol a pharhaus, gan ymateb i alw cynyddol, cymhlethdod angen, digwyddiadau acíwt ac argyfyngau. Er bod yr ymateb i'r pwysau yma bob amser yn dda, lles y staff yw'r flaenoriaeth.

2. **Newid ac Aliniad Sefydliadol**
   Mae rhai cyfleoedd ledled y Cyngor i gryfhau ymhellach y trefniadau cadarn sydd eisoes ar waith: egluro rolau a chyfrifoldebau, gwella effeithlonrwydd a chael gwared ar ddyblygu ymdrech a chydweddu gwasanaethau'n well i gyflawni deilliannau gwell, gwerth am arian ac optimeiddio cyflawniad.

3. **Cynllunio'r Gweithlu**
   Heriau wrth recriwtio i rolau arbenigol ar ledled y Cyngor o ran cystadleurwydd cyflogau, proffil oedran a chynllunio olyniaeth mewn rhai meysydd, gyda chyfraddau presenoldeb a chyfleoedd i ddatblygu wedi'u hamlygu fel meysydd i ganolbwyntio arnyn nhw'n barhaus.

4. **Data a deallusrwydd**
   Er bod tystiolaeth o wella'r defnydd o ddata wrth werthuso gwasanaethau, mae hyn yn amrywiol a gellid gwneud mwy o ddefnydd o'r data sydd gan y Cyngor i greu deallusrwydd y mae modd gweithredu arno a llywio cynllunio gwasanaethau'n well y tu hwnt i reoli cyflawniad arferol.

5. **Deilliant ac effaith, cynllunio hirdymor**
   Mae canolbwynt cryf ar gyflawni ledled y Cyngor. Mae angen mwy o waith i ddangos tystiolaeth o effaith a deilliant yr hyn rydyn ni'n ei gyflawni ar ein cymunedau, a chynllunio ar gyfer y dyfodol yn rhan o drefniadau cynllunio darparu gwasanaethau. Y tro yma, roedd trefniadau cynllunio darparu gwasanaethau yn anelu at fynd i'r afael â hyn drwy ofyn i Feysydd Gwasanaeth ddechrau cynllunio hyd at 2030.

6. **Optimeiddio buddsoddiadau cyfalaf a strategol**
Mae buddsoddiadau strategol a chyfalaf y Cyngor yn cael effaith fuddiol weladwy a sylweddol ar ein cymunedau. Mae angen inni optimeiddio'r gweithlu a'r dull o gefnogi cyflawni'r rhaglenni yma er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

7. **Atal a Chymorth Cynnar**
Mae'r dirwedd bresennol o wasanaethau sydd ar gael yn gymhleth i'w llywio ac nid yw'r deilliannau bob amser yn glir. Mae datblygu dull strategol cydlynol sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau a gwerth yn flaenoriaeth.

8. **Tai a Digartrefedd**
Mae’r anghydweddiad rhwng y galw a’r cyflenwad, ynghyd â mwy o alw a chymhlethdod yr angen, wedi creu pwysau anghynaliadwy a risg uchel ar wasanaethau tai rheng flaen. Er gwaethaf arloesedd gwasanaeth a rheoli risg effeithiol, mae angen mesurau pellach i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd yma.

9. **Rheoli Asedau Strategol**
mae angen sicrhau o hyd ein bod ni'n cael y gwerth gorau o’n hasedau, ein bod yn eu defnyddio i wneud y gorau o ran darparu gwasanaethau, effeithlonrwydd a chyfraniad at ein hamcanion strategol y cytunwyd arnyn nhw.

10. **Digidol a thechnoleg**
Mae gwasanaethau’n effro i'r manteision posibl y mae modd eu gwireddu o ddigideiddio neu dechnoleg, gyda’r angen i ddatblygu trefniadau ymhellach i wneud y gorau o gyflawni’r manteision yma. Mae cyfleoedd yn parhau i wella barn ein cwsmeriaid, defnyddio datblygu systemau digidol a mapio prosesau busnes fel galluogwr ar gyfer gwella a thrawsnewid gwasanaethau, gan ganolbwyntio ar y meysydd hynny lle mae'r elw mwyaf o fuddsoddiad.

11. **Datblygu Cymunedol a Chydnerthedd Cymunedol**
Mae ein gallu i ymgysylltu â’r gymuned, cyd-gynhyrchu, dulliau datblygu cymunedol sy’n seiliedig ar leoedd ac adeiladu cydnerthedd cymunedol yn cael blaenoriaeth ac o bosibl dan fygythiad gan yr heriau ariannol sy’n wynebu’r sectorau cyhoeddus a chymunedol a gwirfoddol. Gan mai dyma nod datganedig ein Cynllun Corfforaethol, mae angen i ni barhau i fuddsoddi adnoddau a threfnu ein hymdrechion yn unol â hynny.

12. **Datblygiad Economaidd**
Nid yw manteision posibl trefniadau rhanbarthol i hyrwyddo lles economaidd wedi’u gwireddu’n llawn eto. Mae angen i ni sicrhau bod ein hymrwymiad i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd yn arwain at fanteision pendant i Rondda Cynon Taf drwy ddatblygiad strategol, cynllunio trafnidiaeth rhanbarthol a buddsoddiad yn yr economi leol.

Mae'r meysydd lle mae angen datblygiad pellach yn hysbys i ni ac maen nhw'n themâu allweddol yn ein Cynllun Corfforaethol. Lle bo'n berthnasol (h.y. lle maen nhw'n cysylltu ag asesiad ein 'set graidd o weithgareddau'), caiff rhai o'r meysydd yma eu harchwilio ymhellach yn Adran 3b o'r adroddiad yma.

3B
ADRAN




# EIN HASESIAD O'N
# GWEITHGAREDDAU CRAIDD

**Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys set graidd o weithgareddau sy'n gyffredin i lywodraethu corfforaethol cyrff cyhoeddus. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn awgrymu ein bod ni'n defnyddio'r rhain fel fframwaith ar gyfer ein hunanwerthusiad.**

Serch hynny, mae'r Cyngor o'r farn bod gweithgareddau ychwanegol y mae angen eu hasesu hefyd. Mae adran ganlynol yr adroddiad yma wedi'i strwythuro o amgylch y rhestr hon o weithgareddau craidd; mae'r rhai sy'n cael eu hystyried fel y gweithgareddau craidd fel y'u diffinnir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u nodi â seren er eglurder:

- **Cyflawniad Cyllidol a Rheoli Risg***
- **Adnoddau Dynol/Cynllunio'r Gweithlu***
- **Rheoli Asedau***
- **TGCh a Gwasanaethau Digidol**
- **Caffael a Chomisiynu***
- **Gweithio mewn Partneriaeth**
- **Cynnwys, Ymgysylltu ac Adborth gan Gwsmeriaid**
- **Y Gymraeg**
- **Cydraddoldeb a Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol**
- **Adborth Rheoleiddwyr**
- **Sero-net**
- **Diogelu Corfforaethol**

Mae'r meysydd gwaith yma'n pennu ac yn cefnogi cyfeiriad strategol y Cyngor. Maen nhw hefyd yn helpu i sicrhau bod gan y Cyngor strwythur cadarn o ran llywodraethu, atebolrwydd, gwneud penderfyniadau a chydymffurfiaeth gyfreithiol. Mae'n bwysig nodi bod yr holl wasanaethau, p'un a ydyn nhw'n wasanaethau rheng flaen neu wasanaethau swyddfa gefn / cymorth, yn elfennau allweddol o'r Cyngor ac maen nhw i gyd yn destun hunanwerthusiadau gwasanaeth blynyddol a chynlluniau cyflawni. Mae holl wasanaethau'r Cyngor yn ymdrechu'n barhaus i wella adnoddau a gwneud y defnydd gorau ohonyn nhw. Yn y gorffennol, rydyn ni wedi cynnwys adran yn ein hunanasesiad blynyddol mewn perthynas â 'llywodraethu a chraffu', ond ar ôl myfyrio, mae'r manylion sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25 yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol, er mwyn osgoi dyblygu, nid yw wedi'i chynnwys yn yr hunanasesiad blynyddol eleni.

**Mae adran ganlynol yr adroddiad yma yn archwilio'r meysydd sydd wedi'u rhestru uchod ac yn gwerthuso pa mor effeithiol y buon nhw a, lle y bo'n berthnasol, yn nodi meysydd i'w gwella.**

# 1. Cynllunio Strategol a Dull Gweithredu

**Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor a phob corff cyhoeddus osod amcanion llesiant sy'n gwneud y mwyaf o'u cyfraniad at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol. Wrth wneud hynny, mae disgwyl i'r Cyngor gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion llesiant hynny.**

Mae ein Cynllun Corfforaethol newydd, 'Gweithio gyda'n Cymunedau' a gafodd ei gytuno gan y Cabinet ar 20 Mawrth 2024 a'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 24 Ebrill 2024, yn nodi pedwar Amcan Llesiant newydd sy'n cyd-fynd yn gliriach ac yn agosach â'r pedwar piler Datblygu Cynaliadwy h.y.

1. **POBL a CHYMUNEDAU** – Lles Cymdeithasol.
2. **GWAITH a BUSNES** – Lles Economaidd.
3. **BYD NATUR a'r AMGYLCHEDD** – Lles Amgylcheddol.
4. **DIWYLLIANT, TREFTADAETH a'r GYMRAEG** – Lles Diwylliannol.

Wrth baratoi ar gyfer 2025/26, fe wnaethon ni adolygu ein hamcanion lles, ac maen nhw'n parhau'r un fath.

Er mwyn dangos ein bod ni'n cymhwyso'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy, rhaid i Gyrff Cyhoeddus gymhwyso pum Ffordd o Weithio a chyfrannu at saith nod Llesiant cenedlaethol. Mae ein Cynllun Corfforaethol yn nodi sut rydyn ni'n cymhwyso'r pum ffordd o weithio a sut mae'r cynllun yn cyfrannu at y saith Nod Llesiant cenedlaethol. Mae cynnydd parhaus wedi'i gynnwys yn ein Hadroddiadau Cyflawniad chwarterol hirsefydlog, ein Hunanasesiad blynyddol a'n hadroddiadau diwedd blwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethon ni barhau i ymgorffori'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy e.e.:

- parhau i gryfhau ein trefniadau Rheoli Cyflawniad drwy Fframwaith Rheoli Cyflawniad diwygiedig i ymgorffori egwyddorion Datblygu Cynaliadwy a phum 'Ffordd o Weithio' ymhellach mewn Hunanwerthusiadau Gwasanaeth a Chynlluniau Cyflawni,
- cryfhau gwerthusiad yn Adroddiad Cyflawni chwarterol y Cyngor, gan nodi'n glir sut mae cyflawni pedwar Amcan Llesiant y Cyngor yn cyd-fynd â'r saith Nod Llesiant Cenedlaethol ac yn eu cyflawni,
- hyrwyddo ymhellach ofynion y pum ffordd o weithio drwy amlygu enghreifftiau cadarnhaol yn Adroddiad Cyflawniad y Cyngor,
- darparu hyfforddiant i Uwch Swyddogion mewn cydweithrediad â Swyddfa Comisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol,
- defnyddio'r Gwiriwr Cynnydd Ffyrdd o Weithio fel adnodd i brofi a yw Strategaeth Ymglymiad Rhondda Cynon Taf 2024-30 a'r Strategaeth Dreftadaeth RhCT 2024-30 yn cyflawni'r 5 ffordd o weithio yn eu cyflwyniad.

Mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru y pŵer i archwilio cyrff cyhoeddus, i asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â’r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant a chymryd camau i gyflawni’r amcanion llesiant hynny. Yn 2024/25 derbyniodd y Cyngor ddau adroddiad penodol ar Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy a oedd yn rhan o Raglen Archwilio Cymru 2023/24:

**a)** **Cymhwyso'r Prosiect Lleol Egwyddor Datblygu Cynaliadwy** yn deillio o'r Asesiad Sicrwydd a'r Asesiad Risg.

Wedi'i gyhoeddi ym mis Mehefin 2024, adroddodd canfyddiadau'r archwiliad:

***At ei gilydd, gwelsom fod gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar y cyfan i yrru cymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy ledled y sefydliad. Serch hynny, mae cyfleoedd i fireinio canllawiau i staff ac ehangu'r cynnig Dysgu a Datblygu.***

Gwnaed yr argymhellion canlynol yr oedd yn ofynnol i'r Cyngor ymateb iddyn nhw:

**R1.** ***Dylai'r Cyngor fireinio a chryfhau ei ganllawiau a'i dempledi corfforaethol drwy ddiwygio'r templed hunanasesu gwasanaeth i sicrhau bod pob un o'r pum ffordd o weithio wedi'i gynnwys yn benodol gan gwestiwn ar wahân, a sicrhau bod esboniadau o'r pum ffordd o weithio yng nghanllawiau Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth yn fanylach, ac yn fwy cydnaws â'r geiriad yn y Ddeddf.***

**R2.** ***Dylai'r Cyngor ehangu ei gynnig dysgu a datblygu mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i helpu i sicrhau bod modd i staff gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ôl yr angen yn eu rolau.***

**R3.** ***Dylai'r Cyngor ddatblygu trefniadau i sicrhau bod egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei chymhwyso'n effeithiol ac yn gyson yn rhan o'i drefniadau cynllunio prosiectau a rheoli prosiectau.***

Darparwyd adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 19 Medi 2025 a oedd yn cynnwys yr adroddiad terfynol 'Gosod Amcanion Llesiant' ynghyd ag Ymateb Rheolwyr y Cyngor sy'n nodi'r camau y dylai'r Cyngor eu cymryd i weithredu'r argymhellion a adroddwyd gan Archwilio Cymru.

b) **Pennu Amcanion Llesiant** i gyflawni dyletswydd statudol yr Archwilydd Cyffredinol i archwilio pob corff cyhoeddus o leiaf unwaith mewn cyfnod o bum mlynedd, gan gyflwyno'u hadroddiadau ar yr archwiliadau i Senedd Cymru flwyddyn a diwrnod cyn pob etholiad Senedd arferol.

Wedi'i gyhoeddi ym mis Mawrth 2025, adroddodd canfyddiadau'r archwiliad:

***Mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant ac wedi ystyried sut y byddan nhw'n cael eu hadnoddau dros y tymor canolig, ond mae lle i wella monitro deilliannau hirdymor.***

Gwnaed yr argymhellion canlynol yr oedd yn ofynnol i'r Cyngor ymateb iddyn nhw:

**R1.** ***Gwelsom fod cyfleoedd i'r Cyngor adeiladu ar y cynnydd hyd yma wrth fonitro eu hamcanion lles. Dylai'r Cyngor wneud y canlynol:***

- ***Gwerthuso'r cynnydd cyffredinol yn erbyn pob amcan llesiant i helpu i hysbysu'r cyhoedd am lefel y cynnydd yn erbyn pob amcan llesiant, a helpu i lywio gosod amcanion yn y dyfodol.***

**R2.** ***Gwelsom fod cyfleoedd i wella data ac aliniad yr amcan lles Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg. Dylai'r Cyngor wneud y canlynol:***

- ***Adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth sy'n cefnogi'r amcan drwy ddefnyddio'r holl setiau data Darparwyd adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 29 Ebrill 2025 a oedd yn cynnwys yr adroddiad terfynol 'Gosod Amcanion Llesiant' ynghyd ag Ymateb Rheolwyr y Cyngor sy'n nodi'r camau gweithredu i'w cymryd gan y Cyngor i roi'r argymhellion a adroddwyd gan Archwilio Cymru ar waith.***

Bydd ein cynnydd a'r gwaith a gynlluniwyd yn erbyn yr argymhellion yn cael eu hadrodd yn ein Hunanasesiad Blynyddol 2025/26.

Yn ein hunanasesiad blaenorol, fe wnaethom nodi 4 maes i'w gwella o ran ein Cynllunio Strategol a'n Dull Gweithredu. Mae diweddariad ar ein cynnydd isod:

- **Mae angen i ni ddefnyddio Cynllun Corfforaethol newydd 2024/30 fel sbardun ar gyfer arloesi pellach a darparu gwasanaethau mwy effeithlon sydd wedi'u targedu. Mae hyn yn golygu parhau i ystyried yr holl opsiynau a chyfleoedd, ymchwilio i'r hyn y mae eraill yn ei wneud a chyflawni trawsnewidiad parhaus i'n gwasanaethau.**
- **Mae angen i ni adeiladu capasiti pellach i gefnogi trawsnewid, yn enwedig mewn meysydd gwasanaeth rheng flaen sy'n profi lefelau uchel parhaus o alw.**
- **Mae angen i ni gynyddu'r defnydd o ddata a throi hyn yn wybodaeth ystyrlon, er mwyn ei defnyddio i gymharu ein gwasanaethau ag eraill ac i lywio sut mae modd i ni newid gwasanaethau (h.y. dysgu gan eraill) i ddarparu gwasanaethau'n fwy effeithiol ac effeithlon. Bydd hyn hefyd yn cefnogi craffu effeithiol parhaus.**
- **Mae angen i ni fyfyrio ar sut mae ein gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd, lle mae rolau tebyg yn cael eu cyflawni ac ystyried newidiadau strwythurol i'n gweithlu lle bo angen. Bydd hyn yn ein helpu ni i sicrhau deilliannau gwell a bod yn fwy effeithiol ac effeithlon.**

Gweithiodd adolygu a thrawsnewid ein gwasanaethau yn dda mewn rhai meysydd, ond dysgon ni fod angen mwy o gydlyniad rhwng y gwaith trawsnewid a'r gwaith sy'n digwydd gan y Gwasanaeth Cyllid yn ystod y broses o osod y gyllideb flynyddol. Yn ystod 2025/26 byddwn ni'n adolygu ac yn sefydlu sut y mae modd cyd-fynd yn well â threfniadau Cynllunio Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, sydd i gyd yn cefnogi cyflawni ein Cynllun Corfforaethol. Rhan allweddol o'r ffordd y mae modd i'r Cyngor drawsnewid ei wasanaethau yw'r ffyrdd rydyn ni'n defnyddio data. Er ein bod ni'n defnyddio data yn dda mewn llawer o achosion ac mae gyda ni garfan ymroddedig ac arbenigol (o fewn TGCh a Gwasanaethau Digidol) ar waith i helpu i sicrhau bod proses sicrhau ansawdd gadarn ar waith sy'n galluogi casglu gwybodaeth amserol a chywir, rydyn ni'n gwybod bod cyfleoedd o hyd i ddefnyddio'r data sydd gan y Cyngor yn fwy helaeth i gefnogi ein cynllunio a'n cyflawni strategol.

Digwyddodd gwaith trawsnewidiol yn ystod 2024/25 lle dewiswyd nifer o Feysydd Gwasanaeth ac adolygwyd hwy i sefydlu a oedd unrhyw achosion o orgyffwrdd neu ddyblygu. Y nod yw nodi cyfleoedd i ailstrwythuro rhannau perthnasol o'r busnes a thrwy hynny helpu i ddarparu gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon. Cwblhawyd y gwaith yma erbyn mis Mawrth 2024, a chyflwynwyd y deilliannau i'w hystyried gan Uwch Arweinwyr y Cyngor. Mae disgwyl i ddeilliant y gwaith yma gael ei adrodd yn 2025/26.

**Mae'r Cyngor yn parhau i gyflawni ei gynllun corfforaethol yn ystod cyfnodau o bwysau sylweddol ar gyllid cyhoeddus a phwysau ar ein gwasanaethau statudol a dewisol. Mae cynnydd da wedi'i wneud i drawsnewid rhai meysydd o'n gwasanaethau, ond mae angen gwaith pellach i sicrhau bod pob gwasanaeth yn cael ei adolygu a'i herio. At ei gilydd, mae'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn hunanasesiad 2023/24 yn parhau i fod yn berthnasol, ond maen nhw wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r gwaith sydd wedi digwydd:**

**A: Mae angen i ni barhau i fod yn arloesol a darparu gwasanaethau mwy targedig ac effeithlon drwy ystyried yr holl opsiynau a chyfleoedd, ymchwilio i'r hyn y mae eraill yn ei wneud a chyflawni trawsnewidiad gwasanaeth parhaus.**

**B: Mae angen ymgorffori newid trawsnewidiol yn ein prosesau trwy ei gynnwys yn nhrefniadau Cynllunio Ariannol Tymor Canolig y Cyngor.**

**C: Mae angen i ni barhau i ddefnyddio ein data yn ystyrlon – gan ei ddefnyddio i nodi tueddiadau’r dyfodol a llywio newid.**

# 2. **Cynllunio Ariannol, Cyflawniad a Rheoli Risg**

## CYNLLUNIO ARIANNOL

**Diweddarodd y Cyngor ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) a chyflwynodd y Cynllun diwygiedig gerbron y Cabinet (23 Medi 2024), Cyfarfod Llawn o'r Cyngor (25 Medi 2024) a'r Fforwm Cyllideb Ysgolion (25 Medi 2024), gan roi cyfle i graffu ac i randdeiliaid ddeall y sefyllfa ariannol, risgiau a chyfleoedd a ragwelir gan y Cyngor.**

Mae'r diweddariadau i CATC y Cyngor wedi cefnogi'r canlynol yn gyson:

- Nodi bylchau cyllidebol a ragwelir ar gyfer y dyfodol (gan ystyried gofynion gwariant amcangyfrifedig a lefelau ariannu) sydd wedi llywio gofynion arbedion yn gywir a chefnogi rhaglen

o welliant a buddsoddiad sy'n gynaliadwy ac wedi'i thargedu (gweler hefyd Egwyddor Ategol D – 'Strategaeth Gyllideb Refeniw Flynyddol' a'r Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd' a'r 'Cynllun Ariannol Tymor Canolig').

- Asesiad parhaus ac adroddiadau cyhoeddus a chraffu o lefelau'r cronfeydd wrth gefn, gan gynnwys trosolwg manwl o gronfeydd wrth gefn y Cyngor a adroddwyd i'r Cyngor llawn ochr yn ochr â diweddaru'r CATC ar 25 Medi 2023. Mae'r dull cynaliadwy o ailgyflenwi a defnyddio cronfeydd wrth gefn clustnodedig y Cyngor wedi galluogi buddsoddiad unwaith ac am byth ychwanegol ym meysydd blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol; ar gyfer 2024/25 roedd hyn yn gyfanswm o £23 miliwn. Cytunwyd arno gan y Cyngor llawn ar 25 Mawrth 2024 (£6.950 miliwn) a 5 Mawrth 2025 (£16.050 miliwn). Cyfrannodd y buddsoddiad untro ychwanegol, ynghyd ag adnoddau eraill a ddyrannwyd, at fuddsoddiad gwariant cyfalaf o £152 miliwn ar gyfer 2024/25.
- Pennu a chyflawni cyllidebau refeniw cytbwys.

Mae cyflwyno'r deilliannau uchod yn gyson yn rhoi sicrwydd ynghylch cadernid y trefniadau sydd ar waith ac ymrwymiad amlwg i flaenoriaethu adnoddau i feysydd y Cynllun Corfforaethol.

Daw'r Cynllun Corfforaethol ar adeg o bwysau sylweddol ar gyllid cyhoeddus a phwysau ar ein gwasanaethau statudol a dewisol. Ni fydd hi'n bosibl cyflawni'r cynllun heb newid y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu. Mae angen i ni barhau i drawsnewid ein gwasanaethau, bydd hyn yn her, ond yn un y mae'n rhaid i'r Cyngor ei chofleidio (a buddsoddi ynddo gydag adnoddau staffio) i gyflawni newid a darparu'r gwasanaethau gorau posibl i'r rhai sydd eu hangen. Agwedd allweddol ar gyflawni newid trawsnewidiol fydd adolygu'r data sydd gan y Cyngor – mae angen i ni ddefnyddio data'n effeithiol i lywio penderfyniadau. Bydd angen i ni ymchwilio hefyd a gweld beth mae eraill yn ei wneud.

**Mae trefniadau rheolaeth ariannol y Cyngor wedi'u gwreiddio'n dda ac maen nhw wedi darparu'r sylfaen ar gyfer cyflawni. Yng ngoleuni'r pwysau presennol ar gyllid cyhoeddus rydyn ni'n gwybod bod heriau sylweddol o'n blaenau. Mae'r meysydd i'w gwella a nodir yn 'Cynllunio strategol a dull gweithredu', sef pwyntiau A, B ac C, hefyd yn berthnasol i 'Cynllunio Ariannol'.**

## CYFLAWNIAD

**Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2024-2030 'Gweithio gyda'n Cymunedau' yn gosod y cyfeiriad cyffredinol ar gyfer yr Awdurdod gan ddisgrifio'r weledigaeth, y pwrpas, yr amcanion lles a diffinio'r deilliannau, yn dilyn ymgysylltu a chraffu â rhanddeiliaid. Ochr yn ochr â hynny, mae'r Cynllun Corfforaethol wedi ystyried Egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Pum Ffordd o Weithio a Saith Nod Llesiant Cenedlaethol, ac wedi gosod 4 amcan llesiant.**

Mae aliniad clir rhwng amcanion lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor a:

- Dogfennau strategol allweddol y Cyngor gan gynnwys: y Strategaeth Cyllideb Refeniw, Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd, Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chofrestr Risg Strategol, gyda diweddariadau cynnydd yn cael eu hadrodd yn chwarterol yn rhan o Adroddiadau Cyflawniad yn ystod y flwyddyn; a
- Chynllun Llesiant Cwm Taf Morgannwg, 2023-2028.

Yn ystod 2024/25 fe wnaethon ni adolygu a diweddaru ein Fframwaith Rheoli Cyflawniad, wedi'i lywio gan ymgysylltiad â gwasanaethau a'r Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd. Mae'r Fframwaith Rheoli Cyflawniad yn alinio gyda gweledigaeth, pwrpas a deilliannau diffiniedig y Cynllun Corfforaethol 2024 – 2030 'Gweithio gyda'n Cymunedau ac yn adlewyrchu canfyddiadau

Hunanasesiad y Cyngor 2023/24 i wneud gwell defnydd o ddata presennol fel deallusrwydd y mae modd gweithredu arno a pharhau i gryfhau sut mae effaith a deilliannau'n cael eu dangos. Adroddwyd ar y Fframwaith Rheoli Cyflawniad wedi'i ddiweddaru i Uwch Reolwyr y Cyngor a'i gymeradwyo ganddo yn ystod 2024/25. Yn dilyn cymeradwyaeth ac ar gais Uwch Reolwyr y Cyngor, dechreuwyd rhaglen hyfforddi staff ar gyfer rheolwyr a darpar reolwyr, gyda chynlluniau ar gyfer cyflwyno ymhellach yn 2025/26. Mae'r adborth o'r hyfforddiant yma wedi bod yn gadarnhaol gyda'r rhai a dderbyniodd yn cadarnhau pa mor addysgiadol fu'r sesiynau, ac maen nhw wedi'u helpu i ddeall y fframwaith y maen nhw'n gweithio ynddo. Bydd y gwaith yma'n parhau yn 2025/26.

Mae Adroddiadau Cyflawniad chwarterol y Cyngor yn unol â'r gofynion a nodir yn y Fframwaith Rheoli Cyflawniad wedi'i ddiweddaru ac fe'u datblygwyd ymhellach yn ystod 2024/25 gyda'r nod o ddangos yr effaith y mae ein gwasanaethau'n ei chael ar ein cymunedau.

**Mae hon yn rhaglen waith barhaus ac yn faes rydyn ni'n gwybod bod angen i ni ei ddatblygu ymhellach.**

**Mae fframwaith rheoli cyflawniad y Cyngor yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer monitro, adrodd a chraffu ar gyflawniad. Er gwaethaf hyn, mae'r maes gwella canlynol wedi'i nodi:**

**A: Dylid cynnal adolygiad o'r gyfres o wybodaeth sydd ar waith i benderfynu i ba raddau y mae effaith a deilliannau'n cael eu dangos a, lle bo angen, bydd modd dechrau ymgorffori diwygiadau yn y trefniadau adrodd ar gyflawniad ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26. Bydd hyn yn cymryd mwy na blwyddyn i'w roi ar waith yn llawn.**

## RHEOLI RISG

**Mae'r Cyngor yn parhau â'i ddull clir o reoli risg, fel sydd wedi'i nodi yn ei Strategaeth Rheoli Risg. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys ei ddiben mewn perthynas â risg, h.y. rhoi ' …*sicrwydd annibynnol i Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg a'r amgylchedd rheolaeth mewnol' ac wedi'i danategu gan gyfrifoldebau penodol.***

Mae risgiau strategol y Cyngor yn cael eu hadolygu, eu herio a'u monitro gan Uwch Reolwyr y Cyngor a'r Arweinwyr Risg. Mae hyn yn cynnwys adolygiad ffurfiol o'r Gofrestr Risgiau Strategol i sicrhau bod risgiau strategol y Cyngor yn berthnasol ac yn amserol.

Defnyddiwyd yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Strategaeth a'r Pecyn Cymorth i ddatblygu adnodd hyfforddi ar gyfer Swyddogion ledled y Cyngor, a chyflwynwyd y manylion i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 29 Ebrill 2025.

Crynhoir gweithgareddau allweddol mewn perthynas â threfniadau rheoli risg y Cyngor, fel a ganlyn:

- Cofrestr Risg Strategol – adolygwyd a diweddarwyd y Gofrestr Risg Strategol ar gyfer 2024/25, gyda diweddariadau cynnydd yn cael eu cynnwys yn Adroddiadau Cyflawniad chwarterol y Cyngor a diweddariadau yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 4 Tachwedd 2024.
- Adolygwyd y Strategaeth Rheoli Risg ac adroddwyd arni i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 29 Ebrill 2025, gyda diweddariadau o natur cynnal tŷ.
- Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth staff – lansiwyd modiwl hyfforddi ar-lein i staff mewn perthynas â threfniadau rheoli risg y Cyngor yn ystod 2024/25 ac mae yn y broses o gael ei gyflwyno i

swyddogion. Adroddwyd hefyd ar y modiwl hyfforddi i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 4 Tachwedd 2024.

Cynhaliodd Archwilio Mewnol adolygiad archwilio o drefniadau rheoli risg y Cyngor yn ystod 2024/25 a daeth i'r casgliad:

- Yn ystod yr archwiliad nodwyd nifer o gryfderau a meysydd arfer da fel a ganlyn:
    - *Mae gan y Cyngor Strategaeth Rheoli Risg, ac mae'n darparu'r strwythur angenrheidiol i'r trefniadau sydd ar waith. Cefnogir y Strategaeth gan Becyn Cymorth Rheoli Risg a Chofrestr Risg Strategol fanwl. Caiff fformat y Gofrestr Risg Strategol ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol er mwyn sicrhau ei bod yn addas at y diben gyda phob risg yn cael perchennog risg clir.*
    - *Mae'r Gofrestr Risg Strategol wedi'i hymgorffori yn nhrefniadau adrodd am gyflawniad chwarterol y Cyngor ac mae wedi cael ei hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod 2024/25.*
    - *Mae rheolaethau a chamau gweithredu clir wedi'u dogfennu yn y Gofrestr Risg Strategol, gyda chamau gweithredu yn cysylltu ag Amcanion Llesiant y Cyngor.*
    - *Er bod y trefniadau sydd ar waith yn cael eu hystyried yn gadarn, mae modd eu gwella ymhellach drwy nodi a chynnwys camau gweithredu tymor hwy i reoli'r risgiau unigol.*

**Mae rheoli risg yn parhau i fod yn arfer sydd wedi'i wreiddio ar draws y Cyngor, ac mae hyn yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau a'i wasanaethau. Mae'r Cyngor yn cymryd camau i ddatblygu camau gweithredu a cherrig milltir tymor hwy yn rhan o drefniadau cynllunio darparu gwasanaethau; fodd bynnag, mae'r camau gweithredu lliniaru o fewn y Gofrestr Risg Strategol fel arfer yn cwmpasu blwyddyn.**

**A: Dylid datblygu camau lliniaru tymor canolig i hirdymor a'u cynnwys yn y Gofrestr Risg Strategol ar gyfer 2025/26, gan gyd-fynd felly â chynlluniau darparu gwasanaethau a Chynllun Corfforaethol y Cyngor 2024 – 2030.**

# 3. Adnoddau Dynol/Cynllunio’r Gweithlu

**Yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet ym mis Ionawr 2023, parhaodd gwaith yn ystod 2024/25 o ran rhoi'r Strategaeth Adnoddau Dynol 2023-28 a'r Cynllun Gweithlu 2023-28 mwy manwl ar waith. Gyda'i gilydd, mae'r strategaeth a'r cynllun gweithlu yn nodi'r pileri strategol a'r themâu gweithredol i'w cyflawni ar draws gwasanaethau'r Cyngor gan weithio gyda'i gilydd i alluogi diwylliant sefydliadol cadarnhaol, datblygiad personol, cymorth ac adleoli er mwyn cyflawni gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor.**

Cyflwynwyd diweddariad ar gynnydd blwyddyn 1 (2023/24) i'r Cabinet yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2024. At ei gilydd, daethpwyd i’r casgliad bod y trefniadau’n addas at y diben gyda mân newidiadau’n ofynnol.

Mae cynnydd wedi cael ei fonitro yn ystod 2024/25 a bydd adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i Uwch Reolwyr y Cyngor ac yna i'r Cabinet yn ystod hydref 2025. Mae arwyddion cychwynnol yn dangos

cynnydd cadarnhaol o ran cyflawni, a chaiff y rhain eu crynhoi yn yr adran ganlynol o'r hunanasesiad yma.

Mae modd grwpio prif gyflawniadau'r gwasanaeth yn ystod 2024/25 o dan y meysydd canlynol, a rhestrir manylion pellach am y gwaith a gyflawnwyd ar draws y meysydd yma isod:

1. **POBL A CHYFLAWNIAD**
2. **AMGYLCHEDD SEFYDLIADOL -** galluogi staff i ffynnu yn ein sefydliad, gyda sylw ar les, cydweithio i gyflawni gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor

## 1. POBL A CHYFLAWNIAD

**Y nod cyffredinol yw cael y bobl gywir gyda'r sgiliau cywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir, yn cyflawni i safon uchel i sicrhau gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor.**

Parhaodd y gwaith i gefnogi recriwtio a chadw staff yn fwy cyffredinol ledled y Cyngor yn ystod 2024/25. Parhaodd y Cyngor i fod yn aelod achrededig Cyflogwr Cyflog Byw Go Iawn. Caiff ein holl Gyflenwyr a chontractwyr eu hannog i dalu o leiaf y cyflog byw gwirioneddol i'w gweithwyr. Mae cymal yn bodoli bellach yn nhrefniadau contract sy'n datgan –

> '*Mae CBS Rhondda Cynon Taf yn gyflogwr achrededig Cyflog Byw gwirioneddol. Mae hyn yn golygu bod holl weithwyr y Cyngor yn derbyn isafswm cyfradd tâl fesul awr fel y gosodwyd gan y sefydliad Living Wage Foundation. Mae'r ymrwymiad yma'n ymestyn i'n cadwyn gyflenwi ac felly bydd cynigwyr yn sicrhau bod unrhyw weithwyr sydd wedi'u neilltuo i weithio ar unrhyw gontract dilynol o ganlyniad i'r tendr yma hefyd yn derbyn y cyflog byw o leiaf*'.

Yn ystod 2024/25, datblygodd y Garfan Data Corfforaethol Ddangosfwrdd Sefydliadol Staff a gynlluniwyd i wneud y defnydd gorau o'n data a sicrhau bod penderfyniadau'n wybodus ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r dangosfwrdd yn darparu dadansoddiad data cynhwysfawr yn y meysydd canlynol:

- **Adnabod Tueddiadau a Phatrymau:**
  Defnyddiwyd y data i nodi tueddiadau a phatrymau mewn cyflogau gweithwyr, graddau, gostyngiadau a thwf adrannol, a salwch. Mae'r wybodaeth yma'n cynorthwyo i ddeall effaith ariannol y gweithlu a gall gynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch gwelliannau i strwythurau sefydliadol yn y dyfodol.

- **Cadw a Throsiant Gweithwyr:**
  Darperir cipolwg ar gyfraddau cadw a throsiant gweithwyr, gan lywio strategaethau i wella boddhad a chadw gweithwyr.

- **Dyrannu Gweithlu:**
  Mae'r dangosfwrdd yn cynnig gwell gwelededd i strwythur sefydliadol gwahanol adrannau a charfanau.

Yn ystod 2025/26, rhagwelir y bydd y garfan Data Corfforaethol yn parhau i ymchwilio, cael a datblygu data ychwanegol yn y meysydd canlynol:

- **Hyfforddiant ar gyfer Staff:**
  Darparu trosolwg sefydliadol lefel uchel o raglenni hyfforddi.

- **Rheoli Cyflawniad**
  Dadansoddi data cyflawniad staff i fesur cydymffurfiaeth a nodi gofynion hyfforddi a datblygu.

Yn ein hunanasesiad blaenorol, nodwyd y maes canlynol i'w wella o ran trefniadau recriwtio a chadw'r Cyngor.

**Mae angen i ni barhau i ganolbwyntio arbenigedd AD ar y Meysydd Gwasanaeth hynny sydd wedi nodi recriwtio a chadw staff fel risg allweddol.**

Mae maes risg allweddol o ran gweithlu'r Cyngor yn ymwneud â Gweithwyr Cymdeithasol cymwys yn y Gwasanaethau i Blant (nodwch nad yw hyn yn unigryw i Rondda Cynon Taf). Mae hwn yn fater hysbys ac yn risg sy'n cael ei fonitro a'i olrhain drwy drefniadau rheoli risg strategol y Cyngor. Adroddwyd ar gynnydd cadarnhaol yn erbyn Strategaeth Gweithlu Gwasanaethau i Blant i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymuned ar 2 Rhagfyr 2024. Mae'r adroddiad yn nodi diweddariad manwl ar y ddarpariaeth. Mae cynnydd sylweddol yn cynnwys ail-gyflunio'r Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys; cyfathrebu gwell ar draws y gwasanaeth yn arwain at newidiadau i gefnogi lles ymarferwyr; datblygu Model Ymarfer Treth Ar hap wedi'i deilwra; a datblygu'r Academi Gwaith Cymdeithasol i ddod â'r ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer ymarferwyr gwaith cymdeithasol ynghyd a chynyddu cyfleoedd noddi i staff gael mynediad at raglen gradd Gwaith Cymdeithasol y Brifysgol Agored.

Mae data pennawd yn cynnwys:

- Gostyngiad o 4.6% yng nghyfradd swyddi gwag yn y Gwasanaethau i Blant rhwng Medi 2023 a Medi 2024, o 24.7% (168.1 cyfwerth ag amser llawn (CALl)) i 20.1% (137.8 CALl)
- Gostyngiad o 12.3% yng nghyfradd y swyddi gwag ym maes gwaith cymdeithasol o 44% (50 CALl) i 31.7% (35 CALl).
- Gallu cynyddol i ymdrin â llwyth gwaith, gyda 18 o ymarferwyr gweithwyr cymdeithasol asiantaeth yn cael eu cyflogi (Awst 2024) o'i gymharu â 10 ym mis Hydref 2023

Er gwaethaf y cynnydd da yma, mae gwaith pellach yn mynd rhagddo, gyda'r nod o sicrhau bod gan y Gwasanaeth y gweithlu sydd ei angen. Mae sicrhau digon o weithwyr cymdeithasol cymwysedig profiadol ar gyfer gwaith llys ac amddiffyn plant, a digon o staff preswyl profiadol, yn parhau i beri risg sylweddol i'r Cyngor.

Mae gwaith ehangach wedi arwain at hysbysebu wedi'i dargedu, gwefannau swyddi pwrpasol a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i dargedu ystod o swyddi gwag anodd eu llenwi ledled y Cyngor. Daeth trefniadau newydd ar waith ym mis Mai 2024 a oedd yn cefnogi hysbysebu wedi'i dargedu trwy Facebook, TikTok a LinkedIn ar gyfer rolau gan gynnwys glanhawyr ysgolion, nyrsys iechyd galwedigaethol, cynorthwywyr cyfreithiol a chyfreithwyr, ymarferwyr gofal plant a rolau graddedig a phrentisiaeth.

Roedd data o'r arolwg staff yn gadarnhaol ar y cyfan o ran recriwtio a chadw staff. Dywedodd 88% o'r staff a holwyd eu bod am weithio i'r Cyngor am o leiaf y flwyddyn nesaf, gyda dim ond 4% eisiau gadael 'cyn gynted â phosibl'. Dywedodd 76% y bydden nhw'n argymell Rhondda Cynon Taf fel cyflogwr i ffrindiau a theulu, gyda 17% yn niwtral a dim ond 7% yn anghytuno.

At ei gilydd, mae trosiant staff wedi gostwng ychydig i 11.33% yn 2024/25 (o 11.51% yn 2023/24).

Rydyn ni'n effro i'r ffaith bod gyda ni waith i'w wneud mewn rhai Meysydd Gwasanaeth o ran cadw staff. Y gobaith yw y bydd y dangosfwrdd a ddatblygwyd yn ystod 2024/25 *'Cadw a Throsiant Gweithwyr'* yn rhoi'r mewnwelediadau angenrheidiol inni i gyfraddau cadw a throsiant gweithwyr.

Bydd hyn yn ein helpu i ddefnyddio'r data i lywio strategaethau gyda'r nod o wella boddhad a chadw gweithwyr.

Mae agwedd allweddol ar recriwtio a chadw staff llwyddiannus yn ymwneud â chael trefniadau cynllunio olyniaeth effeithiol ar waith, nid yn unig y mae hyn yn helpu dechreuwyr newydd a swyddogion llai profiadol i ymgartrefu'n well yn eu rolau, ond mae'n hollbwysig yn helpu'r Cyngor i roi trefniadau cynllunio olyniaeth cydnerth ar waith.

Yn ein hunanasesiad blaenorol, nodwyd y maes canlynol i'w wella mewn perthynas â threfniadau cynllunio olyniaeth y Cyngor:

**Mae angen i ni barhau i ddatblygu ein trefniadau cynllunio olyniaeth i gefnogi cynllunio gwasanaethau a chydnerthedd yn y tymor canolig i'r tymor hir.**

Tynnodd y rownd ddiweddaraf o hunanwerthuso gwasanaethau sylw at bwysigrwydd ac effaith y cynlluniau graddedig a phrentisiaeth o ran cynllunio olyniaeth ar draws ystod eang o wasanaethau, yn enwedig y rhai sydd â rolau arbenigol a thechnegol. Yn 2024/25, recriwtiwyd 20 o raddedigion ac 20 o brentisiaid drwy'r cynlluniau. Mae data cadw staff yn dangos bod 79% o brentisiaid a 72% o raddedigion yn aros gyda'r Cyngor ar ddiwedd eu lleoliadau (mae 93% o brentisiaid a 94% o raddedigion yn cael cyflogaeth yn gyffredinol, gyda 3 a 4% yn y drefn honno yn mynd i addysg bellach ar ôl diwedd y cynllun). Serch hynny, nid yw wedi bod yn bosibl olrhain cadw staff yn y tymor hwy yn y gweithlu ar lefel sefydliadol. Rydyn ni'n effro i'r faith bod angen mwy o waith i sicrhau bod gyda ni drefniadau cynllunio olyniaeth cadarn ar waith, yn enwedig mewn Meysydd Gwasanaeth lle mae risg hysbys i'r gweithlu.

Rydyn ni'n parhau i ehangu ein cynnig hyfforddiant datblygu rheolaeth:

- Mae Rhaglen Rheoli Mercury wedi cael ei hadnewyddu gyda modiwlau newydd sy'n annog rheolwyr i edrych ar heriau mewn ystod o ffyrdd trwy ddarpariaeth gan garfanau arbenigol ar bynciau gan gynnwys arweinyddiaeth gynhwysol, lles, y Cynllun Corfforaethol a dulliau a gwerthuso sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Ailgychwynnodd y Rhaglen Trawsnewid Arweinyddiaeth ar gyfer uwch reolwyr yn ystod 2024/25 hefyd.
- Mae ystod o raglenni achrededig a heb achrediad eraill a gynigir yn cynnwys cymwysterau ILM mewn rheoli a hyfforddi.
- Cynigiwyd dosbarthiadau meistr hefyd mewn cynnal adolygiadau cyflawniad a sgiliau cyflwyno.

Yn ogystal â hyn, mae 137 o staff wedi cael eu cyfeirio at fynediad at gymwysterau a ariennir yn allanol mewn meysydd megis Rheoli Prosiectau, Gweinyddu Busnes a Gwasanaeth Cwsmeriaid, yn ogystal â hyfforddiant i gefnogi eu lles. Rydyn ni hefyd yn parhau i ddatblygu ein rhwydwaith hyfforddi, lle mae hyfforddwyr mewnol cymwys a dysgwyr sy'n gweithio tuag at gymhwyster perthnasol yn cynnig gwasanaethau hyfforddi i unigolion i gefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau.

## 2. Amgylchedd y Sefydliad

**Mae galluogi staff i ffynnu yn ein sefydliad, gan ganolbwyntio ar les, a chydweithio i gyflawni gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor, yn parhau i fod yn nodwedd allweddol y gwaith y mae'r gyfadran Adnoddau Dynol yn ei gyflawni.**

Mae lles staff yn hanfodol ac yn gynhenid i'n cynllun gweithlu, a chafodd strategaeth lles y gweithlu ei chyhoeddi ym mis Mawrth 2025. Nod y strategaeth yw cefnogi dull rhagweithiol o ymdrin ag iechyd meddwl a lles ehangach, ac annog, cymell a chadw staff presennol, gan helpu i ddenu staff newydd i'r sefydliad ar yr un pryd. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd (CYBI) i ddatblygu cynllun gweithredu i fonitro effaith y strategaeth.

Yn ein hunanasesiad blaenorol, cafodd y maes i'w wella canlynol ei nodi mewn perthynas â rhoi system iTrent ar waith:

> **Mae angen i ni adeiladu ar y cynnydd sydd wedi bod hyd yma i roi system iTrent ar waith (h.y. y system cyflogres ac AD integredig). Bydd hyn yn caniatáu i'n rheolwyr gyrchu ac adolygu cyfres ehangach o ddata i fesur cydymffurfiaeth, er enghraifft, adolygiadau datblygiad personol a'r nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant.**

Mae ystod o waith wedi'i wneud i wella gallu staff o ran cyrchu iTrent, ac ansawdd y data ar y system, a gwella'r broses o echdynnu a defnyddio data'r system, a bydd hyn yn parhau yn 2025 a 2026.

Mae cynnydd wedi bod mewn perthynas â swyddogaeth Porth Hunanwasanaeth i Weithwyr i staff heb gyfeiriad e-bost y Cyngor neu e-bost gwaith. Pan ddechreuodd y gwaith yma, roedd 42% o'n staff yn gallu cyrchu'r porth (defnyddwyr TG yn bennaf). O ganlyniad i'r ymarfer parhaus, mae 94% o staff yn gallu cyrchu'r porth bellach, gyda dros 85% o'r rhain yn mewngofnodi'n rheolaidd. Bydd gwaith yn parhau yn 2025 a 2026 i sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu cyrchu'r porth. Yn dilyn yr ymarfer yma, byddwn ni'n ymchwilio i ddefnyddio iTrent er mwyn cyfathrebu â staff.

Yn 2024 a 2025, y lefel gydymffurfiaeth â'r adolygiad cyflawniad staff blynyddol oedd 71%, cynnydd o 12% o'r 59% a gafodd ei hadrodd y llynedd. Mae modd priodoli'r cynnydd yma i'r ffaith fod y cynllun gweithredu gwella cydymffurfiaeth ar waith, a bod y meysydd â'r gydymffurfiaeth isaf a'r niferoedd uchaf o staff wedi cael eu targedu er mwyn eu helpu gyda'r broses. Mae adolygiad o symleiddio'r broses gymeradwyo a gwaith gwella yn mynd rhagddo, gyda'r nod o wireddu manteision uwchraddio system iTrent.

Wrth barhau i ddatblygu a gweithredu gwelliannau drwy iTrent, byddwn ni'n gallu olrhain effaith ein hyfforddiant a'n cynllunio ar gyfer olyniaeth yn fwy cywir ar lefel sefydliadol o hyn ymlaen.

**Mae gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor yn darparu swyddogaeth allweddol i bob gwasanaeth ym mhob rhan o'r Cyngor. Mae cynnydd wedi bod i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a gafodd eu nodi o ganlyniad i hunanasesiad blynyddol 2023 i 2024 ond mae angen parhau â'r gwaith da sydd wedi'i wneud hyd yma.**

**Mae'r meysydd i'w gwella canlynol yn parhau yn 2025 a 2026:**

**A: Mae angen i ni barhau i ganolbwyntio arbenigedd AD ar y meysydd gwasanaeth yna sydd wedi nodi recriwtio a chadw staff yn risg allweddol.**

**B: Mae angen i ni barhau i ddatblygu ein trefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth i gefnogi cynllunio gwasanaethau a chydnerthedd yn y tymor canolig i'r tymor hir.**
**C: Mae angen i ni adeiladu ar y cynnydd i roi system iTrent ar waith (h.y. y system cyflogres ac AD integredig). Bydd hyn yn caniatáu i'n rheolwyr gyrchu ac adolygu cyfres ehangach o ddata i fesur cydymffurfiaeth.**

# 4. Rheoli Asedau

**Mae ystod eang o asedau sy'n eiddo yn perthyn i'r Cyngor, gan gynnwys ysgolion, llyfrgelloedd, depos a safleoedd gwaredu gwastraff, mynwentydd ac amlosgfeydd, rhandiroedd, swyddfeydd, canolfannau i'r gymuned, cartrefi i'r henoed, cartrefi plant, theatrau ac eiddo lle mae'r Cyngor wedi buddsoddi arian ynddo. Tir ac asedau adeiledig yw'r rhain, a'u gwerth yw £903 miliwn (ym mis Mawrth 2025, yn amodol ar archwiliad). Yn ogystal â'n hasedau adeiledig, o ystyried yr ystod o wasanaethau sy'n cael eu darparu gan y Cyngor, mae'n gweithredu nifer fawr ac amrywiol o gerbydau. Mae mwy na 400 o gerbydau'n cael eu defnyddio.**

Cafodd Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol newydd ar gyfer 2024 i 2030 ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 21 Hydref 2024. Mae gweledigaeth y cynllun rheoli newydd yn cyd-fynd â chyflawni amcanion llesiant y Cyngor. Y weledigaeth yw *'datblygu portffolio eiddo sy'n gynaliadwy, yn ariannol ac yn amgylcheddol, sy'n cefnogi darparu gwasanaethau cyhoeddus o safon ac adfywio economaidd, sy'n diogelu'r amgylchedd a byd natur, ac yn adeiladu cymunedau iach a chydnerth.'*

Mae 3 rhan glir i'r cynllun rheoli – polisi, strategaeth, a chynllun gweithredu gweithredol. Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy wedi'i ymgorffori drwy ein prosesau rheoli asedau drwy sicrhau bod yr ystad wedi'i dylunio i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol.

Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor yr asedau cywir yn y lle cywir i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon, rydyn ni'n herio meysydd gwasanaeth drwy broses y cynllun rheoli. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn cael ei lywio ar lefel gwasanaeth gan Gynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaeth, ac yn sail i'r cynlluniau yma.

Mae cynnydd yn erbyn y camau gweithredu yn y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn cael ei adolygu a'i fonitro gan y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu. Cafodd y diweddariad cynnydd cyntaf ei gyflwyno ger bron y Cabinet ym mis Mehefin 2025.

Yn ein hunanasesiad blaenorol, fe wnaethon ni nodi 2 faes i'w gwella mewn perthynas â'n hasedau. Mae diweddariad ar ein cynnydd isod:

**Y meysydd i'w gwella ar gyfer 2024 a 2025 a gafodd eu nodi oedd:**

- **Mae angen i ni sicrhau bod gennyn ni'r asedau cywir yn y lle cywir a pheidio â chael ein cyfyngu gan ym mhle mae ein hasedau ar hyn o bryd. Bydd yr wybodaeth rydyn ni'n ei chadw ac yn ei diweddaru am anghenion a gofynion ein trigolion, heddiw ac yn y dyfodol, yn llywio'r broses yma.**

- **Ar gyfer ein holl asedau adeiledig, mae angen i ni sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n llawn ac yn cael eu cynnal a'u rheoli'n effeithlon, a'u bod wedi'u hategu gan ein trefniadau monitro defnydd ynni.**

Eleni rydyn ni wedi cyflwyno proses Adolygu a Herio Asedau newydd lle rydyn ni'n adolygu pob ased ar raglen dreigl. Mae'r broses yma'n defnyddio data am yr eiddo, gan gynnwys costau rheoli a chynnal a chadw, ôl troed carbon, a'r lefelau defnydd, a hynny i lywio gwneud penderfyniadau ynghylch gwneud y mwyaf o'n hasedau adeiledig, eu had-drefnu a'u gwella ac yn y pen draw, defnydd hirdymor yr asedau sy'n eiddo. Mae grŵp cychwynnol o asedau adeiledig wedi cael eu dewis i'w hadolygu ar ôl ymgynghori â Chyfarwyddwr Gwasanaeth Eiddo'r Cyngor. Yn dilyn yr adolygiad, bydd argymhellion yn cael eu gwneud i'r Bwrdd Rheoli Asedau Corfforaethol ar gyfer ailddefnyddio neu waredu eiddo dros ben, eiddo sy'n tanberfformio neu eiddo sydd ddim yn cael ei ddefnyddio'n ddigonol.

Yn ogystal ag adolygu argymhellion ar gyfer ailddefnyddio neu waredu asedau, bydd y bwrdd (sy'n cynnwys Uwch Swyddogion o bob rhan o'r Cyngor), pan fo angen, yn:

- Nodi cyfleoedd ar gyfer ailddefnyddio eiddo sydd ddim yn cael ei ddefnyddio'n ddigonol
- Adolygu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli'r portffolio eiddo

Mae Bwrdd Rheoli Gweithredol hefyd wedi'i sefydlu i:

- Sicrhau bod Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaeth yn cael eu llunio'n flynyddol
- Sicrhau bod effaith ar y Gymraeg, cydraddoldeb ac effeithiau economaidd-gymdeithasol yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau'n ymwneud ag eiddo
- Cyfleu penderfyniadau'n ymwneud ag eiddo a rhannu gwybodaeth am arfer da wrth reoli eiddo

Mae cynnydd y Cyngor yn parhau i fod yn dda o ran gweithredu ein Cynllun Gweithle Strategaeth Swyddfeydd: Parod at y Dyfodol 2023 i 2030 a gafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Mai 2023 . Nod y strategaeth yw gwneud defnydd gwell o'n hasedau ffisegol i ddiwallu anghenion sefydliad sy'n newid wrth i ni ymateb i anghenion ein trigolion a'n cymunedau. Cafodd diweddariad ar gynnydd ei gyflwyno ger bron y Cabinet ym mis Tachwedd 2024. Mae enghreifftiau o'r gwaith sydd wedi'i gyflawni yn cynnwys:

- Symud pencadlys y Cyngor i Lys Cadwyn ym mis Mawrth 2024, ac ailddefnyddio offer a dodrefn lle'r oedd modd
- Dymchwel hen safle'r Cyngor yng Nghwm Clydach a pharatoi'r safle ar gyfer ei ailddatblygu'n ysgol arbennig. Rydyn ni'n rhagweld bydd yr ysgol arbennig newydd wedi'i chwblhau erbyn hydref 2026, yn amodol ar gymeradwyaethau dylunio, cynllunio a chyllido boddhaol
- Gwerthu Tŷ Trevithick i Awdurdod Heddlu De Cymru ym mis Ebrill 2024
- Cytunodd y Cabinet ym mis Hydref 2024 ar y cynigion ailddatblygu ar gyfer adeiladau'r Rock Grounds yn Aberdâr. Mae'r cynlluniau'n cynnwys gwesty a sba ar y safle a fydd yn cyfrannu at dwf economaidd cadarnhaol i Aberdâr a Chwm Cynon
- Mae system GoBright ar gyfer cadw desgiau, ystafelloedd a lleoedd parcio wedi'i chyflwyno i adeiladau'r Cyngor, gan gynnwys Canolfan Hamdden Rhondda Fach, Tŷ Oldway, a Llys Cadwyn. Mae'r cam cyflwyno nesaf yn Nhŷ Elái a Thŷ Glantaf yn mynd rhagddo'n dda

Yn ystod 2024 a 2025 fe wnaethon ni barhau â'n gwaith i ddatgarboneiddio effaith ein hasedau (h.y. asedau adeiledig a'n cerbydau fflyd), a hynny drwy ein Cynllun Datgarboneiddio Corfforaethol. Mae disgwyl i'r cynllun gael ei adolygu'n llawn yn ystod 2025 (proses sydd eisoes ar y gweill). Cafodd

Adroddiad Diweddaru ar y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio ar gyfer y Cyfnod 2023 i 2025 ei gyflwyno ger bron y Pwyllgor Craffu – Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant ym mis Rhagfyr 2024.

Yn ehangach, rydyn ni'n parhau i ddatblygu defnydd cymunedol o'n hysgolion, yn ogystal â darparu tir ac adeiladau i gael eu defnyddio gan y gymuned, a hynny mewn ffordd gynaliadwy. Drwy fenter RhCT Gyda'n Gilydd rydyn ni'n ymdrechu i wneud y mwyaf o werth cymdeithasol trwy Drosglwyddo Asedau Cymunedol.

Mae Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn galluogi'n cymunedau i fod yn berchen ar, a/neu reoli, cyfleusterau does dim angen ar y Cyngor rhagor neu a fyddai o bosibl yn cael eu cau neu eu gwaredu fel arall. Mae enghreifftiau o achosion llwyddiannus o Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn dangos yr ystod o weithgarwch ledled y fwrdeistref sirol. Mae'r gwasanaeth wedi trosglwyddo 6 ased cymunedol yn ystod y cyfnod, ac ar hyn o bryd mae'n monitro 36 o eiddo sydd wedi'u prydlesu i grwpiau cymunedol. Mae'r rhain yn cynnwys Y Muni Pontypridd sy'n cefnogi'r celfyddydau ac adloniant, trosglwyddo hen Ganolfan y Gymuned ym Mherthcelyn i gefnogi plant a'u teuluoedd ag awtistiaeth, anawsterau cyfathrebu neu ymddygiadau sy'n gysylltiedig â phryder, a banc bwyd ym Mhontypridd. Rydyn ni wedi cydnabod bod gwybodaeth am reoli eiddo'r rhan fwyaf o grwpiau cymunedol sy'n ymwneud ag asedau'n gyfyngedig. Felly, rydyn ni wedi llunio pecyn i'w helpu gyda hyn, a hynny i sicrhau bod gan y grwpiau'r adnoddau a'r wybodaeth i reoli'r asedau'n effeithiol ac yn gynaliadwy. Mae gwybodaeth yn ymwneud â Throsglwyddo Asedau Cymunedol ar gael ar dudalen we Trosglwyddo Asedau Cymunedol y Cyngor ac mae'n cynnwys cyfleoedd cyfredol o ran trosglwyddo tir ac adeiladau.

Yn ogystal â hyn, drwy roi prydlesi i glybiau chwaraeon rydyn ni'n gallu sicrhau bod y cyfleusterau'n cael eu cynnal a'u defnyddio'n effeithiol gan fod clybiau'n gallu tynnu cyllid i lawr. Mae yna 54 o brydlesi ar gyfer caeau chwaraeon gyda 5 ohonyn nhw wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Y prif gyflawniadau eleni o ran rheoli ein hasedau, yn ogystal â'r rhai sydd wedi'u crybwyll uchod, yw:

- Adleoli staff o Brif Swyddfa Gwasanaethau Cymdeithasol Cwm Rhondda, Tonypandy i swyddfeydd wedi'u hadnewyddu yn Nhŷ Elái, Trewiliam. Mae hyn wedi golygu bod modd rhoi'r swyddfa wag i Trivallis i'w hailddatblygu
- Cwblhau gwaith adnewyddu ac ailfodelu swyddfeydd ym Mhrif Swyddfa Gwasanaethau Cymdeithasol Cwm Cynon, Trecynon, gan drawsnewid yr amgylchedd gwaith er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol
- Parhau i leihau ôl troed swyddfeydd. Rydyn ni'n parhau ar y trywydd cywir i leihau arwynebedd mewnol gros yr arwynebedd llawr 43% erbyn 2027, fel sydd wedi'i nodi yng Nghynllun Gweithle Strategaeth Swyddfeydd y Cyngor: Parod at y Dyfodol 2023 i 2030

  Mae dadansoddiad o'r gostyngiad a chyfraniad pob eiddo tuag at y ffigur cyffredinol i'w weld isod:

| Eiddo | % y gostyngiad |
|---|---|
| **Tŷ Bronwydd** | 13.56 |
| **Y Pafiliynau** | 7.39 |
| **Prif Swyddfa Gwasanaethau** | 2.14 |

| | |
|---|---|
| **Cymdeithasol Cwm Rhondda** | |
| **Tŷ Sardis (Lloriau 2 i 6)** | 4.64 |
| **Rock Grounds** | 2.77 |
| **Tŷ Trevithick** | 11.16 |
| **CYFANSWM:** | **41.66** |

- Mae'r ynni rydyn ni'n ei ddefnyddio yn dal i fod yn gost sylweddol i ni. Mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu ein holl brif safleoedd, yn enwedig y safleoedd yna sydd â'r defnydd ynni uchaf. Y nod o hyd yw adolygu'r holl ddefnydd a nodi mesurau lleihau ynni y mae modd mynd i'r afael â nhw naill ai drwy dargedu buddsoddiad neu drwy sefydlu arfer da gyda defnyddwyr neu reolwyr yr adeilad. Mae deilliannau'r broses gyfan yma'n dda, a bydd y gwaith hanfodol yma'n parhau tua'r dyfodol, a hynny er mwyn arbed arian a helpu i leihau ôl troed carbon y Cyngor.

**Rydyn ni'n parhau i ddatblygu ffyrdd o reoli ein hasedau'n effeithiol, a'u teilwra i faint a siâp newidiol y Cyngor yn dilyn gwaith trawsnewid ar wasanaethau. Rydyn ni'n gwybod bod angen i ni wneud mwy i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadeiladau, ac ad-drefnu ein portffolio eiddo. Byddwn ni'n parhau i wneud hyn yn unol â maint a siâp newidiol y Cyngor a thrwy gyfranogiad cymunedol.**

**Meysydd i'w gwella wedi'u nodi yn 2025 a 2026:**

**A: Parhau i adolygu ac adnewyddu ein portffolio eiddo i sicrhau bod ein hasedau'n addas i'r diben ac yn addas ar gyfer anghenion y Cyngor wrth iddyn nhw esblygu, gan ddefnyddio'r Bwrdd Rheoli Asedau Corfforaethol i reoli'r portffolio asedau yn strategol.**

**B: Ar gyfer ein holl asedau adeiledig, mae angen i ni sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n llawn ac yn cael eu cynnal a'u rheoli'n effeithlon, a'u bod wedi'u hategu gan ein trefniadau monitro defnydd ynni.**

# 5. TGCh a Gwasanaethau Digidol

**Mae gan y Cyngor hanes da o roi newid digidol ar waith, ond rydyn ni'n gwybod bod gennyn ni ragor i'w wneud yn yr amgylchedd cyflym yma. Mae cynnydd y Cyngor yn parhau i fod yn dda iawn wrth gefnogi newidiadau i'r sefydliad a gwasanaethau drwy gyflawni ei Strategaeth Ddigidol 2022 i 2026. Mae ein hymagwedd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ac mae'n gyson â'r gofynion sydd wedi'u nodi yn Strategaeth Ddigidol Genedlaethol Cymru. Mae ein strategaeth yn cynnwys 4 ffrwd waith:**

1. **Atebion Digidol a Dylunio Gwasanaeth**
2. **Deallusrwydd a Mewnwelediad Data**
3. **Sgiliau Digidol, Dysgu a Chynhwysiant**
4. **Seilwaith Digidol**

Mae'r strategaeth yn cynnwys Atodiad sy'n dangos sut mae'n cyfrannu at y 7 nod Llesiant Cenedlaethol, ac mae trefniadau wedi'u datblygu i gofnodi rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith ar yr adeg pan fydd meysydd gwasanaeth yn gofyn am gymorth ar gyfer prosiectau digidol. Rydyn ni hefyd yn defnyddio'r offeryn 'Gwirio Cynnydd Dull o Weithio' a gafodd ei gyhoeddi'n ddiweddar er mwyn parhau i wella ein hymagwedd at gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Yn rhan o'r archwiliad cenedlaethol o Strategaethau Digidol ledled Cymru, roedd Strategaeth Ddigidol Rhondda Cynon Taf yn destun adolygiad gan Archwilio Cymru. Un o'r argymhellion a gafodd ei wneud oedd y dylen ni wella ein trefniadau monitro o ran gwerth a manteision ein prosiectau. Nododd yr argymhelliad:

> ***"… to better understand the impact of its digital strategy and the extent to which it is securing value for money the Council should routinely set out the full costs of individual digital projects and how it will assess their impact and the overall impact of its strategic approach".***

Yn ystod 2024 a 2025, ceisiodd y Swyddfa Gwelliannau Digidol fynd ati'n rhagweithiol i wella'r ffordd y mae'n cofnodi'r manteision disgwyliedig a sut mae'n mesur gwerth ei phrosiectau. Bydd yr wybodaeth yma'n cael ei defnyddio i herio deilliannau prosiectau ymhellach ac i ddangos gwerth y prosiectau digidol yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd rydyn ni'n llunio adroddiad diweddaru canol tymor ar ein cynnydd o ran cyflawni ein strategaeth a chryfhau ei threfniadau llywodraethu, adrodd a chraffu. Bydd hyn yn cael ei adrodd yn ystod 2025 i 2026.

At ddiben yr hunanasesiad yma, mae prif gyflawniadau'r gwasanaeth yn ystod 2024 a 2025 wedi'u rhoi mewn grwpiau o dan y ffrydiau gwaith sydd wedi'u rhestru uchod.

## 1. Atebion Digidol a Dylunio Gwasanaeth

Yn ein hunanasesiad blaenorol, cafodd y maes i'w wella canlynol ei nodi mewn perthynas â newid yn gyflym ac ystyried y defnydd o dechnoleg:

> **Mae angen i ni barhau i newid yn gyflym ac ystyried technoleg fel Deallusrwydd Artiffisial i gefnogi darpariaeth gwasanaeth effeithiol ac effeithlon sy'n diwallu anghenion ein cwsmeriaid a'n defnyddwyr gwasanaeth. Mae angen i ni hefyd barhau i ystyried yr hyn y mae eraill yn ei wneud a lle bo'n berthnasol, dysgu oddi wrthyn nhw.**

Mae'r gwasanaeth yn arwain nifer o brosiectau peilot i lywio ymagwedd y Cyngor at ymdrin â Deallusrwydd Artiffisial yn llawn, gan geisio ei ymgorffori'n ddull o alluogi trawsnewid digidol ym mhob maes. Mae Microsoft Copilot wedi'i ddewis i'w ddefnyddio a'i dreialu yn y Gwasanaethau i Blant a'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. Mae manteision wedi deillio o'r gwaith ar y cam cynnar yma, gan gynnwys baich gweinyddol llai, gwell cydweithio, a gwelliant o ran staff yn ymwneud â'u gwaith. Ochr yn ochr â hynny, mae'r Cyngor yn treialu Prosesau Awtomeiddio Robotig a chynorthwyydd ar gyfer galwadau ffôn sy'n defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i symleiddio tasgau ailadroddus a gwella profiad trigolion wrth ymwneud â'r Cyngor.

Rydyn ni wedi cydweithio â chyrff cenedlaethol, awdurdodau tebyg i ni, a chyflenwyr, gan gyfrannu at adroddiad adolygu ar Ddeallusrwydd Artiffisial gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, ac wedi cymryd rhan mewn gwaith cymunedau ymarfer cenedlaethol. Mae staff y gwasanaeth wedi elwa o adnoddau drwy'r Gymdeithas Rheoli Technoleg Gwybodaeth a Llawlyfr Deallusrwydd Artiffisial Llywodraeth y DU, gan helpu i lywio a llunio ein hymagwedd foesegol a chynhwysol. Mae buddsoddi mewn sgiliau digidol yn parhau i fod yn flaenoriaeth, gyda mentrau fel Arwyr Digidol, sesiynau galw heibio, a hyfforddiant un-i-un yn meithrin diwylliant o arbrofi a dysgu gan gymheiriaid. Mae gwaith parhaus mewn perthynas â Deallusrwydd Artiffisial wedi'i nodi'n gam gwella yng Nghynllun Darparu Gwasanaeth 2025 i 2030.

Parhau i ddefnyddio atebion digidol i gynyddu hunanwasanaethau digidol, gwella profiad digidol cwsmeriaid, lleihau baich gweinyddol, awtomeiddio llif gwaith ac ysgogi ein gweithlu. Nod y gwaith yma yw gwneud y mwyaf o adnoddau trwy brosesau a mynediad at wasanaethau mwy effeithlon a symlach. Mae’r prosiectau’n cynnwys datrysiadau Canolfan Alwadau wedi’u hintegreiddio â phlatfform corfforaethol CRM, a hynny er mwyn gwella gwasanaethau ar-lein i drigolion a systemau 'swyddfa gefn' i staff. Mae hyn wedi galluogi gwell profiad i drigolion, drwy dechnoleg integredig newydd a fydd yn ffurfio 'drws ffrynt' digidol y Cyngor, er mwyn i bobl allu cyrchu Gwasanaethau'r Cyngor. Bydd y Cynllun Darparu ar gyfer 2025 i 2030 yn ceisio technolegau pellach fel teleffoni, e-bost, gwe-sgwrsio, sgwrsfotiaid, Deallusrwydd Artiffisial a ffurflenni ar-lein sy'n sbarduno prosesau awtomataidd trwy Brosesau Awtomeiddio Robotig. Er mwyn manteisio ar y cyfleoedd yma, cafodd ei nodi bod angen i'r dechnoleg sy'n sylfaen i hyn oll fod yn fwy datblygedig na'r hyn sydd ar waith ar hyn o bryd.

Fe wnaeth adolygiad y CRM presennol ein helpu i ddeall sut roedd yn cyfrannu at anghenion gwasanaeth. Roedd y canfyddiadau wedi amlygu er ei fod yn diwallu anghenion presennol, roedd gofynion ychwanegol sylweddol i gyflawni dyheadau'r Cyngor yn y dyfodol. Gyda'r contract yn agosáu at ei derfyn, cafodd gwaith ei gynnal i bennu'r gofynion llawn, a hynny er mwyn paratoi at lywio'r gwaith caffael ar gyfer datrysiad CRM corfforaethol newydd a fyddai'n gweithredu'n sylfaen ar gyfer y technolegau ychwanegol uchod.

Drwy gydol nifer o brosiectau yn rhan o'r rhaglen ddigidol, cafodd y wefan gorfforaethol ei chyfeirio ati'n rheolaidd yn rhwystr i ymwneud yn effeithiol â chwsmeriaid.

Yn ein hunanasesiad blaenorol, cafodd y maes i'w wella canlynol ei nodi mewn perthynas â sicrhau bod ein gwefan yn darparu gwybodaeth sy'n berthnasol ac yn ddibynadwy

**Mae angen i ni adolygu ein gwefan a sicrhau bod gwybodaeth y mae pobl yn holi amdani'n rheolaidd yn hawdd i'w chanfod ac yn gywir. Bydd modd i hyn helpu i wella profiad y cwsmer a lleihau nifer y galwadau sy'n cael eu derbyn gan ein canolfan alwadau gan ganiatáu iddyn nhw**

**ganolbwyntio ar y galwadau pwysicaf. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i'n trigolion dderbyn y gwasanaeth gorau posibl trwy 'fynd ar-lein'.**

Cafodd adolygiad annibynnol ei gomisiynu er mwyn ddeall statws presennol y wefan yn ased strategol sy'n gallu helpu gyda chyfleoedd digidol a hunanwasanaeth gwell i drigolion, busnesau ac ymwelwyr. Casgliad cyffredinol yr adolygiad oedd bod angen datblygu gwefan sy'n cyflawni ein dyheadau ar gyfer y dyfodol a'n hamcanion strategol, ac mae'r canfyddiadau wedi'u hystyried gyda chamau ar waith i gyflawni gwelliant. Yn ogystal â hyn, awgrymodd yr adroddiad fod angen strategaeth gysylltu a chyfathrebu ar gyfer y Cyngor cyfan. Byddai hyn yn sicrhau bod y wefan yn cael ei datblygu'n offeryn sy'n rhan o ddull ehangach o sut mae'r Cyngor yn rhyngweithio â'i gwsmeriaid. Mae ein gwefan yn parhau i fod yn faes i'w wella i ni.

Mae gan y gwasanaeth hanes da o helpu i ailgynllunio gwasanaethau a rhoi atebion digidol ar waith. Mae enghreifftiau o'r gwaith a gafodd ei gyflawni yn ystod 2024 a 2025 yn cynnwys:

- Proses ddigidol well mewn ysgolion i roi gwybod am alergenau a'u rheoli, gan sicrhau bod gofynion disgyblion o ran maeth yn cael eu cofnodi, eu holrhain a'u glynu atyn nhw'n effeithiol ym mhob ysgol
- Arweiniodd ehangu'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg at yr angen i adolygu sut mae lleoedd gofal plant yn cael eu rheoli ar hyn o bryd ledled y sir. Gyda'r adnoddau staffio presennol, fyddai ddim wedi bod yn bosibl rheoli'r cynnydd yn nifer y ceisiadau, y broses dyrannu lleoedd ac ymdrin â'r manylion mynychu dilynol. Felly, cafodd adolygiad ei gynnal o'r system a chafodd ateb digidol ei gyflwyno. Arweiniodd hyn at sefyllfa lle'r oedd modd osgoi costau, gan fod anghenion cwsmeriaid a darparwyr gofal plant ychwanegol yn cael eu diwallu heb yr angen am adnoddau staffio ychwanegol i weinyddu'r cynllun
- Gyda chyflwyniad y Ddyletswydd Bioamrywiaeth, roedd angen ateb digidol ar garfan Bioamrywiaeth y Cyngor a fyddai'n golygu eu bod nhw'n gallu cofnodi ardaloedd newydd ar gyfer cadwraeth, monitro safleoedd sy'n bodoli eisoes a pharatoi adroddiadau i ddylanwadu ar gynigion yn y dyfodol. Cafodd datrysiad gweithio symudol ei roi ar waith, a oedd yn helpu gydag adroddiadau arolygu tra ar y safle, gan gynnig gwell effeithlonrwydd i aelodau'r garfan
- Roedd rheoli safleoedd tirlenwi ledled RhCT yn parhau i fod yn flaenoriaeth o bwys i'r Gwasanaethau Rheng Flaen, o ran effeithlonrwydd arferion a rheoli risgiau. Cafodd ap arolygu safleoedd tirlenwi ei ddatblygu sy'n golygu bod swyddogion yn gallu cofnodi holl fanylion yr arolygiad, monitro newidiadau yn y dirwedd a chofnodi llwybrau arolygu yn fanwl gywir. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn helpu i gofnodi newidiadau yn strwythurau'r safleoedd a thynnu sylw at feysydd lle mae angen camau gweithredu. Bydd fersiwn derfynol y rhaglen yma'n cael ei defnyddio ddechrau 2025 i 2026
- Cafodd y modd i dalu'n ddigyffwrdd ei gyflwyno i bob maes parcio sy'n eiddo i'r Cyngor, gan gynnig gwell hyblygrwydd i'r rheiny sy'n defnyddio canol y dref, a hynny drwy ddarparu dull talu ychwanegol sy'n bodloni disgwyliadau'r cyhoedd heddiw
- Ym mis Awst 2024 fe wnaeth yr Eisteddfod Genedlaethol ymweld â Phontypridd. Yn rhan o hyrwyddo'r tocynnau ar gyfer yr achlysur cenedlaethol yma, roedd angen datrysiad ar gyfer tocynnau consesiwn i deuluoedd plant yn ysgolion RhCT. Roedd y datrysiad yma wedi gweinyddu hyd at 3,500 o docynnau teulu

## 2. Deallusrwydd a Mewnwelediad Data

Rydyn ni'n parhau i wella ein defnydd o ddeallusrwydd a mewnwelediad data i wneud y mwyaf o werth ein hasedau data. Mae hyn yn cynnwys galluogi dangosfyrddau data ar lefel gwasanaeth sy'n helpu i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth trwy ymagweddau sy'n seiliedig ar ddata. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- Rheoli Perygl Llifogydd
- Rheoli Gwastraff – integreiddio data CRM a Routeware i wneud y mwyaf o ddarparu gwasanaeth ar gyfer gwastraff gwyrdd y gaeaf a gwastraff byd masnach
- Plant sy'n Derbyn Gofal a Digartrefedd
- AD – Hyfforddiant a Chwblhau Cyrsiau
- Dangosfwrdd Drafft ITrent gan ddefnyddio cysylltiad Datamart

Mae gwell dulliau o gasglu data o systemau craidd wedi ein galluogi i safoni'r broses adrodd, a pheidio â dibynnu cymaint ar offer adrodd trydydd parti. Mae hyn wedi helpu i gael gwared ar bwyntiau methiant unigol mewn carfanau adrannau.

Rydyn ni hefyd yn parhau i ddatblygu Strategaeth Ddata i ddarparu fframwaith cliriach ynghylch sut rydyn ni'n rheoli pob agwedd ar ein data. Ar hyn o bryd rydyn ni'n gweithio gyda Data Cymru i ddatblygu Archwiliad Aeddfedrwydd Data sy'n diwallu ein hanghenion ni ac anghenion Cynghorau eraill ledled Cymru.

Rydyn ni'n gwella ein galluoedd data, ymchwil a digidol drwy'r Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd (CYBI). Meithrin capasiti mewnol ar gyfer ymchwil a dadansoddi, a meithrin diwylliant o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata i wella deilliannau iechyd yn y dyfodol i'n trigolion.

## 3. Sgiliau Digidol, Dysgu a Chynhwysiant

- Sicrhau bod safonau hygyrchedd yn cael eu hadolygu a bod ein gwefan yn cael ei haddasu yn unol â hynny, a darparu llinell synhwyraidd i'r rheiny sy'n drwm eu clyw
- Diweddaru sgiliau llawer o staff sydd ddim yn defnyddio technoleg ddigidol i'w defnyddio yn rhan o'u swydd, gan roi sgiliau trosglwyddadwy iddyn nhw i'w defnyddio yn eu bywydau personol
- Cyfleoedd datblygu parhaus a chymorth i Aelodau Etholedig gynnal eu rhyngweithio gyda'r Cyngor ac etholwyr drwy atebion digidol
- Gweithio ar y cyd ag Ofcom, Cymunedau Digidol Cymru a phartneriaid Cael RhCT Ar-lein i gyflwyno sesiynau cymunedol mewn perthynas â chamwybodaeth ar-lein

## 4. Seilwaith Digidol

Cyfrifoldeb allweddol y Gwasanaeth yw rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag asedau gwybodaeth, gan sicrhau bod seilwaith TGCh yn cael ei adolygu'n barhaus i sicrhau ei fod yn addas i'r diben ac yn ddiogel, bod prosesau busnes yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a bod gweithgarwch sicrwydd seiber yn cael ei fonitro, ei herio a'i graffu drwy'r Bwrdd Rheoli Gwybodaeth a Seibergadernid.

Cafodd gwaith allweddol i adolygu a gwella ein seilwaith yn barhaus ei gynnal yn ystod 2024 a 2025, a hynny drwy fuddsoddi mewn waliau tân newydd. Maen nhw'n ein galluogi i hidlo'r rhyngrwyd ac yn golygu bod modd i ni ddatgomisiynu system hŷn, sydd wedi lleihau cymhlethdodau a chostau. Cafodd

seilwaith cymorth sydd bellach ddim yn addas i'r diben ei ddatgomisiynu. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Caffael rhwydwaith ardal storio newydd i helpu gyda chyfeintiau data cynyddol
- Defnyddio teleffoni Teams
- Mudo copïau wrth gefn i system newydd yn y Cwmwl, gan alluogi gwell effeithlonrwydd o ran eu hadfer, ac o safbwynt ariannol
- Mudo i wrthfeirws gwell ar gyfer cyfrifiaduron bwrdd gwaith, sydd hefyd yn fwy effeithlon yn ariannol
- Mudo o gyfrifiadur bwrdd gwaith Citrix i RAS Cyfochrog, sydd hefyd wedi arbed arian i ni

Mae cydnerthedd seiberddiogelwch yn hanfodol. Cafodd gwaith ei gynnal yn ystod 2024 a 2025 i ddiogelu, atal a sicrhau bod y Cyngor yn barod i ymateb yn effeithiol i ymosodiadau. Cawson ni ein hail-achredu unwaith eto gan Rwydwaith y Cyfathrebwyr Cyhoeddus, ynghyd â mabwysiadu adnodd Canolfan Gweithrediadau Diogelwch (CymruSOC) i helpu gyda chanfod bygythiadau ac ymateb iddyn nhw. Mae seiber sicrwydd hefyd yn ymddangos yn risg strategol sy'n cael ei monitro yng Nghofrestr Risgiau Strategol y Cyngor yn rhan o adroddiad cyflawniad chwarterol y Cyngor i'r Cabinet, ac mae risg 20 yn cyfeirio at hyn.

**Mae gan y Cyngor hanes da o roi newid digidol ar waith a sicrhau cydnerthedd y seilwaith, ond rydyn ni'n gwybod bod rhagor i'w wneud, gan fod y ffordd rydyn ni'n defnyddio technoleg yn hanfodol i sut rydyn ni'n trawsnewid ein gwasanaethau. Mae cynnydd wedi bod o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a gafodd eu nodi yn hunanasesiad blynyddol 2023 i 2024, ond mae angen parhau â'r gwaith da sydd wedi'i wneud. Mae meysydd i'w gwella yn parhau o'r llynedd:**

**Mae meysydd i'w gwella yn parhau o'r llynedd:**

**A: Mae angen i ni barhau i ystyried technoleg fel Deallusrwydd Artiffisial i gefnogi darpariaeth gwasanaeth effeithiol ac effeithlon sy'n diwallu anghenion ein cwsmeriaid a'n defnyddwyr gwasanaeth. Mae angen i ni hefyd barhau i ystyried yr hyn y mae eraill yn ei wneud a lle bo'n berthnasol, dysgu oddi wrthyn nhw.**

**B: Mae angen i ni adolygu ein gwefan a sicrhau bod gwybodaeth y mae pobl yn holi amdani'n rheolaidd yn hawdd i'w chanfod ac yn gywir. Bydd modd i hyn helpu i wella profiad y cwsmer a lleihau nifer y galwadau sy'n cael eu derbyn gan ein canolfan alwadau gan ganiatáu iddyn nhw ganolbwyntio ar y galwadau pwysicaf. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i'n trigolion dderbyn y gwasanaeth gorau posibl trwy 'fynd ar-lein'.**

## 6. Caffael a Chomisiynu

**Rydyn ni'n parhau i wella ein hymagwedd at Gaffael Cynaliadwy, drwy ein Strategaeth Comisiynu, Caffael sy'n Gymdeithasol Gyfrifol a Rheoli Contractau 2024 i 2030. Mae ein cynnydd yn gadarnhaol ar y cyfan, ac rydyn ni'n parhau i ymdrechu i wneud y mwyaf o'r gwerth, gan gynnwys y gwerth cymdeithasol, yn ein contractau. Yn ystod 2024 a 2025 fe wnaethon ni gynllunio ar gyfer gofynion newydd y mae rhaid i'r Cyngor eu bodloni, a'u rhoi ar waith. Mae'r rhain mewn perthynas â Deddf**

**Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, a Deddf Caffael 2023 a ddaeth i rym yn ystod mis Chwefror 2025.**

Mae modd rhannu gwaith y gwasanaeth yn ystod 2024 a 2025 i'r meysydd canlynol. Mae manylion pellach am y gwaith sydd wedi'i gyflawni yn y meysydd yma isod:

1. Sicrhau bod y gweithgareddau caffael yn cael eu cynnal yn unol â'r broses reoleiddio
2. Gwariant lleol
3. Cyflawni gwerth cymdeithasol
4. Adolygu'r ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu caffael.

## 1. Sicrhau trefniadau o ran cydymffurfio

Fe wnaethon ni gefnogi meysydd gwasanaeth y Cyngor i gyflawni nifer sylweddol o brosiectau yn unol â'r rheoliadau. Mae rhai enghreifftiau isod:

| Thema | Gwerth y Contract |
|---|---|
| **Cefnogi ein cymunedau agored i niwed** | |
| Helpu pobl i fyw'n annibynnol | £347 miliwn |
| Cartrefi gofal i oedolion | £27 miliwn |
| **Cefnogi adfywio ein cymunedau** | |
| Cytundeb datblygu ar gyfer gwesty yng nghanol tref | £4.7 miliwn |
| Gwaith adfywio canol y trefi | £8 miliwn |
| Prosiectau priffyrdd | £50 miliwn |
| **Helpu i gynnig amgylchedd gwell** | |
| Fferm Solar gan gynnwys gwifren breifat i safle ysbyty | £8.6 miliwn |
| Contractau ailgylchu gwastraff | £11 miliwn |
| 52 o gerbydau trydan – gan gynnwys faniau a cheir trydan | Dd/B |
| **Cynnig cyfleusterau addysg o'r radd flaenaf** | |
| Ysgol Anghenion Dysgu Ychwanegol | £35 miliwn |
| Ysgolion cynradd ac uwchradd | £165 miliwn |
| Staff Glanhau Ysgolion | £17 miliwn |

Yn ogystal â hyn, arweiniodd y gwasanaeth 2 brosiect ar y cyd:

- Partner strategol ar gyfer gwasanaethau peirianneg craidd (Redstart gynt) – gwerth amcangyfrifedig y contract yw £77 miliwn
    - Wedi'i weinyddu ar ran awdurdodau lleol RhCT, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful
- Y System Gofal Cymdeithasol Newydd – ar ran 10 awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd y gwaith yma'n cael ei arwain gan sefydliad arall yn flaenorol, ond oherwydd diffyg cynnydd, camodd Rheolwr Gwasanaeth Caffael y Cyngor i'r adwy i gymryd yr awenau

## 2. Gwariant lleol

Yn 2024 a 2025, gwariodd y Cyngor £228 miliwn gyda chyflenwyr ledled Cymru. Roedd £210 miliwn o'r gwariant yna drwy gyflenwyr o godau post CF, SA ac NP. O gyfanswm y gwariant, cafodd £93 miliwn ei wario gyda chyflenwyr yn y fwrdeistref sirol. Rydyn ni'n gwybod bod gennyn ni ragor o waith i'w wneud o hyd i ddeall y marchnadoedd lleol a'r rhwystrau i dendro am waith, ac rydyn ni'n gobeithio y bydd ein Cyfeiriadur Busnesau Lleol yn caniatáu i ragor o fusnesau lleol gofrestru gyda ni.

Mae dros 100 o gwmnïau wedi cofrestru ar adran Cyfeiriadur Busnesau Lleol y wefan. Nod y cyfeiriadur yma yw caniatáu i fusnesau lleol gofnodi eu manylion gyda'r Cyngor er mwyn i ni allu defnyddio'r wybodaeth yma wrth gyhoeddi tendrau yn y dyfodol – enghraifft o hyn yw pan wnaethon ni gynnal y Tendr Addasiadau i'r Anabl. Dyma ddetholiad o adroddiad y tendr:

> ***Cafodd Hysbysiad Contract ei gyhoeddi ar GwerthwchiGymru ar 21 Mehefin 2024 ac roedd ar gael i gyflenwyr drwy edendrocymru ar yr un dyddiad. Cafodd y cais am y tendr ei anfon at GwerthwchiGymru ar 23 Gorffennaf 2024. Cafodd Cyfeiriadur Busnesau Lleol newydd RhCT ei ddefnyddio yn rhan o'r tendr yma a chafodd dolen i'r cyfle tendro yma ei anfon at 18 o wahanol gontractwyr a chyflenwyr sydd wedi'u rhestru yn y cyfeiriadur.***

## 3. Cyflawni gwerth cymdeithasol drwy ein prosesau caffael

Mae ein hymagwedd at werth cymdeithasol wedi bod ar waith ers dros ddwy flynedd. Ychydig iawn o gynghorau ledled Cymru sydd wedi gweithredu'r trefniant yma neu drefniant tebyg.

Mae'r model gwerth cymdeithasol bellach wedi'i ymgorffori yn ein trefniadau contractio, gydag adnodd pwrpasol ar waith i fonitro ymrwymiadau gwerth cymdeithasol o ganlyniad i brosesau tendro.

Yn ystod y flwyddyn cafodd 66 o gontractau gweithredol eu monitro lle mae ymrwymiadau gwerth cymdeithasol wedi'u nodi yn rhan o'r broses dendro. O'r contractau yma mae ymrwymiad wedi'i wneud yn erbyn 606 o fesurau gwerth cymdeithasol.

Mae enghreifftiau o'r gwerth cymdeithasol a gafodd ei gyflawni yn ystod 2024 i 2025 yn cynnwys:

- **Creu 187 o swyddi,** gan ***gadw 35 o'r rhain*** yn dilyn cwblhau'r contract
- *Sicrhau* ***42 o gyfleoedd prentisiaeth***
- Mae ein cyflenwyr a'n contractwyr hefyd wedi darparu ***13,216 o oriau*** o gefnogaeth wedi'i thargedu at weithgareddau'r cwricwlwm ac addysgol ar gyfer ysgolion a cholegau lleol
- Mae **7,985 o oriau** a **£67,000** ychwanegol wedi mynd tuag at ddarparu rhagor o gyfleoedd i fusnesau lleol a syniadau arloesol i gefnogi Cymru fwy ffyniannus (e.e. darparu cyngor busnes arbenigol)
- Mae **8,203 o wythnosau** wedi cael eu treulio ar uwchsgilio staff presennol ar gymwysterau galwedigaethol
- Drwy ein contractau amrywiol, mae ***£33,484,474.99*** wedi'i wario yn y gadwyn gyflenwi leol, gan roi hwb pellach i'r economi leol a chefnogi busnesau lleol
- Mae ***£8,220*** **wedi'i wario a 900 o oriau** wedi'u treulio yn cefnogi grwpiau cyflenwyr a chymunedol i hyrwyddo mentrau newid yn yr hinsawdd a lleihau carbon

Yn ein hunanasesiad blaenorol, fe wnaethon ni nodi parch at ein trefniadau gwerth cymdeithasol yn faes i'w wella:

**Mae angen i ni ddatblygu ein hadroddiadau ar werth cymdeithasol nid yn unig i ddangos yr allbynnau, ond hefyd i ddangos yr effaith maen nhw'n ei chael ar unigolion a'n cymunedau.**

Cafodd ein trefniadau monitro ac adrodd eu datblygu i ddangos yr effaith y mae ein trefniadau gwerth cymdeithasol yn ei chael ar unigolion a'n cymunedau. Mae hyn yn ei ddyddiau cynnar ac yn rhywbeth y byddwn ni'n parhau i'w ddatblygu ymhellach.

## 4. Adolygu'r ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu caffael

Yn y flwyddyn ariannol 2023 i 2024, roedd allyriadau o nwyddau a gwasanaethau a gafodd eu prynu (y gadwyn gyflenwi) yn cyfrif am 73% o gyfanswm ôl troed carbon y Cyngor.

Thema glir iawn drwy gydol ein strategaeth yw cefnogi ein dyheadau i fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Rydyn ni wedi llunio pecyn cymorth carbon arloesol a fydd yn galluogi cyflenwyr i gyfrifo eu hôl troed carbon eu hunain, ac mae ein trefniadau caffael safonol bellach yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr nodi a datgan sut maen nhw'n bwriadu lleihau eu hôl troed carbon. Mae ein cadwyni cyflenwi yn

ddibrofiad yn y maes yma a bydd angen cryn dipyn o gefnogaeth arnyn nhw – yn enwedig busnesau bach a chanolig (nid cymaint yn y sector adeiladu, felly). Bydd y pecyn cymorth yma yn helpu gyda hyn.

Yn ein hunanasesiad blaenorol, fe wnaethon ni nodi parch at yr ôl troed carbon sy'n cael ei briodoli i nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu caffael gan y Cyngor yn faes i'w wella:

**Mae angen i ni gyflwyno ein pecyn cymorth carbon ar draws contractau allweddol gyda'r bwriad o symud o Haen 1 i Haen 2 o adrodd i Lywodraeth Cymru.**

Cafodd Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion yr Hinsawdd ddiweddariad ar y gwaith sy'n cael ei gynnal i adolygu'r ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu caffael gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 3 Gorffennaf 2025. Yn y cyfarfod, cafodd yr Aelodau wybod am y cynnydd araf mewn perthynas â chyflwyno'r pecyn cymorth carbon yn ystod 2024 a 2025, a hynny oherwydd yr angen i'r garfan ganolbwyntio ei hymdrechion a'i hadnoddau ar baratoi'r Cyngor ar gyfer y Ddeddf Caffael newydd yn ystod 2024 a 2025. Yn ystod 2025 a 2026 byddwn ni'n adolygu'r pecyn cymorth ac yna'n targedu cyflenwyr gyda'r gwariant uchaf ym mhob un o'r prif gategorïau i benderfynu a allwn ni symud y rhain i Haen 2 o ran adrodd. Bydd hyn yn rhoi asesiad mwy cywir o'r effaith carbon yn ogystal â rhoi'r cyfle i ni gael trafodaethau adeiladol gyda chyflenwyr i nodi cyfleoedd i leihau eu hallyriadau carbon.

**Mae trefniadau caffael a chomisiynu'r Cyngor wedi'u gwreiddio'n gadarn , ac mae gennyn ni hanes da o gefnogi cyflawni prosiectau, yn ogystal â bod yn arloesol (y pecyn cymorth carbon a gwerth cymdeithasol, er enghraifft). Ond o ystyried y cynnydd araf yn ystod 2024 a 2025 o ran cyflwyno'r pecyn cymorth carbon, dyma faes rydyn ni'n gwybod bod angen i ni ei gyflawni yn ystod 2025 a 2026 a thu hwnt:**

**A: Mae angen i ni gyflwyno ein pecyn cymorth carbon ar draws contractau allweddol gyda'r bwriad o symud o Haen 1 i Haen 2 o adrodd i Lywodraeth Cymru.**

# 7. Partneriaethau

**Mae'r Cyngor yn parhau a'i hanes da o weithio'n rhan o bartneriaeth ac ar y cyd ag eraill. Mae enghreifftiau'n amrywio o bartneriaethau rhanbarthol ffurfiol, fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg, sy'n cynnwys gweithio'n rhan o bartneriaethau lleol sy'n seiliedig ar leoedd penodol, e.e. gweithio gyda rhanddeiliaid lleol allweddol i ddatblygu Strategaeth Ddrafft Canol Tref Tonypandy a threfniadau partneriaethau sy'n benodol i'r maes dan sylw, e.e. Rhwydwaith Bwyd Cynaliadwy wrth ddatblygu Strategaeth Bwyd Cynaliadwy 5 mlynedd a chwarae rôl flaenllaw ledled Cymru wrth geisio dod o hyd i raglen Cysylltu Gofal i gymryd lle System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda grwpiau cymunedol i ddiwallu angen penodol ac uniongyrchol, neu i wneud cais am brosiectau sydd wedi'u hariannu gan grant â therfyn amser penodol, a'u cyflwyno. Mae llawer o enghreifftiau o drefniadau o gydweithio sydd ar waith yn y Cyngor ar ein tudalen Gweithio gydag Eraill a thrwy RhCT Gyda'n Gilydd.**

Mae'r ddyletswydd i gydweithio yn un o'r 5 Ffordd o Weithio y mae angen i gyrff cyhoeddus eu rhoi ar waith i ddangos eu bod yn bodloni'r gofynion datblygu cynaliadwy sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Serch hynny, rydyn ni'n gweithio'n rhan o bartneriaeth gan mai dyma'r peth iawn i'w wneud i wella deilliannau i bobl a chymunedau a gwneud y mwyaf o'n hadnoddau

cyfunol. Rydyn ni'n awyddus i sicrhau bod unrhyw waith gyda phartneriaid yn darparu gwerth, deilliannau ac effeithiau i'n trigolion a'n cymunedau.

Mae ein Cynllun Corfforaethol newydd, 'Gweithio gyda'n Cymunedau', yn nodi'n glir *'gyda chyllidebau dan bwysau a galwadau ar ein gwasanaethau ar gynnydd, rydyn ni'n cydnabod yr angen i ddatblygu a rheoli disgwyliadau realistig trwy fagu partneriaethau cryfach'*. Mae'r cynllun yn ymgorffori dulliau partneriaeth o gyflawni ar draws y 4 Amcan Llesiant a'r blaenoriaethau sy'n sail iddyn nhw. Mae'r cynllun hefyd yn nodi ein hymrwymiad clir i bartneriaid... *'Byddwn ni'n bartneriaid ymroddedig a gweithgar yn ein gwaith gydag eraill, gan geisio a herio lle y gallwn ni ychwanegu at ddeilliannau - a rhai gwell - i'n trigolion, cymunedau a busnesau drwy gydweithio'*.

Mae ein Rheolau Dull Gweithredu yn y Cyfansoddiad yn nodi'r diffiniad o bartneriaethau ffurfiol a'r cyfrifoldebau a'r rheolaethau cysylltiedig sydd ar waith.

Mae'r newidiadau i faint a siâp partneriaethau strategol ledled ein rhanbarth yn parhau i fynd rhagddynt. Mae rhai o'n prif newidiadau o ran partneriaethau yn cynnwys:

- Cafodd Prif Weithredwr y Cyngor ei benodi'n Gadeirydd newydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg ym mis Mawrth 2025. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg yn parhau â'r ddarpariaeth o'i Gynllun Llesiant Cwm Taf Morgannwg. Ni, y Cyngor, sy'n gyfrifol am y trefniadau craffu ar gyfer y bwrdd. Mae datblygu Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd rhanbarthol wedi bod yn waith allweddol yn 2024 a 2025. Cafodd hyn ei adrodd ger bron cyfarfod y bwrdd ym mis Rhagfyr 2024. Yn ogystal â helpu i ddarparu amcan llesiant rhanbarthol 'Cymdogaethau lleol cynaliadwy a chydnerth', bydd hefyd yn llywio gwaith lleol y Cyngor i reoli a lliniaru risgiau o ran yr hinsawdd a'r amgylchedd
- Rydyn ni'n gwella ein trefniadau mewn perthynas â'n gwaith yn rhan o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg.
    - Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg wedi rhoi ar waith Cynllun Rhanbarthol Ardal Cwm Taf Morgannwg 2023 i 2028, wedi'i lywio gan yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth
    - Mae cynnydd o ran integreiddio meysydd iechyd a gofal cymdeithasol wedi bod yn arafach na'r hyn roedden ni wedi'i ragweld. Mae cyfarwyddwr rhanbarthol yn ei le i reoli rhoi'r model rhanbarthol newydd yma ar waith, ac mae 'model targed' System Gofal Cymunedol Integredig a Chytundeb Partneriaeth Rhanbarthol wedi'u drafftio. Byddan nhw'n cael eu datblygu ymhellach yn ystod haf 2025, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet
    - Bydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg bellach yn craffu ar waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn unol â'r hyn a gafodd ei gytuno yn y cyfarfod ar 17 Rhagfyr 2024. Bydd y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn rhoi sicrwydd bod gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn parhau i ddarparu gwerth am arian, ac er mwyn sicrhau llywodraethu da

- Mae Partneriaeth Cymunedau Diogel ranbarthol unigol ar gyfer Cwm Taf Morgannwg bellach wedi'i sefydlu yn dilyn yr adolygiad a gafodd ei gomisiynu gan y Cyngor ar ran ei bartneriaid. Un o argymhellion yr adolygiad oedd y dylai strwythur y Bartneriaeth Cymunedau Diogel ranbarthol gyd-fynd â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'i drefniadau craffu, h.y. dylid defnyddio Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i graffu ar weithgarwch rhanbarthol y Bartneriaeth Cymunedau Diogel. Ystyriodd y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu y

cynigion ychwanegol yn ei gyfarfod a gafodd ei gynnal ar 4 Medi 2024, a chytuno arnyn nhw. Mae hyn yn adlewyrchu trefniadau craffu'r Bartneriaeth Cymunedau Diogel ranbarthol ac fe aeth ati i ddiweddaru ei gylch gorchwyl yn unol â hynny. Cafodd adroddiad cynnydd ei gyflwyno ger bron y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 17 Rhagfyr 2024, gan roi diweddariad ar Bartneriaeth Cymunedau Diogel Cwm Taf Morgannwg, a sut y penderfynodd ar ei meysydd blaenoriaeth i gael yr effaith fwyaf a gwneud y defnydd gorau o adnoddau

- Yn dilyn y newid o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru, fe wnaethon ni sefydlu trefniadau craffu ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig trwy gytundeb lefel gwasanaeth. Mae gwaith y Cyd-bwyllgor Craffu yn ei ddyddiau cynnar o hyd - dyma ei flwyddyn gyntaf. Serch hynny, mae wedi bwrw ymlaen â rhaglen waith gynhyrchiol, a gafodd ei chytuno yn ei gyfarfod ar 10 Hydref 2024. Mae'n cynnwys trefniadau cyn y cam craffu, craffu gan arweinydd y portffolio, a sefydlu ei weithgor cyntaf. O ran y dyfodol, mae datblygu'r prosesau craffu a gafodd eu cymeradwyo gan y Cyngor wedi rhoi mwy o gyfle i graffu a herio, ochr yn ochr â sesiynau datblygu a gafodd eu cynnal y tu hwnt i gyfarfodydd pwyllgor ffurfiol, a hynny er mwyn gwella dealltwriaeth aelodau o'r swyddogaethau sydd dan arweinyddiaeth swyddfa rhaglen Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Menter sy'n cael ei chefnogi gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd i helpu Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT i fod yn fwy 'gweithredol o ran ymchwil' yw CYBI RhCT. Mae CYBI RhCT yn un o 30 yn y DU, wedi'i ariannu gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd, a'r un cyntaf i gael ei ariannu'n llawn yng Nghymru.

Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT, yn rhan o bartneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Interlink RhCT a phartneriaid yn y trydydd sector, ac Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n arwain ar GYBI RhCT. Nod CYBI RhCT yw creu diwylliant lle mae penderfyniadau am iechyd a lles yn seiliedig ar dystiolaeth, a lle y gall cymunedau yn RhCT rannu'u safbwyntiau ynghylch sut y mae modd defnyddio ymchwil – a sut y dylid ei defnyddio – i leihau anghydraddoldebau iechyd ym mhob rhan o RCT. Mae'r gwaith yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen wedi canolbwyntio ar adolygu'r diwylliant tystiolaeth gyda phrif swyddogion o bob rhan o'r Cyngor, sefydlu gwaelodlin i fesur cynnydd, darparu cefnogaeth yn ystod gwaith datblygu Hunanwerthusiadau Gwasanaeth i sicrhau bod gwerthusiadau'n defnyddio'r 6 math o dystiolaeth sydd wedi'u nodi, ac ymwneud ag Aelodau Etholedig. Mae gwaith prosiect hefyd wedi dechrau ym meysydd gwariant ataliol, tlodi plant ac allgáu digidol, lle mae'r CYBI yn helpu gwasanaethau'r Cyngor i gasglu a dehongli tystiolaeth a rhoi canfyddiadau ar waith i wella gwasanaethau. Mae cyfleoedd hyfforddi, gweithdai a chlinigau hefyd wedi cael eu cynnig i bob lefel o'r Uwch Garfan Reoli, Uwch Reolwyr a staff y Cyngor i godi ymwybyddiaeth o'r prosiect a phwysigrwydd gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth.

**Mae gan y Cyngor hanes da o weithio'n rhan o bartneriaeth. Byddwn ni'n parhau â'r gwaith yma ac yn sicrhau bod y trefniadau yma'n darparu canlyniadau sydd o fudd i'n cymunedau yn effeithiol.**

**Does dim meysydd i'w gwella wedi'u nodi ar hyn o bryd.**

# 8. Ymglymiad ac Ymgysylltiad

**Rydyn ni wedi parhau i ehangu a gwella ein sianeli ymgysylltiad, ymglymiad ac adborth, i gael gwybod beth sy'n bwysig i bobl a hefyd i wneud gwell defnydd o'r wybodaeth sy'n dod i law o'r amrywiol sianeli adborth i lunio a llywio darpariaeth gwasanaeth, cynlluniau a pholisi. Roedd hyn yn golygu siarad yn uniongyrchol â thrigolion mewn lleoliadau amrywiol ar draws Rhondda Cynon Taf, cynnal arolygon wyneb yn wyneb ac ar-lein a thrwy ein llwyfan ymgysylltu ar-lein 'Dewch i Siarad'.**

Mae'r llwyfan 'Dewch i Siarad' yn ein galluogi i gasglu a dadansoddi gwybodaeth ac yn helpu i ddangos yr hyn rydyn ni wedi'i wneud o ganlyniad i'r hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthon ni, ond rydyn ni'n parhau i wella ein hymagwedd. Mae'r llwyfan yn darparu data dadansoddol da ar gyfer yr holl offer ymgysylltu yn ogystal â chyfraddau'r ymweliadau gan gynnwys dadansoddiad o gyfanswm yr ymweliadau, ymweliadau gwybodus ac ymweliadau ymgysylltiol. Mae defnyddio'r data â chanolbwynt yma wedi gwella ein gallu i ddarparu gwybodaeth sy'n deillio o brosiectau ymgynghori ac ymgysylltu er mwyn cynllunio gwaith yn y dyfodol gyda gwell dealltwriaeth o ddulliau ymgysylltu llwyddiannus.

Mae dros 10,900 o ymwelwyr wedi'u cofnodi ar Let's Talk a Dewch i Siarad yn 2024. Cyrhaeddodd 39.8% o ymwelwyr statws 'gwybodus', sy'n golygu eu bod wedi gweld sawl tudalen ac wedi dilyn dolenni i ddogfennau neu adnoddau eraill sydd wedi'u rhestru ar dudalen, tra bod 13.5% o ymwelwyr wedi 'ymgysylltu', sy'n golygu bod yr ymwelydd wedi cymryd rhan mewn arolygon, polau piniwn neu bwyntiau rhyngweithiol eraill ar y dudalen neu'r tudalennau roedden nhw wedi ymweld â nhw. At ei gilydd, mae ein defnydd o 'Dewch i Siarad' wedi dangos gostyngiad yng nghyfraddau ymgysylltu ac ymwelwyr â'r wefan, fodd bynnag, roedd llawer llai o brosiectau ymgynghori ac ymgysylltu wedi'u lansio gan wasanaethau eraill drwy 'Dewch i Siarad' eleni. Er bod nifer y prosiectau yn is, dydy lefel yr ymwelwyr na'r ymgysylltu â'r safle ddim wedi gostwng yn gymesur – gyda gostyngiad o 73.3% o ran prosiectau, dim ond gostyngiad o 19.6% o ran ymwelwyr a gostyngiad o 46.9% o ran ymgysylltiad sydd wedi bod. Mae hyn yn dangos bod 'Dewch i Siarad' yn dal i fod yn offeryn ymgysylltu sy'n creu effaith fawr pan gaiff ei ddefnyddio, ond bod angen annog adrannau ym mhob rhan o'r Cyngor ymhellach i wneud y defnydd gorau o'r offer sydd ar gael iddyn nhw. Y dudalen a gafodd y nifer fwyaf o ymweliadau â hi yn 2024 oedd 'Dewch i Siarad am yr Eisteddfod 2024'. Roedd dros 7,000 o ymweliadau â thudalennau'r pum prosiect mwyaf poblogaidd eleni a thros 2,000 o bwyntiau ymgysylltu unigol.

Mae adborth gan ein cwsmeriaid, trigolion, busnesau yn ogystal â'n hymwelwyr yn werthfawr i ni wrth i ni ymdrechu i wella'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu'n barhaus. Mae gennyn ni dystiolaeth dda o ddefnyddio adborth unigol i lywio newid gwasanaeth. Serch hynny, rydyn ni hefyd yn cydnabod bod angen i ni wneud y mwyaf o werth strategol y data a'r wybodaeth sydd ar gael yn fwy effeithiol a sefydlu'r gwahaniaeth y mae ein gwaith yn ei wneud i bobl a chymunedau. Cafodd hyn ei ategu gan y canfyddiadau yn adroddiad Archwilio Cymru 'Defnyddio Gwybodaeth am Berfformiad: Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaeth a Chanlyniadau'. Cafodd diweddariad cynnydd ar yr argymhellion ei adrodd i gyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 29 Ebrill 2024. Yn rhan o ddatblygu cynlluniau gweithredu â blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol 2024 i 25, roedd gwaith yn canolbwyntio ar bennu deilliannau cliriach, cyfres o fesuryddion cyflawniad sylfaenol sy'n cynnwys safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chamau gweithredu allweddol i gefnogi cyflawni'r deilliannau arfaethedig, gan ganolbwyntio ar nodi data sy'n bodoli mewn gwasanaethau. Cafodd fformat yr adroddiad chwarterol i'r Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ei ddiwygio hefyd i adroddiad arddull 'Gwiriad Iechyd' sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau a gafodd eu cyflawni, gan gynnwys data meintiol ac ansoddol ac astudiaethau achos. Dyma faes gwaith sy'n parhau i gael ei ddatblygu ymhellach gyda gwasanaethau unigol i sicrhau bod modd integreiddio data sydd eisoes yn cael eu casglu gan wasanaethau yn rhan o Adroddiad Cyflawniad chwarterol y Cyngor. Mae hyn er mwyn i Aelodau Etholedig ac uwch arweinwyr gael set ehangach o ddata'n ymwneud â deilliannau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a all helpu

ymhellach i wneud penderfyniadau gwybodus. Gyda phob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, rydyn ni hefyd wedi cymryd rhan mewn gwaith datblygu cychwynnol ar y cyd ar gyfer cymuned ymarfer CLlLC. Mae hyn yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag argymhellion adroddiad cenedlaethol Archwilio Cymru Defnyddio Gwybodaeth am Berfformiad: Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaeth a Chanlyniadau.

Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi derbyn gwybodaeth a dealltwriaeth bellach o bob rhan o'n cymunedau, yn ogystal â dulliau ymgysylltu digidol. Gall y cyhoedd gysylltu â ni'n rhad ac am ddim drwy'r post a dros y ffôn, ac rydyn ni'n parhau i wella ein technegau ymgysylltu wyneb yn wyneb i sicrhau bod trigolion ddim yn cael eu hallgáu'n ddigidol. Mae hyn wedi cynnwys mynychu cyfarfodydd Rhwydweithiau Cymdogaeth yn RhCT yn rheolaidd, yn ogystal â defnyddio arweinwyr y rhwydwaith i anfon gwybodaeth at eu rhwydweithiau drwy e-bost a'u hannog i rannu gwybodaeth drwy eu cysylltiadau yn y gymuned.

Rydyn ni'n creu deunyddiau ymgysylltu hygyrch, fel fersiynau hawdd eu darllen o'n dogfennau ymgynghori, e.e. yr Arolwg Cyllideb Blynyddol (Cam 1 a 2), Strategaeth Ymglymiad ac Ymgysylltu, a'r Ymgynghoriad Gofal Preswyl.

Roedd ein cynlluniau ar gyfer 2024 i 2025 yn cynnwys parhau i gyfathrebu â thrigolion a chymunedau a'u cynnwys yn rhan o faterion sy'n effeithio arnyn nhw, a'u hannog i gymryd rhan fel bod mwy o safbwyntiau'n cael eu clywed ym mhenderfyniadau'r Cyngor. Dyma enghreifftiau o sut y gwnaethon ni hyn:

- Dewch i Siarad am Gyllideb 2025 i 2026 Cam 1 a Cham 2
- Strategaeth Ymglymiad ac Ymgysylltu
- Strategaeth Treftadaeth – Treftadaeth yn RhCT – Dweud eich dweud
- Strategaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion 2024 i 2030
- Gofal Preswyl 2025

Roedd yr ymgynghoriad Gofal Preswyl wedi denu nifer fawr o ymatebion, yn bennaf yn codi pryderon a gofidiau gwirioneddol yr unigolion a fyddai'n cael eu heffeithio. Roedd themâu'r pryderon allweddol wedi'u casglu ynghyd drwy arolygon (papur ac ar-lein) a chan y rhai a fynychodd gyfarfodydd i'r cyhoedd ac i staff wedi'u cynnal gan y Cyngor.

Cafodd ei gydnabod yng nghyfarfod y Cabinet fod y mwyafrif helaeth o'r rheiny a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn gwrthwynebu'n gryf y cynnig i ddatgomisiynu'r naill gartref gofal neu'r llall (Glynrhedynog a Chae Glas). Yn dilyn yr ymgynghoriad, wrth edrych ar yr ymatebion a gwrando ar bryderon y rheiny a ymatebodd, roedd y rhan fwyaf o'r Aelodau wedi dadlau dros gadw'r cartref gofal ar agor nes bod y datblygiad cartref gofal newydd yng Nglynrhedynog yn barod; a'r angen i gadw arbenigedd y staff presennol yn Nhŷ Glynrhedynog, a hynny er mwyn sicrhau cysondeb a llai o darfu ar y broses bontio i'r datblygiad newydd unwaith y bydd yn barod, er budd ei drigolion.

Mae ein cronfa ddata rhanddeiliaid yn cael ei hadnewyddu'n barhaus i sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol ac yn addas i'r diben fel bod modd iddi gynyddu ein cyrhaeddiad mewn perthynas â phrosiectau ymgysylltu allweddol. Fe wnaethon ni adolygu'r trefniadau ar gyfer ein Panel Dinasyddion sydd wedi'i hen sefydlu ym mis Ebrill 2024, ac rydyn ni'n ystyried sefydlu Gweithgor Panel Dinasyddion i wahodd Aelodau i gyfarfodydd chwarterol ynghylch ymgynghoriadau cyfredol. Rydyn ni'n parhau i recriwtio aelodau drwy ychwanegu cwestiwn 'Ymunwch â'n Panel Dinasyddion' at arolygon eraill ac

rydyn ni'n bwriadu cynnal ymgyrch ac achlysuron cofrestru yn ddiweddarach eleni. Mae'r Cyngor yn gweithio gydag 'Age Connects Morgannwg' i gefnogi ymgysylltiad ac ymglymiad gweithredol gyda phobl hŷn yn Rhondda Cynon Taf, trwy'r Grŵp Cynghori Pobl Hŷn, ar ystod lawn rhaglen ymgysylltu'r Cyngor.

Mae'r Cynllun Adborth Cwsmeriaid yn cofnodi'r holl sylwadau, canmoliaeth a chwynion sy'n dod i law gan drigolion a'r bobl sy'n ymweld ag RhCT, a'r rheiny sy'n defnyddio cyfleusterau'r Cyngor. Dydy'r cynllun ddim yn cwmpasu cwynion lle mae trefniadau statudol eraill ar waith, er enghraifft cwynion am ofal cymdeithasol neu ysgolion. Cafodd adroddiad Cynllun Adborth Cwsmeriaid – Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion 2023 i 2024 ei gyflwyno ger bron y Cabinet ym mis Hydref 2024. Cafodd llythyr ac adroddiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2023 i 2024 ei drafod gan y Cabinet ym mis Hydref 2024. Roedd adroddiad 2023 i 2024 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyfeirio at 64 o gwynion a ddaeth i law'r ombwdsmon yn ymwneud â Rhondda Cynon Taf (54 ar gyfer 2022 i 2023). Mae cyfanswm nifer y cwynion yn cyfateb i 0.27 o gwynion fesul 1,000 o drigolion, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 0.36 fesul 1,000 o drigolion, a'r pumed isaf yng Nghymru.

**Mae gweithgareddau Ymglymiad ac Ymgysylltu'r Cyngor wedi'u datblygu ac maen nhw'n parhau i dyfu. Rydyn ni'n ymgysylltu ag ystod eang o unigolion a grwpiau ond erbyn hyn rydyn ni angen datblygu ein prosesau ymhellach i ddangos yr effaith rydyn ni'n ei chael ar ein cymunedau. Bydd Strategaeth a Chynllun Gweithredu Ymglymiad newydd y Cyngor yn mynd â'r gwaith yma yn ei flaen ar ôl iddyn nhw gael eu cytuno yn 2025.**

**Ym mis Gorffennaf 2025 byddwn ni'n cynnal arolwg trigolion, yn rhan o ymagwedd genedlaethol Gymru gyfan, gan weithio gyda Data Cymru.**

**Maes i'w wella:**

**A: Dylid defnyddio'r data'r arolwg trigolion i ddeall ein cymunedau ymhellach. Bydd hyn yn ein galluogi i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ym mhob rhan o'r Cyngor a byddwn ni'n gallu cyrchu data gwerthfawr, wedi'u meincnodi, a'u defnyddio'n rheolaidd.**

# 9. Y Gymraeg

**Rhondda Cynon Taf oedd un o ddim ond 4 awdurdod lleol i weld cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y cyfrifiad diweddaraf. Serch hynny, ar hyn o bryd dydy sgiliau iaith ar draws y gweithlu ddim yn cyd-fynd â'r nod a gafodd ei gytuno o adlewyrchu cyfran y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned leol yn ein gweithlu. O ganlyniad, rydyn ni'n parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu capasiti'r Gymraeg mewn amrywiaeth o ffyrdd.**

Mae ein polisïau a'n cynnydd wedi'u nodi'n fanylach yn Adroddiad Safonau'r Gymraeg 2024 i 2025 a gafodd ei gymeradwyo i'w gyhoeddi gan Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg ar 19 Mai 2025.

Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd cryf drwy Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, sy'n monitro ac yn craffu ar gynnydd yn erbyn Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022 i 2027 a'r cynllun gweithredu sy'n sail iddo a Chynllun Strategol y Gymraeg

mewn Addysg 2022 i 2032 sydd â chysylltiad agos iddo, sydd at ei gilydd â'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol.

Cafodd cynnydd yn erbyn y Strategaeth Hybu ei adrodd i Is-bwyllgor y Cabinet ym mis Hydref 2024 a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ym mis Ionawr 2025. Mae'n tynnu sylw at gynnydd cadarnhaol mewn nifer o feysydd, er bod monitro effeithiol a gwelliannau'n ymwneud â gwaith partneriaeth yn parhau i fod yn heriol. Bydd Cydlynydd Cymunedol Strategaeth y Gymraeg, a ddechreuodd yn ei swydd ym mis Ebrill 2025, yn helpu gyda'r gwaith yma o hyn ymlaen, a bydd yn arwain ar gyflawni'r strategaeth gyda phartneriaid a gwella cyfranogiad cymunedol.

Cafodd cynnydd da parhaus ar gyflawni Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu ar faterion Addysg a Chynhwysiant ym mis Rhagfyr 2024, a chafodd adroddiad adolygiad blynyddol blwyddyn 2 adborth cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru. Serch hynny, dydy hyn ddim wedi arwain at gynnydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg eto, ac o ganlyniad mae cynnydd cyffredinol wedi'i sgorio'n felyn. Mae Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg yn un o'r 4 amcan llesiant ar gyfer Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2024 i 2030 'Gweithio gyda'n Cymunedau', ac mae hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg wedi'i integreiddio'n rhan o'r cynllun, sy'n ddogfen allweddol sy'n pennu cyfeiriad strategol y Cyngor. Yn dilyn sylwadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yng nghyfarfod mis Ionawr, ac argymhelliad ynghylch archwilio yn deillio o adolygiad Archwilio Cymru o bennu amcanion llesiant y Cyngor (a gafodd ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 29 Ebrill), mae gwaith pellach ar y gweill i wella'r defnydd o ddata lleol a data partneriaethau wrth werthuso cynnydd y Cyngor tuag at ein strategaeth hybu a'n hamcan llesiant.

Daeth Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 i rym ym mis Gorffennaf 2025. Mae'r ddeddf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer adolygu safonau'r Gymraeg a bydd yn cynnwys targedau statudol ar gyfer defnyddio'r iaith. Bydd monitro effaith y ddeddf yn agos, ac ymateb iddi, yn faes gwaith sylweddol yn ystod 2025 a 2026.

Ar hyn o bryd, 8.01% o weithlu'r Cyngor sy'n gallu siarad Cymraeg ar Lefel 5. Mae 2.51% ar Lefel 4 a 2.27% ar Lefel 3. Mae'r rhain i gyd yn dangos cynnydd, o'i gymharu â data'r blynyddoedd blaenorol, gan ein dwyn yn agos at ein targed o 12.4% o siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu (yn unol â'r ganran yn y gymuned). Yn dilyn cymeradwyaeth gychwynnol gan Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg ym mis Hydref 2023, cafodd Cynllun Gwarantu Cyfweliad i siaradwyr Cymraeg ei gyflwyno ledled y Cyngor ym mis Gorffennaf 2024. Nod y cynllun, sy'n rhoi gwarant o gyfweliad i siaradwyr Cymraeg sy'n bodloni meini prawf hanfodol swydd wag, yw dileu rhwystrau i recriwtio siaradwyr Cymraeg, a gwella'r broses recriwtio yna. Y cyntaf o'i fath yng Nghymru, mae wedi cael ei groesawu fel cynllun arloesol gan Gomisiynydd y Gymraeg, sydd wedi gofyn i'r Cyngor baratoi astudiaeth achos arfer da. Bydd yr effaith ar recriwtio yn cael ei gwerthuso'n llawn yn ystod haf 2025, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Is-bwyllgor y Cabinet ym mis Hydref. Yn ôl data cychwynnol ym mis Ionawr 2025 mae'r newyddion yn gadarnhaol iawn, gyda 50 o ymgeiswyr naill ai wedi cael cynnig cyflogaeth neu wedi dechrau gweithio i'r Cyngor drwy'r cynllun. Mae data misol yn dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg a gafodd eu penodi i swyddi newydd bron wedi dyblu o'i gymharu â'r misoedd cyn rhoi'r cynllun ar waith.

Mae cynyddu nifer y staff addysgu sy’n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn rhan o’n Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mynychodd 127 o aelodau staff presennol wahanol lefelau o hyfforddiant Cymraeg, gan gynnwys y cwrs Bitesize Cymraeg Gwaith newydd (gweler adroddiad safonau'r Gymraeg). Yn dilyn cynnwys y Gymraeg mewn prosesau rheoli newid wedi'u diweddaru yn y flwyddyn ariannol flaenorol, mae 5 maes gwasanaeth sydd wedi cael prosesau rheoli newid wedi cael

eu hadolygu i sicrhau bod sgiliau iaith yn cael eu cadw lle bo modd. Mae'n debygol y bydd Deddf y Gymraeg newydd yn newid y ffordd y mae lefelau sgiliau Cymraeg staff yn cael eu mesur. Bydd hyn yn gofyn am newidiadau i brosesau'r Cyngor.

O ganlyniad i sesiynau Bitesize a gafodd eu cynnal yn 2023 a 2024, cododd ymwybyddiaeth staff o safonau'r Gymraeg, ac rydyn ni'n parhau i helpu gyda cheisiadau dilynol. Cafodd sesiynau penodol eu cynnal ar drefnu cyfarfodydd ac achlysuron dwyieithog gydag Uwch Reolwyr y Cyngor, yr Uwch Garfan Rheoli a nifer o garfanau rheoli, gan arwain at well dealltwriaeth ynghylch y safonau a'r opsiynau o ran cymorth a hyfforddiant sydd ar gael.

Aeth y gwaith arfaethedig i ystyried proses asesiad integredig o effaith ar gyfer y Cyngor ddim rhagddo yn 2024 a 2025. Serch hynny, mae'r broses asesu effaith ar y Gymraeg wedi'i hadolygu, ac mae'r canllawiau wedi'u hystwytho drwy dynnu ar yr hyn a gafodd ei ddysgu o'r 3 blynedd gyntaf o'i gweithredu ac yn dilyn cyngor gan Gwnsler y Brenin yn deillio o dribiwnlysoedd proffil uchel.

Gostyngodd nifer y cwynion yn ymwneud â safonau'r Gymraeg yn sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Daeth 5 cwyn i law yn ymwneud â safonau'r Gymraeg yn 2023 a 2024 (o'i gymharu â 21 yn 2022 a 23). Cafodd 4 o'r rhain eu canfod i fod yn ddilys a chafodd camau gweithredu eu cymryd, ac roedd 1 yn annilys.

Er mwyn rhoi sicrwydd ar gynnydd ein gwaith hyrwyddo'r Gymraeg, mae adroddiadau gwybodaeth wedi'u cyflwyno i Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg a fydd yn rhoi trosolwg o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan wasanaethau. Cafodd diweddariad ar gynnydd yng ngwasanaethau'r celfyddydau, y llyfrgelloedd, IBobUn a datblygu cymunedau, ei gyflwyno ym mis Mai 2024 a chafodd adroddiad ar gynllun strategol Comisiynydd y Gymraeg ei gyflwyno ym mis Mai 2025. Rydyn ni hefyd yn anelu at adeiladu ar ein gwaith hyrwyddo trwy gymryd rhan mewn prosiect i hybu'r defnydd o wasanaethau lleol penodol trwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft mae gwaith hyrwyddo wedi arwain at gynnydd yn nifer y llyfrau Cymraeg sy'n cael eu benthyg o lyfrgelloedd.

Cynhaliodd RhCT yr Eisteddfod Genedlaethol rhwng 3 a 10 Awst 2024, ac roedd yr adborth am yr 'Eisteddfod drefol' gyntaf yn hynod gadarnhaol. Roedd gweithio'n rhan o bartneriaeth a defnyddio cyllid grant wedi galluogi miloedd o drigolion o bob oed i brofi'r ŵyl, gyda 13,507 o docynnau mynediad am ddim wedi'u rhoi i deuluoedd lleol. Yn ogystal â hyn, cafodd 150 o bobl ifainc gyfle i fynychu'r ŵyl trwy ein Gwasanaeth Ieuenctid. Gwirfoddolodd 264 o drigolion RhCT ar y Maes ac roedd 250 o bobl ifainc yn rhan o wasanaeth cerddoriaeth y Cyngor a berfformiodd yn yr Eisteddfod. Yn ôl adborth o stondin addysg y Cyngor yn yr Eisteddfod, roedd cynrychiolwyr ysgolion wedi gweld newid cadarnhaol yn agweddau rhieni at anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Bydd camau gweithredu i gefnogi gwaddol yr Eisteddfod yn cael eu hymgorffori yn y cynllun gweithredu i gyflawni Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn y dyfodol. Cafodd rhagor o fanylion am y trosolwg o effaith a gwaddol Eisteddfod Genedlaethol RhCT eu cynnwys yn yr adroddiad i'r Cabinet ym mis Chwefror 2025.

Mae meysydd i'w datblygu yn cynnwys ein hymateb i Ddeddf y Gymraeg ac Addysg newydd; gwerthusiad o'r Cynllun Gwarantu Cyfweliad; gwella'r defnydd o ddata a chefnogi cyflawni cynllun gweithredu 5 mlynedd Strategaeth Hybu'r Gymraeg a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae'r meysydd yma wedi'u cynnwys yn y Cynllun Darparu Gwasanaeth gyda chamau gweithredu a cherrig milltir wedi'u cynllunio ar waith.

Mae rhagor o wybodaeth am wasanaethau Cymraeg ar gael ar wefan y Cyngor a dogfen Hunanwerthusiad y Gwasanaethau Cymuned a Chymraeg.

**Mae'r Cyngor yn parhau i hyrwyddo a chefnogi defnydd y Gymraeg ar draws ei wasanaethau. Mae gennyn ni garfan o swyddogion profiadol sydd ag adnoddau da sy'n helpu i gefnogi datblygiad yr iaith ar draws ein sefydliad yn ogystal â rheoli ein cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg. Mae hyn wedi'i wella trwy benodi Cydlynydd Cymunedol Strategaeth y Gymraeg i arwain ar gyfranogiad cymunedol yn dilyn gwaddol cadarnhaol yr Eisteddfod. Mae gwaith cadarnhaol i gynyddu lefelau sgiliau staff, gan gynnwys y Cynllun Gwarantu Cyfweliad, wedi arwain at gynnydd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu. Mae'n debygol y bydd gan Ddeddf y Gymraeg ac Addysg effaith sylweddol ar sut mae'r Cyngor yn ymdrin â'r Gymraeg ers ei chyflwyno, a bydd hyn yn cael ei monitro'n agos.**

**Does dim meysydd i'w gwella wedi'u nodi ar hyn o bryd.**

# 10. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

**Mae'r Cyngor yn parhau i wella ei drefniadau i ddangos ein hymrwymiad parhaus i degwch a chydraddoldeb. Cafodd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 2024 i 2028 ei gytuno gan y Cabinet ym mis Mawrth 2024. Mae gwella ein gwerthoedd a'n hymrwymiad i'n staff o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi'i atgyfnerthu yn y Cynllun newydd sy'n nodi ein hamcanion cydraddoldeb. Mae hyn yn ein helpu i ddarparu cyfle cyfartal i bawb a lle mae pob aelod o staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a gallan nhw wireddu eu potensial llawn.**

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn integreiddio o fewn y fframwaith sydd wedi'i nodi yng Nghynllun Corfforaethol newydd y Cyngor 2024 i 2030 'Gweithio gyda'n Cymunedau' a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Ebrill 2024 ac sydd hefyd yn cynnwys ein hymrwymiad i driniaeth deg a chyfartal i'n staff a'n trigolion.

Mae'r cynllun cydraddoldeb newydd yn nodi 3 amcan cydraddoldeb newydd, yr hyn y byddwn ni'n ei wneud i gyflawni'r amcanion, sut y byddwn ni'n monitro cynnydd a sut olwg fydd ar lwyddiant i'n trigolion a'n staff:

1. **Byddwn ni'n ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob agwedd ar ddarpariaeth ein gwasanaethau.**
2. **Byddwn ni'n denu ymgeiswyr sy'n cynrychioli amrywiaeth ein cymunedau, gan gyfoethogi ein gallu sefydliadol o ran bodloni ein hamcanion.**
3. **Byddwn ni'n parchu, gwerthfawrogi a gwrando ar ein holl weithwyr drwy ymgorffori diwylliant cynhwysol.**

Bydd ein gwaith i gyflawni'r cynllun newydd yn cael ei fonitro drwy'r Grŵp Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd ei ffurfio bob chwe mis. Dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Arweinydd, rydyn ni'n parhau i fireinio'r gwaith llywodraethu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a chanolbwyntio ar ddefnyddio data amserol i ddangos cynnydd ac effaith ein gwaith drwy'r adroddiad monitro cydraddoldeb blynyddol fel sy'n ofynnol gan y dyletswyddau sydd wedi'u nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Roedd adborth a ddeilliodd o'r trefniadau cyn y cam craffu gan y

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, hefyd yn nodi dymuniad y pwyllgor i adolygu'r cynnydd o ran gweithredu'r cynllun.

Mae cynnydd calonogol wedi'i wneud o ran cyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae gan bob maes gwasanaeth unigol ei flaenoriaethau ei hun mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Er bod nifer o feysydd gwasanaeth yn datblygu camau gweithredu gwrth-hiliol yn rhagweithiol, mae eraill yn gweithio ar ddod yn fwy hyderus o ran anableddau. Bydd set ddiwygiedig o gwestiynau yn yr Asesiad Hunan-wasanaeth o gymorth i ni wrth fonitro ymrwymiadau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn cynlluniau darparu meysydd gwasanaeth unigol. Mae'r broses Asesiad Hunan-wasanaeth yn darparu cyfrwng amserol a thryloyw ar gyfer herio a chefnogi ein gwasanaethau yn strategol. Byddwn ni mewn gwell sefyllfa y flwyddyn nesaf i adrodd ar hyn.

Rydyn ni'n cynnal adolygiad o'r polisi a'r prosesau recriwtio o safbwynt cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd yr adolygiad yma'n rhoi'r sylfaen i ni ar gyfer camau gweithredu priodol yn y dyfodol.

Mae ein hymagwedd dim goddefgarwch tuag at wahaniaethu, bwlio ac aflonyddu wedi'i gyfleu ledled y sefydliad, ac rydyn ni hefyd wedi darparu hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gorfodol. Bydd yn cymryd peth amser i ni ddarparu hyfforddiant i'n holl staff, yn enwedig i'r rhai sy'n gweithio ar y rheng flaen, fodd bynnag, mae trefniadau'n mynd rhagddynt.

Mae gennyn ni gynlluniau gwaith i adolygu ein proses addasiadau rhesymol a rhoi'r newidiadau deddfwriaethol diwygiedig mewn perthynas ag aflonyddu rhywiol ar waith.

Roedd yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yn parhau i gael ei adrodd flwyddyn ar ei hôl hi. Cafodd yr adroddiad diweddaraf, h.y. 2023 i 2024, ei ystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 19 Mawrth 2025, yn dilyn trefniadau cyn y cam craffu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 27 Ionawr 2025.

Amlinellodd yr adroddiad y gwaith a gafodd ei gynnal yn 2023 a 2024 o ran ymgysylltu a chasglu tystiolaeth i helpu gyda gwaith datblygu'r Cynllun Corfforaethol newydd a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, sydd bellach yn cyd-fynd â'i gilydd, fel sydd wedi'i nodi uchod. Mae'n amlinellu'r 3 amcan cydraddoldeb newydd a'r blaenoriaethau sy'n sail iddyn nhw.

Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o sut roedden ni'n parhau i fodloni'r 5 amcan cydraddoldeb sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2018 i 2022, wrth ddatblygu ein cynllun newydd. Yn gyffredinol, tynnodd yr adroddiad sylw at y cynnydd sylweddol y mae'r Cyngor wedi'i wneud i fodloni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r amcanion cydraddoldeb sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2019 i 2022.

Caiff ei gydnabod bod llawer o heriau wedi bodoli yn ystod y cyfnod yr oedd y cynllun blaenorol yn ei gwmpasu, a bu llawer o newid yn y ffordd rydyn ni'n darparu ein gwasanaethau. Wnaethon ni ddim cymaint o gynnydd â roedden ni wedi bwriadu ei wneud wrth adolygu ein prosesau recriwtio a dethol i gynyddu amrywiaeth ymgeiswyr; na chwaith o ran datblygu ymwybyddiaeth ynghylch aflonyddu rhywiol. Rydyn ni hefyd yn cydnabod bod angen gwaith pellach mewn perthynas ag addasiadau rhesymol a gwella data monitro cydraddoldeb ymhellach ar gyfer staff. Lle does dim cynnydd

disgwyliedig wedi'i wneud, neu lle mae meysydd blaenoriaeth yn parhau, mae'r gwaith yma wedi'i gynnwys yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 i 2028.

**Mae'r Gwasanaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn parhau â'i waith da i hyrwyddo a chefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws ein sefydliad ac maen nhw hefyd yn helpu i sicrhau a monitro ein cydymffurfiaeth. Mae trefniadau a chynlluniau clir ar waith i gefnogi'r gwaith yma.**

**Does dim meysydd i'w gwella wedi'u nodi ar hyn o bryd.**

## 11. Adborth Rheoleiddwyr

**Mae'r Cyngor yn parhau i gynnal perthnasau adeiladol a chynhyrchiol gyda'i Reoleiddwyr. Mae ein hymagwedd tuag at ymateb i adroddiadau Rheoleiddwyr yn agored ac yn dryloyw, a chaiff adroddiadau eu trafod gan y pwyllgorau perthnasol.**

Gweler y manylion yma.

**Ar nodyn cadarnhaol, roedd adborth y Rheoleiddwyr drwy gydol y flwyddyn wedi atgyfnerthu asesiad y Cyngor ei hun o'i gryfderau a'r meysydd ar gyfer gwaith pellach, yn enwedig yng nghyd-destun yr heriau ariannol sylweddol a'r heriau eraill sydd o'n blaenau.**

## 12. Newid yn yr Hinsawdd a Lleihau Carbon yn Rhondda Cynon Taf

**Mae Strategaeth Datgarboneiddio a Chynllun Gweithredu y Cyngor, a gafodd ei gytuno gan Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd ym mis Mawrth 2023, yn parhau i gyfeirio'r gwaith o leihau allyriadau carbon yng ngweithrediadau'r Cyngor i gyrraedd y targed o fod yn Gyngor Carbon Niwtral erbyn 2030. Ym mis Rhagfyr 2024, cafodd diweddariad ar gynnydd y strategaeth a'r cynllun gweithredu ei drafod gan y Pwyllgor Craffu – Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant. Yn ôl yr amserlen, bydd y strategaeth a'r cynllun gweithredu yn cael eu hadolygu'n llawn yn ystod 2025. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r cynnydd ers 2023 a diweddaru'r strategaeth a'r cynllun gweithredu i ganolbwyntio ar 2025 i 2030.**

Cafodd Canllaw Adrodd ar Garbon Sero-Net Llywodraeth Cymru 2023 i 2024 ei ddefnyddio i gyfrifo Ôl Troed Carbon y Cyngor ar gyfer 2022 i 2023. Cafodd ei gyfrifo bod Ôl Troed Carbon y Cyngor ar gyfer 2023 i 2024 yn 116,640.64 tCO2e. Cafodd y canfyddiadau manwl ar gyfer Ôl Troed 2023 i 2024 eu cadarnhau gan Lywodraeth Cymru a'u trafod gan Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion yr Hinsawdd yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2025. Mae'r wybodaeth yma hefyd wedi'i chynnwys ar dudalen we 'Ein Hôl Troed Carbon' y Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi yn ei Raglen Lleihau Carbon ers blwyddyn ariannol 2009 i 2010. Gwybodaeth hyd yma:

- Cyfanswm y buddsoddiad yn y Rhaglen Lleihau Carbon hyd yma drwy gydol y blynyddoedd: £13,111,791
- Cyfanswm yr arbedion ers blwyddyn ariannol 2009 i 2010: £2,907,667
- Cyfanswm gostyngiad CO2 6,513 tunnell CO2e

Yn ogystal â hyn, rydyn ni wedi ennill grantiau i gefnogi mentrau newid yn yr hinsawdd/datgarboneiddio gan gynnwys y Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn, y Grant Cyfalaf Gwres Carbon Isel a'r Grant Rhaglen Gydweithredu Cymru ar Asedau. Mae'r tabl isod yn darparu gwybodaeth ychwanegol.

| **Crynodeb** | Blwyddyn Ariannol 2022 i 2023 | Blwyddyn Ariannol 2023 i 2024 | Blwyddyn Ariannol 2024 i 2025 | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| **Wedi ymgeisio am:** | £293,050.25 | £773,206.40 | £1,108,319.00 | **£2,174,575.65** |
| **Wedi'i ddyfarnu:** | £293,050.25 | £773,206.40 | £858,589.00 | **£1,924,845.65** |
| **Wedi'i hawlio:** | £289,859.00 | £773,206.40 | £812,748.88 | **£1,875,814.28** |

Rydyn ni'n parhau i gymryd camau cadarnhaol i leihau allyriadau carbon yn y Cyngor a'r Fwrdeistref Sirol, i gyflawni ein dyheadau o ran yr hinsawdd sy'n adlewyrchu ein blaenoriaethau, ac i gyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer Sector Cyhoeddus Sero-Net. Er gwaethaf ein cynnydd cadarnhaol eleni, rydyn ni'n gwybod bod llawer yn rhagor i'w wneud i gyflymu maint a chyflymdra'r gwaith, a gwella'r integreiddio â'r amrywiaeth o fentrau lleihau carbon sy'n dod i'r amlwg gan Lywodraeth Cymru a rhai rhanbarthol.

I gyflawni'r heriau yma, roedd ein gwaith yn 2024 a 2025 yn cynnwys:

- Parhau i adrodd ar ddiweddariadau sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio i'w hystyried gan y Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a'r Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant
- Parhau i wreiddio lleihau carbon a'n gwaith i ymateb i argyfyngau hinsawdd a byd natur datganedig Llywodraeth Cymru ym musnes y Cyngor drwy fonitro Cynllun Corofforaethol y Cyngor bob chwarter
- Parhau i roi Strategaeth Datgarboneiddio'r Cyngor ar waith sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer lleihau ein hôl troed carbon ein hunain, fel a gafodd ei gytuno gan Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion yr Hinsawdd ar 23 Mawrth 2023
- Cafodd ein pedwrydd cyfrifiad Ôl Troed Carbon blynyddol, a fydd yn ein galluogi i fonitro ein cynnydd ac effaith y Strategaeth Datgarboneiddio yn well, ei drafod gan Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion yr Hinsawdd yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2025. 116,640.64 tunnell CO2e oedd y cyfrifiad Allyriadau Carbon a adroddwyd ar gyfer 2023 i 2024
- Cyflwyno adroddiad cynnydd ar Wobr Eco Ysgolion RhCT ger bron Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion yr Hinsawdd ym mis Mawrth 2025
- Gweithio'n rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddatblygu Cynllun Ynni Ardal Leol, a gafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Medi 2024, ar gyfer ardal ddaearyddol Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, gan amlinellu'r newid i system ynni di-garbon erbyn 2050

- Parhau i ddatblygu a gweithredu ystod o brosiectau cynhyrchu ynni, fel a gafodd ei adrodd i Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion yr Hinsawdd ar 28 Tachwedd 2024
- Symud ymlaen ag amrywiaeth o brosiectau gan gynnwys Prosiect Tirweddau Byw a'r Prosiect y Mawndiroedd a gafodd eu cyflwyno ger bron Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion yr Hinsawdd ym mis Mawrth 2025
- Symud ymlaen â'r Prosiect Allgymorth, gan amlygu gweithgareddau allweddol a chynnydd tuag at ymwybyddiaeth o Newid yn yr Hinsawdd a Lleihau Carbon, a gafodd ei gyflwyno ger bron Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion yr Hinsawdd ym mis Mawrth 2025
- Cyfrannu at ddatblygu Asesiad Risg Hinsawdd Cwm Taf Morgannwg yn rhan o Amcan Llesiant Cwm Taf Morgannwg ar gyfer 'Cymdogaethau Lleol Cynaliadwy a Chydnerth' fel sydd wedi'i gynnwys yng Nghynllun Llesiant Cwm Taf Morgannwg 2023 i 2028. Adroddiad diweddaru wedi'i gyflwyno i Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion yr Hinsawdd ar 28 Tachwedd 2024
- Symud ymlaen â'r prosiect ysgol gynradd 'PassivHaus' cyntaf yng Nglyn-coch drwy'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru sef '*bydd gofyn i bob adeilad ysgol a choleg newydd, pob gwaith adnewyddu mawr a phrosiectau estyn fodloni targedau Carbon Sero-Net o Ionawr 1 2022*'
- Parhau i ddatblygu'r gallu i wefru cerbydau trydan ledled y fwrdeistref sirol, gyda diweddariadau rheolaidd ar gynnydd ar gael ar dudalen Mannau Gwefru Cerbydau Trydan ar wefan y Cyngor
- Yn ehangach, roedd trigolion RhCT wedi manteisio ar deithiau bws am bris rhatach drwy gydol y Pasg, gwyliau'r ysgol dros yr haf ac ym mis Rhagfyr. Cafodd hyn ei ariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin i alluogi mwy o bobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus

Mae 2 risg benodol yn ymwneud â'r Hinsawdd yng Nghofrestr Risgiau Strategol y Cyngor, sef Risgiau 24 a 26, gyda rheolaethau a chamau gweithredu ar waith. Gweler y diweddariad yn adroddiad Chwarter 4 i'r Cabinet ar 7 Gorffennaf 2024 er cyflawnder.

**Mae gan y Cyngor hanes da o neilltuo adnoddau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a nodi a darparu dewisiadau 'gwyrdd' eraill i leihau neu wrthbwyso ein hôl troed carbon. Mae strategaethau a chynlluniau manwl ar waith i helpu i gyflawni'r newid sydd ei angen i fodloni'r uchelgais i fod yn Gyngor Carbon Niwtral erbyn 2030.**

**Does dim meysydd i'w gwella wedi'u nodi ar hyn o bryd.**

# 13. Diogelu Corfforaethol

**Mae ein Polisi Diogelu Corfforaethol wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd ac mae'n sail i'r trefniadau sydd ar waith ym mhob rhan o'r Cyngor. Mae'r polisi yn darparu fframwaith sy'n nodi sut y gallwn ni sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau i ddiogelu'r bobl sy'n byw yn ein cymunedau ac yn ystyried y Canllaw Arferion Da Diogelu Corfforaethol a gafodd ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r polisi yn destun adolygiad parhaus.**

Mae Grŵp Diogelu Corfforaethol, sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr, yn gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg, fel sydd wedi'u nodi yn y polisi.

Mae'r Grŵp yn sicrhau bod trefniadau cadarn ar gyfer diogelu ar waith ar draws y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys ceisio sicrwydd bod gan y Cyngor brosesau rheoli cyflawniad effeithiol ar waith er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau'n gorfforaethol ac mewn partneriaeth ag asiantaethau statudol eraill. Mae trefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor yn ychwanegol at y gofynion statudol yn y Sector Addysg a Gofal Cymdeithasol.

Mae pwysigrwydd strategol diogelu corfforaethol y Cyngor hefyd wedi'i ymgorffori yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor 2024 i 2030, a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 24 Ebrill 2024. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor, 'Gweithio gyda'n Cymunedau' yn cynnwys 4 Amcan Llesiant sy'n cael eu cefnogi gan flaenoriaethau craidd, ac adran sy'n nodi'r trefniadau llywodraethu cadarn y mae angen eu rhoi ar waith er mwyn i'n Cyngor gael ei ystyried yn 'Gyngor sy'n cael ei redeg yn dda'. Mae diogelu corfforaethol yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu cadarn y Cyngor.

Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol yn sefydlu fframwaith y mae modd i'r Cyngor barhau i gyflawni ei gyfrifoldebau diogelu oddi mewn iddo i gadw'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau yn ddiogel. Mae'r Fframwaith Diogelu Corfforaethol newydd yn cynnwys 4 maes gweithgarwch:

- **Arweinyddiaeth a Diwylliant**
- **Llywodraethu, Craffu a Rheoli Cyflawniad**
- **Arfer Proffesiynol a Safonau Gwasanaeth**
- **Y Gweithlu, Recriwtio a Dethol**

Yn ei gyfarfod a gafodd ei gynnal ar 18 Medi 2024 roedd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi trafod adroddiad a oedd yn crynhoi'r gwaith a gafodd ei gyflawni mewn perthynas â threfniadau diogelu corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2023 i 2024. Daeth yr adroddiad a gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor i'r casgliad canlynol:

***Mae'r Cyngor yn parhau i fod â threfniadau cadarn ac effeithiol ar waith o ran ei drefniadau diogelu corfforaethol. Mae gwaith da wedi'i wneud yn ystod 2023 a 2024 i wella ein trefniadau, ond rydyn ni'n gwybod bod angen gwaith pellach.***

Cafodd cynllun darparu 2024 i 2025, sy'n canolbwyntio ar y 4 maes gweithgaredd sydd wedi'u nodi yn y Polisi Diogelu Corfforaethol, ei lunio sy'n ymgorffori meysydd gwaith na chafodd eu rhoi ar waith llawn yn ystod 2023 i 2024.

Fe wnaeth y Grŵp Diogelu Corfforaethol gyfarfod 4 gwaith yn ystod y flwyddyn. Un o'u blaenoriaethau allweddol oedd adolygu cynnydd yn erbyn y cynllun darparu a gafodd ei gytuno ar gyfer 2024 i 2025. Cafodd y cynllun ei fonitro a'i adrodd gan ddefnyddio Fframwaith Rheoli Cyflawniad y Cyngor.. Bydd adroddiad sy'n crynhoi'r gwaith a gafodd ei gyflawni mewn perthynas â threfniadau diogelu corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2024 i 2025 yn cael ei gyflwyno ger bron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystod hydref 2025, ond mae rhestr isod o rai o'r cyflawniadau penodol:

- **Arweinyddiaeth a Diwylliant**
  - Wedi rhoi ystod o weithgareddau cyfathrebu ar waith i sicrhau bod pob aelod o staff ac Aelodau etholedig yn cael eu hysbysu a'u hatgoffa o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu corfforaethol ac yn arbennig y Polisi Diogelu Corfforaethol a gafodd ei gymeradwyo ym mis Chwefror 2024. Er enghraifft, cylchlythyr staff, posteri, presenoldeb gwell ar y wefan, y cyfryngau cymdeithasol

- Wedi adolygu ac adnewyddu Polisi'r Cyfryngau Cymdeithasol presennol y Cyngor i sicrhau ei fod yn nodi ac yn mynd i'r afael â risgiau diogelu

- **Arfer Proffesiynol a Safonau Gwasanaeth**
  - Wedi parhau i sicrhau bod diogelu yn cael ei gynnwys yn rhan o becynnau tendro ac ar dudalennau gwe'r polisi caffael, e.e. cadw pobl yn ddiogel, chwythu'r chwiban a mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern
  - Wedi sicrhau bod contractau perthnasol yn destun asesiadau risg seiberddiogelwch parhaus

- **Y Gweithlu, Recriwtio a Dethol**
  - Cafodd hyfforddiant gorfodol 'Cadw Pobl yn Ddiogel' ei lansio ym mis Tachwedd 2024 a'i gyflwyno i bob aelod o staff sy'n gallu cyrchu TG. Bydd angen hyfforddiant atgoffa ar staff bob 3 blynedd
  - Wedi sefydlu mecanwaith lle mae staff sy'n methu â chydymffurfio â gofynion hyfforddi gorfodol yn cael eu nodi ac mae rheolwyr yn cael eu hysbysu drwy RCT Source
  - Wedi cadarnhau y bydd RCT Source yn cael ei defnyddio i weithredu'n storfa ddata ganolog i gofnodi'r holl hyfforddiant diogelu a gaiff ei gyflwyno i staff

- **Llywodraethu, Craffu a Rheoli Cyflawniad**
  - Wedi adolygu'r elfen diogelu corfforaethol o'r Hunanwerthusiad Gwasanaeth i wella sicrwydd gwasanaeth o ran cydymffurfio â threfniadau diogelu corfforaethol ar gyfer Hunanwerthusiad Gwasanaeth 2024
  - Wedi adolygu'r Polisi Diogelu Corfforaethol yn rhan o'r cylch adolygu parhaus, a chytuno ei fod yn addas i'r diben

Mae cynllun darparu sy'n manylu ar y gwaith a fydd yn cael ei gyflawni yn 2025 a 2026 wedi'i lunio, sy'n ymgorffori'r meysydd hynny nad ydyn nhw wedi'u datblygu'n llawn yn 2024 a 2025. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystod hydref 2025 ochr yn ochr â'r adroddiad cynnydd blynyddol ar gyfer 2024 i 2025.

**Mae'r Cyngor yn parhau i fod â threfniadau cadarn ac effeithiol ar waith o ran ei drefniadau diogelu corfforaethol. Mae gwaith da wedi'i gyflawni yn ystod 2024 a 2025 i wella ein trefniadau ymhellach ac mae cynllun darparu ar waith ar gyfer 2025 a 2026 sydd â'r nod o adeiladu ar y sylfeini cryf yma.**

**Does dim meysydd i'w gwella wedi'u nodi ar hyn o bryd.**

CYNGOR RHONDDA CYNON TAF



# CASGLIAD
# CYFFREDINOL

ADRODDIAD CYFLAWNIADCORFFORAETHOL AC
**ADRODDIAD HUNANWERTHUSO** 2024-2025

**Yn seiliedig ar yr adolygiad a'r dystiolaeth ar waith, mae trefniadau'r Cyngor wedi bod yn sail i gynnal sefydlogrwydd a chydnerthedd ariannol y sefydliad, yn ystod cyfnod o bwysau ariannol sylweddol a chyllid cyfyngedig, drwy gynllunio, blaenoriaethu a rheoli adnoddau prin yn effeithiol. Cafodd y sefyllfa yma ei hategu gan brosesau craffu a gwneud penderfyniadau cadarn a threfniadau hunanwerthuso sydd wedi'u hen sefydlu. Roedd hyn yn cefnogi meysydd blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol, cyflawni gwasanaethau yn gyffredinol a deilliannau gwell ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau.**

Mae nifer fach o feysydd i'w gwella wedi'u nodi er mwyn gwella'r prosesau cyfredol ymhellach. Yn unol â hynny, yn seiliedig ar y broses hunanasesu, mae'r Cyngor wedi dangos ei fod wedi arfer ei swyddogaethau yn effeithiol; defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol; a rhoi trefniadau llywodraethu ar waith yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod.

**Mae ein hunanasesiad blynyddol wedi nodi meysydd i'w gwella, a bydd y meysydd yma'n cael eu monitro drwy gydol 2025 a 2026 yn rhan o drefniadau rheoli cyflawniad y Cyngor.**